Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Gyrfa Cymru: Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol Adroddiad gan A. G. Watts



## Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 033/2009
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2009

# Gyrfa Cymru:
# Adolygiad o Safbwynt Rhyngwladol
# Adroddiad gan A. G. Watts

**Cynulleidfa** Cymdeithas Gyrfa Cymru, Cwmnïau Gyrfaoedd yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynghorwyr gyrfaoedd, athrawon gyrfaoedd a rhanddeiliaid eraill sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar faterion sy'n ymwneud â gyrfaoedd.

**Trosolwg** Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o'i hadolygiad ehangach o wasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru. Nod yr adroddiad yw adolygu gwaith Gyrfa Cymru, gan gynnwys ei chysylltiadau â darparwyr gwybodaeth am yrfaoedd, mewn cyd-destun rhyngwladol.

**Camau i'w cymryd** Nid oes camau i'w cymryd.

**Rhagor o wybodaeth**

Peter Hindley
Adolygiad Gyrfa Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ffôn: 01443 663726
Ffacs: 01443 663762
E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Ar gael oddi wrth:
Michelle Rose
Ffôn: 01443 663716
Ffacs: 01443 663762
Neu, ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:
www.cymru.gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig** Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2008). Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5262 5
© Hawlfraint y Goron Awst 2009
CMK-22-04-045(339)
E2460910

# Crynodeb Gweithredol

1. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o adolygiad ehangach y mae'n ei gyflawni mewn perthynas â gwasanaethau gyrfa yng Nghymru. Nod yr adroddiad yw adolygu gwaith Gyrfa Cymru, gan gynnwys ei gysylltiadau â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill, mewn cyd-destun rhyngwladol. Defnyddiwyd meincnodau a ddarparwyd gan Adolygiad Polisi Cyfarwyddyd Gyrfa OECD. Caiff cymariaethau penodol eu gwneud â'r prif wasanaethau pob oed eraill, yn Seland Newydd, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

2. Seilir yr adroddiad ar archwiliad o fwy na 200 o ddogfennau a 6 diwrnod o gyfarfodydd ac ymweliadau a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2008. Cynhwysai'r rhain gyfarfodydd gyda staff perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, prif weithredwyr cwmnïau Gyrfa Cymru, nifer o staff cwmnïau Gyrfa Cymru ac amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid.

3. Ar sail yr adolygiad hwn, mae **cryfderau** Gyrfa Cymru yn cynnwys:

- **Natur glir ei ffiniau.** Mae ganddo weledigaeth glir a chyson: 'datblygu pobl yng Nghymru trwy gynllunio gyrfa gydol oes'. Yn gyffredinol, mae ystod ei weithgareddau'n gydlynol a synergaidd, ac mae pob un yn ychwanegu gwerth at y llall.
- Natur **pob oed** ei wasanaethau. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i ymgyfarwyddo yn yr ysgol â gwasanaethau y gallant eu defnyddio'n hwyrach, atal rhwygiadau llym yn y gefnogaeth sydd ar gael wrth symud o ieuenctid i oed oedolyn a chynnig synergeddau posibl ac arbediadau cost trwy ddarparu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion o fewn yr un fframwaith gwasanaeth.
- Ei **natur broffesiynol.** Yn gyffredinol, mae gan ei wasanaethau enw da. Mae maint ei ddarpariaeth gwasanaeth yn sylweddol. Dyma'r achos yn benodol mewn perthynas â phobl ifanc, sy'n derbyn mwy o barhad yn y gefnogaeth cyfarwyddyd gyrfa broffesiynol na phobl ifanc o wledydd eraill. Rhoddwyd sylw manwl i sicrhau ansawdd, gan gynnwys safonau proffesiynol, systemau arolygu, a mesur effaith. Gall gyfiawnhau hawlio bod o'r radd flaenaf mewn perthynas â'r holl feini prawf hyn.
- Y graddau y mae **wrth wraidd polisïau'r Cynulliad.** Mae'n darparu isadeiledd cryf sy'n wynebu dinasyddion ac sy'n canolbwyntio arnynt a, thrwy hyn, mae'n bosibl symud polisïau'r Cynulliad yn eu blaen. Mae hyn yn amlwg yn y ffordd y mabwysiadwyd Gyrfa Cymru Ar-Lein yn ddull cyfarwyddyd allweddol ac yn ddull gweinyddol allweddol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Yn ychwanegol, mae Gyrfa Cymru'n chwarae rolau porthgadw pwysig ar gyfer nifer o raglenni'r Cynulliad. Tu hwnt i hyn, mae potensial iddo gael ei ddefnyddio'n helaethach nag ar hyn o bryd i ddarparu adborth i lunwyr polisi ar effaith polisïau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar

unigolion, ynghyd â dadlau dros anghenion unigolion nad ydynt wedi eu diwallu.

- Y graddau y mae **wrth wraidd cymunedau lleol.** Mae hyn yn amlwg o'i ymgysylltiad agos â phartneriaethau lleol a rolau cydlynu, ac yn ystod ei gysylltiadau a rhwydweithiau lleol. Mae'n arbennig o bwysig wrth ei alluogi i ddelio â'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol, a rhwng ardaloedd sy'n bennaf ddwyieithog neu'n bennaf uniaith Saesneg, ac hefyd i ystyriaethau penodol datblygu cymunedol Gogledd Cymru.

Mae'r cryfderau hyn yn perthyn yn agos i'w gilydd. Mae'n bwysig adeiladu arnynt yn hytrach na'u herydu.

4. Ar yr un pryd, mae'n glir bod Gyrfa Cymru yn wynebu nifer o brif **heriau.** Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr angen i roi mwy o sylw i anghenion **oedolion.** Er bod Gyrfa Cymru yn gwasanaethu pob oed, dim ond rhyw 15% o'i adnoddau sy'n cael eu dyrannu ar hyn o bryd i gefnogi cleientiaid sy'n oedolion. Mae'r dyraniad isel hwn yn cael ei gwestiynu o dri safbwynt erbyn hyn: yr agenda sgiliau eang; effaith diwygio lles; a'r twf enfawr tebygol mewn dileu swyddi. Mae'n bosibl y bydd gan bob un o'r tri oblygiadau enfawr ar adnoddau Gyrfa Cymru; gyda'i gilydd, mae eu heffaith yn debygol o fod yn anorchfygol.
- Yr angen i benderfynu a yw Gyrfa Cymru yn wasanaeth **pob gallu** yn ogystal â phob oed. Hyd at 16 oed, mae hyn yn bendant. Wedi hynny, fodd bynnag, mae'n dueddol o gael ei ddenu tuag at lefelau sgil is. Mae hyn yn amlwg o arfer rhai ysgolion (er dim ond rhai) o athrawon yn rheoli cyfarwyddyd ar gyfer disgyblion chweched dosbarth yn hytrach na chynghorwyr Gyrfa Cymru, yn y ffaith bod gan y rheiny sy'n mynd i addysg uwch fynediad at ystod ar wahân o wasanaethau gyrfa addysg uwch, arfer rhai o gwmnïau Gyrfa Cymru o is-gontractio gwasanaethau i raddedigion i'r gwasanaethau gyrfa addysg uwch hyn, a thuedd gwaith datblygu gweithlu Gyrfa Cymru i dargedu gweithwyr sgil isel. Ar y llaw arall, mae gweledigaeth Gyrfa Cymru yn berthnasol i bawb, a nod clir Gyrfa Cymru Ar-Lein yw galluogi pawb yng Nghymru i ddatblygu eu gyrfa a sgiliau dysgu trwy e-bortffolio a chynnwys cynorthwyol y wefan. Yn ychwanegol, gall unrhyw un ffonio'r llinell gymorth a gellir darparu cyfweliadau i unrhyw un sy'n gofyn am un ac sy'n barod i aros: mae gan ddau o bob tri oedolyn sy'n cael cyfweliad gymwysterau Lefel 3 neu uwch. Rhesymeg hyn yw bod Gyrfa Cymru yn ceisio gwasanaethu ei holl ddinasyddion ond mewn ffyrdd gwahaniaethol.

5. Os yw Gyrfa Cymru yn bwriadu estyn ei wasanaethau'n sylweddol i oedolion oddi mewn i'r model presennol o ddarparu gwasanaethau, byddai hyn yn gofyn am gynnydd enfawr mewn adnoddau. Mae'r achos dros ychydig o gynnydd cyllidebol yn gryf. Ond mae pwysau cyllidebol yn y Cynulliad yn ei gwneud yn annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn ddigon heb ryw **ailfodelu** sylweddol o wasanaethau, a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl symud rhai o'r adnoddau a neilltuir ar hyn o bryd i bobl ifanc i oedolion.

6. Mae Gyrfa Cymru eisoes wedi cydnabod yr angen am yr ailfodelu hwn mewn perthynas â gwasanaethau i bobl ifanc. Ni ellir bodloni galwadau Llwybrau Dysgu 14-19 am gymorth ym mhob un o'r pedwar pwynt penderfynu yn y model presennol, a chydnabuwyd felly y bydd angen symud tuag at ddarpariaeth gwasanaeth fwy gwahaniaethol. Mae achos cryf dros roi'r egwyddorion hyn ar waith yn ehangach ac mewn ffordd fwy radical ledled ystod lawn gwasanaethau Gyrfa Cymru a ledled ystod lawn ei gleientiaid presennol a darpar gleientiaid.

7. Bydd hon yn her sylweddol i Gyrfa Cymru. Yn wahanol i safonau uchel ei waith ar ansawdd ei wasanaethau, hyd yma, mae wedi rhoi llawer llai o sylw na sefydliadau cymharol yn Lloegr, Yr Alban a Seland Newydd i integreiddio'n agosach sianeli gwasanaeth, darpariaeth gwasanaeth wahaniaethol, ymagweddau systematig at rannu cwsmeriaid a marchnata ei wasanaethau'n rhagweithiol. Mae'r rhain yn rhyng-gysylltiedig iawn. Mae angen ymdrin â phob un yn fwy systematig a strategol yn y dyfodol.

8. Mae angen i'r ailfodelu hwn ystyried y berthynas â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill hefyd, ac edrych i ba raddau y gall Gyrfa Cymru roi mwy o'i adnoddau i **adeiladu medrau eraill** i ddarparu gwasanaethau. Bydd hyn yn gofyn am adolygiad mawr o'r trefniadau contract gyda'r Cynulliad sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar feintiau targed sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Ochr yn ochr â hyn, mae achos dros archwilio'r posibilrwydd, ym maes addysg uwch ond, o bosibl, ym meysydd eraill hefyd, o **estyn brand Gyrfa Cymru** i ystod ehangach o ddarpariaeth, er mwyn cynnal mynediad parhaus.

9. Bydd pryderon bod ymdrin â'r materion hyn yn peryglu ansawdd. Yn fwy adeiladol, bydd yn mynnu ailfframio sut y caiff ansawdd ei ddiffinio. Ond nid yw'r model presennol yn gynaliadwy os mai'r bwriad yw estyn mynediad yn sylweddol.

10. Os ydym am gyflawni'r newidiadau hyn, bydd angen **arweinyddiaeth gref,** ochr yn ochr â rhyngwyneb cryf â'r Cynulliad. Yn y ddau achos hwn, mae'r strwythur presennol, sef chwe chwmni annibynnol Gyrfa Cymru, ynghyd â seithfed cwmni o dan berchenogaeth ar y cyd sy'n gwasanaethu'r chwe chwmni arall, yn broblemus. Mae'r arweinyddiaeth a'r berthynas â'r Cynulliad yn rhy tryledol.

11. O ganlyniad, mae achos cryf dros **ailstrwythuro** fframwaith cyfundrefnol Gyrfa Cymru. Mae'r opsiynau'n amrywio o gontract uniongyrchol â Chymdeithas Gyrfa Cymru (CWA) ochr yn ochr â'r contractau cwmni presennol, gyda'r CWA yn brif gontractwr ac yn is-gontractio i'r cwmnïau gyrfa, i sefydliad unedol (un cwmni, neu gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, neu'n cael ei ymgorffori i mewn i'r Cynulliad). Mae natur ganolog arweinyddiaeth (sy'n cael ei hatgyfnerthu gan esiampl Seland Newydd) yn tueddu i bwyso yn erbyn y cyntaf o'r opsiynau hyn a ffafrio'r opsiynau cryfaf.

12. Ochr yn ochr â hyn, mae angen cyfochrog i'r Cynulliad gryfhau neu ailfframio ei Gangen Polisi Gyrfa fel ei **rhyngwyneb polisi** â Gyrfa Cymru.

13. I gloi, mae achos cryf dros **fforwm cyfarwyddyd gyrfa i Gymru,** yn gysylltiedig o bosibl â Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, i ddarparu arweinyddiaeth strategol yn y maes ehangach o gyfarwyddyd gyrfa. Dylai fod yn **gysylltiedig â fforwm y DU** er mwyn galluogi ymdrin â materion y DU cyfan (e.e. mewn perthynas â brandio a marchnata, safonau proffesiynol a pholisi sgiliau a lles) ac i creu sylfaen ar gyfer y DU i chwarae rôl gref yn y rhwydweithiau Ewropeaidd a byd-eang ehangach.

14. Mae Gyrfa Cymru yn sefydliad cryf a phroffesiynol iawn a dylai'r Cymulliad ymfalchïo yn hyn. Os caiff y newidiadau hyn eu gwneud a'u gwneud yn dda, mae gan Gyrfa Cymru y gallu i ddod yn wasanaeth o'r radd flaenaf a gwneud cyfraniad mwy hyd yn oed i ddatblygiad dinasyddion Cymru ac felly ffyniant economaidd a chymdeithasol Cymru.

# Cynnwys

| | Page No |
|---|---|
| **Rhagair** | **1** |
| **1. Gosod y Cyfeiriad** | **3** |
| Tarddiad | 3 |
| Cyd-destun polisi | 5 |
| Strwythur | 9 |
| Lefel adnoddau | 14 |
| Cyd-destun rhyngwladol | 15 |
| Casgliad | 21 |
| **2. Llunio'r Gwasanaeth** | **23** |
| Mynediad | 23 |
| Cydlyniad | 24 |
| Sianelu | 24 |
| Gwahaniaethu | 30 |
| Treiddiad | 32 |
| Targedu | 34 |
| Marchnata | 38 |
| Casgliad | 40 |
| **3. Gwella Perfformiad** | **43** |
| Ansawdd | 43 |
| Staffio | 43 |
| Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad | 46 |
| Casgliad | 51 |
| **4. Gweithio gyda Darparwyr Cyfarwyddyd Gyrfa Eraill** | **53** |
| Egwyddorion | 53 |
| Ysgolion a cholegau | 54 |
| Addysg uwch | 60 |
| Canolfan Byd Gwaith | 63 |
| Sector gwirfoddol a chymunedol | 65 |

Cyflogwyr ac undebau llafur 66
Gweithio mewn partneriaeth 67
Arweinyddiaeth strategol 69
Casgliad 71

**5. Crynhoi ac Edrych i'r Dyfodol 73**

Meincnodau OECD 73
Cryfderau 74
Heriau 75
Awgrymiadau eraill 78
Casgliad 78

**Atodiad: Rhaglen Visit 79**

# Rhagair

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o adolygiad ehangach y mae'n ei gyflawni o wasanaethau gyrfa yng Nghymru. Nod yr adroddiad yw adolygu gwaith Gyrfa Cymru, gan gynnwys ei gysylltiadau â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill, mewn cyd-destun rhyngwladol. Defnyddiwyd y meincnodau a ddarparwyd gan Adolygiad Polisi Cyfarwyddyd Gyrfa OECD.[1] Gwnaed cymariaethau penodol hefyd â'r prif gwasanaethau pob oed eraill, yn Seland Newydd, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae fframwaith yr adroddiad yr un fath â'r un a fabwysiadwyd mewn adolyigadau blaenorol a gyflawnwyd ar yr holl wasanaethau pob oed yn Seland Newydd[2] a'r Alban[3]. Tynnir cymariaethau hefyd â Lloegr, sy'n wahanol yn y DU oherwydd ei pholisïau a strwythurau cyfarwyddyd gyrfa ar wahân ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Yn ychwanegol, rhoddir sylw i rai materion ledled y DU.

Seilir yr adroddiad ar archwiliad o fwy na 200 o ddogfennau a chwe diwrnod o gyfarfodydd ac ymweliadau ym mis Tachwedd 2008. Cynhwysai'r rhain gyfarfodydd gyda staff perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda phrif weithredwyr cwmnïau Gyrfa Cymru, gyda nifer o staff cwmnïau Gyrfa Cymru a chydag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid (ar gyfer y rhaglen, gweler yr atodiad). Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r rhain yng Nghaerdydd, ond bu ymweliadau â Chaerffili hefyd (lle caiff Cymdeithas Gyrfa Cymru ei lleoli) a Bangor (lle cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ystod eang o bobl o ogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Cymru).

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r rhai sydd wedi darparu gwybodaeth ar gyfer fy adolygiad, y rhai a drefnodd ac a gefnogodd fy amserlen, ac a gymerodd ran yn yr amryw gyfarfodydd. Gobeithiaf y bydd yr adroddiad yn cyfrannu'n sylweddol i'r adolygiad y mae'n rhan ohono.

Tony Watts
Caergrawnt
Rhagfyr 2008

[1] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap.* Paris: OECD. Ymgorfforodd yr adolygiad 14 o wledydd, ac mae wedi cael ei estyn ers hynny trwy Fanc y Byd, y Comisiwn Ewropeaidd a Sefydliad Hyfforddiant Ewrop i gwmpasu cyfanswm o 55 o wledydd.
[2] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective.* Wellington, Seland Newydd: Career Services.
[3] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential.* Glasgow: Careers Scotland.

# 1. Gosod y Cyfeiriad

## Tarddiad

1.1 Mae Gyrfa Cymru yn frand, nid yn sefydliad. Ar hyn o bryd, mae'n cwmpasu gwaith chwe chwmni annibynnol nid-er-elw, ynghyd â seithfed – Cymdeithas Gyrfa Cymru (CWA) – y mae'r chwech arall yn berchen arno. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn contractio gyda'r chwe chwmni i ddarparu ystod eang o wasanaethau gyrfa ledled Cymru. Seilir y contractau ar dempled cyffredin ac mae'r cwmnïau'n gweithio'n agos mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, ac yn defnyddio CWA ar gyfer rhai o'r pwrpasau hyn.

1.2 Deilliodd sefydlu Gyrfa Cymru o waith Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Cymru (ETAG) a'i nod o sefydlu Cymru fel 'gwlad sy'n dysgu' gyda'r gallu i gynyddu sgiliau ei gweithlu er mwyn cystadlu'n rhyngwladol. Ym 1999, cyhoeddodd ETAG gynllun gweithredu, a gynhwysai'r datganiad 'y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd pob oed – Gyrfa Cymru – erbyn mis Ebrill 2001'. Roedd argymhellion perthynol yn cynnwys: gweithredu cwmnïau cyfredol o dan y brand Gyrfa Cymru newydd; darparu rhwydwaith o fannau mynediad; gwneud cyfarwyddyd gyrfa yn rhad ac am ddim i bobl ddiwaith, pobl economaidd anweithredol, y rhai ar incwm isel a'r rhai a oedd yn agored i ddileu swyddi; a gweithio gyda phartneriaethau addysg-busnes i sefydlu ymagwedd ddidrafferth. Gwnaed argymhellion pwysig eraill ar addysg a chyfarwyddyd gyrfa yn fwy cyffredinol, gan gynnwys comisiynu Gyrfa Cymru i ddatblygu gwobr ansawdd Cymru gyfan ar gyfer darparwyr dysgu a bodloni safonau cytunedig mewn addysg gyrfa[4]. Rhoddwyd yr holl bwyntiau hyn ar waith.

1.3 Lansiwyd Gyrfa Cymru ym mis Ebrill 2001 gan Jane Davidson, y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes bryd hynny. Rhestrodd ei ffactorau llwyddo hanfodol fel a ganlyn.

- Creu gwasanaeth cenedlaethol yn gweithio yn unol â safonau ansawdd cenedlaethol, ond yn gweithio gydag anghenion y gymuned leol ac ymateb i'r anghenion hynny.
- Olrhain gorchwyl ehangach maes traddodiadol y cwmnïau gyrfa o bobl ifanc mewn addysg – er enghraifft, gweithio gyda chyflogwyr i hybu cysylltiadau addysg-busnes a chyda grwpiau cymunedol i helpu'r rheiny sy'n ystyried dychwelyd i ddysgu.
- Gwneud gwasanaeth 'pob oed' yn realiti.

[4] Roedd eraill yn cynnwys: comisiynu adnabod canlyniadau dysgu ar gyfer addysg gyrfa i'w defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru; diwygio rheoliadau i wneud addysg gyrfa mewn ysgolion a cholegau'n orfodol i fyfyrwyr 16-19 oed; a gwahodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ddatblygu safonau meincnodi ar gyfer gwasanaethau gyrfa mewn addysg uwch; ac addysg gyrfa fel rhan annatod o ddarpariaeth cyrsiau addysg uwch. Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Cymru (1999). *An Education and Training Action Plan for Wales*, pennod 7. Caerdydd: Swyddfa Gymreig.

- Arloesedd a gwelliant parhaus[5].

Mynegwyd y weledigaeth wrth wraidd sefydlu Gyrfa Cymru yn hwyrach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel darparu 'cyfle i newid y gefnogaeth a ddarperir er mwyn sefydlu diwylliant yng Nghymru o ddysgu gydol oes'[6].

1.4 Argymhellodd adroddiad ETAG y dylai'r Cynulliad, yn y dyfodol, ystyried y buddion i'w cael o leihau nifer y cwmnïau. Unodd dau o'r cwmnïau (Dyfed a Gorllewin Morgannwg) i greu Gyrfa Cymru Gorllewin; ac, yn 2005, unodd Morgannwg Ganol a Phowys hefyd. Felly mae nifer y cwmnïau gyrfa sy'n cwmpasu Gyrfa Cymru wedi gostwng o wyth i chwech.

1.5 Gan fod Gyrfa Cymru wedi ei seilio ar strwythurau cwmni cyfredol, mae hanes tymor hwy'r strwythurau hyn yn berthnasol o ran esbonio rhai agweddau ar y trefniadau presennol. Cyn y 1990au cynnar, roedd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn Lloegr, Yr Alban a Chymru'n gyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol (AALl), yn canolbwyntio yn bennaf ar bobl ifanc. Yng Nghymru, sefydlwyd ethos Cymru gyfan, gan gynnwys logo cyffredin i gryfhau delwedd brand y Gwasanaeth Gyrfaoedd (gan ychwanegu draig at y cynllun sylfaenol o bedair saeth). Ym 1995, marchnadeiddiwyd y Gwasanaeth Gyrfaoedd, a rhoddwyd contractau i gynnig y gwasanaeth yn lleol trwy dendro cystadleuol. Yng Nghymru, enillodd pob un o'r wyth gwasanaeth lleol presennol y contractau, ar ffurf partneriaethau rhwng AALlau a Chynghorau Hyfforddiant a Menter (TECs). Bum mlynedd yn hwyrach, cyfyngwyd ceisiadau i adnewyddu'r contractau i'r deiliaid presennol. Cytunwyd yn hwyrach y byddai'r contractau'n cael eu trafod yn flynyddol gyda chwmnïau presennol y Gwasanaeth Gyrfaoedd, ar yr amod y byddent yn parhau i fodloni safonau gwasanaeth diffiniedig a dangos ymroddiad i welliant parhaus. Yn raddol, ailsefydlodd hyn y diwylliant o gydweithrediad a gafodd ei rwygo i raddau gan y broses farchnadeiddio. Cwmpasai rhai o'r cwmnïau gyrfa gysylltiadau addysg-busnes a chyfarwyddyd i oedolion hefyd; mewn ardaloedd eraill, rheolwyd y rhain ar wahân gan y TECs. Yn dilyn datganoli, daethpwyd â'r strwythurau hyn at ei gilydd i ffurfio'r contractau a ffurfiodd Gyrfa Cymru[7]. Mae rhai elfennau o'r strwythurau blaenorol gwahanol yn dal i fod yn amlwg.

1.6 Wedi hynny, yn 2004, comisiynodd y Cynulliad adolygiad strategol o Gyrfa Cymru gan gynghorwyr annibynnol. Archwiliodd yr adroddiad gan Moulson & Prail[8] amrywiaeth eang o faterion yn perthyn i sut roedd Gyrfa Cymru wedi datblygu hyd yn hyn, ac edrychodd ar nifer o strwythurau cyfundrefnol eraill er mwyn datblygu yn y

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Gyrfaoedd yng Nghymru, 2000-2001,* tud 7. Caerdydd: LlCC.

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Cynllunio Corfforedig a Busnes 2004-2005: Cyfarwyddyd i Gwmnïau Gyrfa Cymru,* tud 3. Caerdydd: LlCC.

[7] I gael mwy o fanylion, gweler Clark, M. & Talbot, J. (2006). Career guidance in Wales: retrospect and prospect. *British Journal of Guidance and Counselling, 34(1),* 55-71. Hefyd Peck, D. (2004). *Careers Services: History, Policy and Practice in the United Kingdom.* London: Routledge.

[8] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygu Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

dyfodol. Gwnaeth nifer fawr o argymhellion, a gweithredwyd y rhan fwyaf ond nid pob un o'r rhain. Mae'n sylfaen werthfawr ar gyfer yr adolygiad presennol.

**Cyd-destun polisi**

1.7 Mewn datganiad strategaeth diweddar[9], mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn diffinio eu bwriad fel 'datblygu pobl yng Nghymru trwy gynllunio gyrfa gydol oes'. Mae ganddynt bum **nod strategol:**

- Galluogi/helpu unigolion i gynllunio, rheoli a symud datblygiad eu gyrfa yn ei flaen a gwella eu cyflogadwyedd.
- Cyfrannu at ffyniant economaidd Cymru trwy annog a chefnogi unigolion i gynyddu lefel eu sgiliau.
- Cyfrannu at ffyniant cymdeithasol Cymru trwy helpu i roi hyder a medr i unigolion gyflawni eu potensial a mynd at gyfleoedd.
- Dylanwadu polisïau cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n perthyn i ddysgu gydol oes, cynhwysiad cymdeithasol a datblygiad economaidd, gan ddefnyddio cysylltiad beunyddiol gyda chleientiaid i fwyhau effaith gwasanaethau.
- Sicrhau bod Gyrfa Cymru yn cynnal ei enw fel gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, sy'n tueddu at bartneriaethau, sy'n arloesol, proffesiynol a blaengar mewn cyd-destun sy'n dal i newid.

1.8 Mae ystod y meysydd polisi sy'n berthnasol i waith Gyrfa Cymru yn eang iawn. Mae o leiaf tri maes o bwys yn berthnasol ar hyn o bryd.

1.9 Y cyntaf yw'r polisi **Llwybrau Dysgu 14-19**, a gynlluniwyd i drawsffurfio darpariaeth ddysgu i bobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn gysylltiedig iawn â datblygiad y Fagloriaeth Gymreig fel y dewis cymhwyster i bobl ifanc yng Nghymru. Mae chwe elfen allweddol i'r polisi llwybrau, a gynlluniwyd i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn derbyn y cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n bodloni eu hanghenion orau. Mae'r rhain fel a ganlyn: Llwybrau Dysgu unigol; dewis ehangach a rhaglenni a ffyrdd o ddysgu sy'n fwy hyblyg; 'craidd dysgu' sy'n rhedeg o 14 tan 19 lle bynnag fo pobl ifanc yn dysgu; cefnogaeth anogwr dysgu; mynediad at gefnogaeth bersonol; a mynediad i gyngor a chyfarwyddyd gyrfa diduedd[10]. Mae Gyrfa Cymru yn arbennig o benodol mewn perthynas â'r un olaf ond, yn ymarferol, mae hefyd yn chwarae rôl ehangach, gan fod profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn rhan o'r 'craidd dysgu' ac yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaethau broceru a chefnogi y mae Gyrfa Cymru'n eu darparu (gweler paragraff 4.10). Mae Gyrfa Cymru Ar-Lein hefyd yn cael ei ddefnyddio nid fel dull cyfarwyddyd ond fel dull gweinyddol allweddol i gefnogi gweithrediad y polisi llwybrau 14-19 (gweler paragraff 2.25).

---

[9] Gyrfa Cymru (2007). *Cyd-destun a Gweledigaeth 2007-2010.* Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.
[10] Adran Hyfforddiant ac Addysg (2004). *Cyfarwyddyd Llwybrau Dysgu 14-19.* Cylchlythyr 37/2004. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

1.10 Yr ail yw'r polisi sy'n perthyn i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (**NEET**). Prif nod y polisi yw lleihau nifer y bobl ifanc yn y grŵp hwn. Mae mesurau i ymdrin â'r nod hwn yn cynnwys camau i sicrhau bod digon o opsiynau dysgu yn eu lle i wasanaethu anghenion y bobl ifanc hyn. Ond maent hefyd yn cynnwys prosesau olrhain effeithiol, a darparu ystod o gefnogaeth gan gynnwys cefnogaeth dysgu, cefnogaeth bersonol a chyngor a chyfarwyddyd gyrfa. Gwelir Gyrfa Cymru'n chwarae ganolog mewn perthynas â hyn. Argymhellodd dogfen ymgynghori ddiweddar 'o ystyried toreth y gwasanaethau ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc NEET… mae angen i un sefydliad fod yn gyfrifol am gydlynu ac arwain y gwaith hwn'. Aeth yn ei flaen: 'Ar ôl ystyried eu gorchwyl presennol i adnabod a chofrestru pobl ifanc NEET, cefnogi trosglwyddo ôl-16, y gwaith ataliol cynyddol y maent yn rhan ohono a'u cysylltiadau sefydledig â'r Ganolfan Byd Gwaith, credwn y dylai cwmnïau Gyrfa Cymru – o fewn cyd-destun Partneriaethau Pobl Ifanc - ymgymryd â'r rôl honno'[11].

1.11 Y trydydd yw maes ehangach yr **agenda sgiliau**. Mae hyn yn cynnwys polisïau yn ymwneud â phobl ifanc, ond yn eu hehangu i ymdrin â her ehangach codi lefel sgiliau'r gweithlu. Mae'r rhyngwyneb â pholisi DU gyfan yn arwyddocaol yn y maes hwn. Paratowyd Adroddiad Leitch[12] mewn cydweithrediad agos â'r gweinyddiaethau datganoledig, ac roedd ei ddadansoddiad craidd – a roes bwysigrwydd sylweddol i rôl gwasanaethau gyrfa wrth gymell a chefnogi unigolion i adeiladu eu sgiliau – yn DU gyfan. Mae elfennau pwysig polisi dilynol llywodraeth y DU yn ymwneud â sgiliau wedi cyfeirio at ei ryngwyneb â diwygio lles, nad yw wedi'i ddatganoli: gall hyn fod â goblygiadau sylweddol i waith Gyrfa Cymru (gweler para 4.38-4.39). Yn y cyfamser, roedd Adroddiad Webb ar addsyg bellach yn nodi o ran Gyrfa Cymru fod 'y grŵp cleient 14-19 yn rheoli cyfran anghyfartal o uchel o'r adnoddau presennol'. Roedd yn cadarnhau bod 'angen cymorth cynllynio gyrfa'r boblogaeth sy'n oedeolion hefyd: ar gyfer pobl ddiwaith ac wedi'u hymddieithrio; ar gyfer pobl sy'n dychwelyd i ddysgu; ar gyfer y rheiny a gafodd eu hymddiswyddo ac sydd yn y maes datblygu'r gweithlu'. Adroddwyd bod 'tystiolaeth a dderbyniwyd yn awgrymu nad yw adnoddau presennol yn ddigon i fodloni anghenion y boblogaeth sy'n oedolion'. Felly, argymhellir y dylai'r Cynulliad 'ganfod yr adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau i bob oed ledled Cymru'[13]. Yn sgil hynny, roedd dogfen strategaeth y Cynulliad ar gyfer polisi sgiliau a chyflogaeth yn cyfeirio at Gyrfa Cymru fel gwasanaeth i bob oed gan amlygu ei fod yn bryd 'ail-archwilio beth fyddai'r ffordd o orau o gyflwyno'r gwasanaethau hyn'[14]. Dyma'r prif ysgogiad ar gyfer yr adolygiad presennol.

---

[11] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru,* t.16. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[12] Leitch Review of Skills (2006). *Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills*. Llundain: The Stationery Office.

[13] Webb, A., Drury, S. & Griffiths, G. (2007). *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,* t.89-90. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[14] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: a Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.27. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

1.12 Yn ogystal â'r tri maes hwn, mae meysydd eraill ym mholisi'r Cynulliad sy'n cael effaith fawr ar waith Gyrfa Cymru. Mae'n werth amlygu dau yma yn arbennig. Un yw ei bolisi yn ymwneud â **darparu gwasanaethau cyhoeddus**, a amlinellwyd yn ei adroddiad *Creu'r Cysylltiadau.* Y pedair prif egwyddor yw: gweithio mewn partneriaeth, datblygu'r gweithlu, enillion effeithlonrwydd ('gwerth gwell i bunt Cymru'), a 'rhoi dinasyddion yn gyntaf'. Ma gan bob un ohonynt oblygiadau i Gymru. O ran yr olaf o'r tri – dinasyddion yn cael y brif sylw – enwir Gyrfa Cymru yn yr adroddiad fel enghraifft o fynediad a chymorth rheng flaen[15].

1.13 Y llall yw polisi'r Cynulliad sy'n ymdrin â'r **iaith Gymraeg a dwyieithrwydd**. Un o argymhellion Adolygiad Webb oedd 'sicrhau bod Gyrfa Cymru'n rhoi gwybod i bobl ifanc am yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael sy'n gofyn am yr iaith Gymraeg'[16]. Mae pob cwmni Gyrfa Cymru'n cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg i gynnig cyngor a chyfarwyddyd i bobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac i'n holl gleientiaid yn ôl y galw. Hefyd, darperir ystod o yrfaoedd dwyieithog a deunyddiau LMI mewn copi caled a thrwy Gyrfa Cymru Ar-lein[17].

1.14 Felly, mae gwaith Gyrfa Cymru'n effeithio ar ystod eang o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gyffredinol a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn enwedig. Y brif berthynas â chwmnïau Gyrfa Cymru yw cyfrifoldeb **Cangen Polisi Gyrfa**, sy'n cynnwys saith aelod o staff amser llawn ar hyn o bryd. Lleolwyd hyn gynt mewn is-adran yn ymwneud ag ieuenctid yn bennaf ond, yn ddiweddar, symudwyd i adran sy'n canolbwyntio ar ddysgu gydol oes ôl-16: er y ffaith fod tua phedair pumed o waith Gyrfa Cymru yn ymwneud ag unigolion cyn-16.

1.15 Un o'r heriau i wasanaethau gyrfa pob oed yw sut i gyflawni **rhyngwyneb polisi** effeithiol: sut i gysylltu'n effeithiol â changhennau neilltuol gwneud polisi, llawer ohonynt yn benodol i oed ac i sector. Mae perygl y bydd yn destun disgwyliadau sy'n cystadlu, na chânt eu cymodi (ymddengys fod rhai canghennau'r Cynulliad o'r farn ar adegau fod Gyrfa Cymru'n eistedd ar adnodd, ac yn disgwyl iddo fodloni eu gofynion mewn un contract craidd sy'n bodoli eisoes). Mae hefyd perygl na fydd ganddo gysylltiadau uniongyrchol digon cryf â rhai canghennau lle gallai ei waith fod yn berthnasol.

1.16 Mae'r ddau berygl hyn yn amlwg yn y trefniadau presennol. Yn sicr mae gan gwmnïau Gyrfa Cymru amrywiaeth eang o gysylltiadau gyda Gweinidogion, gydag aelodau'r Cynulliad a gyda gweision sifil, a chaiff ei gynrychioli ar bwyllgorau a gweithgorau amrywiol. Cafwyd secondiadau achlysurol gan staff Gyrfa Cymru i APADGOS i weithio ar feysydd polisi arbennig. Ond er bod Cangen Bolisi Gyrfa Cymru yn amlwg wedi chwarae rôl wrth ddatblygu gwasanaethau Gyrfa Cymru, ac wedi

[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*, t.13. Caerdydd: LlCC.

[16] Webb, A., Drury, S. & Griffiths, G. (2007). *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,* p.25 *Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

[17] Cynhaliwyd adolygiad o'r rhain ac ymarferion eraill yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gan Mabis ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2007 ymhob cwmni Gyrfa Cymru. Cyflwynwyd adroddiad interim, ond derbyniodd wrthbrawf manwl llym gan un o gwmniau Gyrfa Cymru, ac ni chyhoeddwyd adroddiad terfynol.

gwneud ei orau i reoli gofynion o feysydd polisi eraill, mae'r cwmnïau o'r farn ei fod yn ymwneud yn bennaf â rheoli contractau. Felly, credir nad oes ganddo ddylanwad a throsoledd digonol i gyfryngu'r gormodedd o flaenoriaethau polisi y mae disgwyl iddynt ymateb iddynt, neu i sicrhau y clywir llais Gyrfa Cymru ymhob un o'r meysydd polisi y mae ei waith yn berthnasol iddynt. Roedd ymateb Cymdeithas Gyrfa Cymru i'r Ymgynghoriad *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn sylwi bod 'Gyrfa Cymru'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cefnogi nifer o feysydd polisi Llywodraeth y Cynulliad', a bod 'dangosyddion perfformiad a gasglwyd yn annibynnol yn dangos bod safon ein gwasanaethau ledled Cymru'n uchel a bod ein cleientiaid yn eu gwerthfawrogi', yng ngoleuni hyn, 'mae'n siom na chaiff ein gwaith a'n gwasanaethau eu deall na'u cydnabod ledled Llywodraeth y Cynulliad[18].

1.17 Er, i'r gwrthwyneb, ymddengys yn amlwg nad yw strwythur presennol Gyrfa Cymru'n helpu o ran hyn. Nid yw'r broblem 'pwy sy'n siarad ar ran Gyrfa Cymru?' yn gwestiwn hawdd ei ateb. Mae gwahanol brif weithredwyr yn ymddwyn fel 'eiriolwyr' mewn meysydd polisi penodol, ond nid yw'r dyletswyddau hyn bob amser yn weladwy o'r tu allan; yn aml mae'n rhaid i gysylltiadau fynd drwy Gymdeithas Gyrfa Cymru neu i gadeirydd grŵp y prif weithredwyr er mwyn cael eu cyfeirio at yr 'eiriolwyr' perthnasol. Hefyd, mae'n rhaid gwneud adeiladu consensws yn brif sail i wneud penderfyniadau ar draws y cwmnïau, sy'n broses lafurus.

1.18 Mae'r problemau hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni cynnwys un o'r 'camau allweddol' yn natganiad strategaeth diweddar Gyrfa Cymru sef gwella ein 'dylanwad strategol drwy ragor o ymchwil a gweithgareddau datblygu polisi'. Gosodwyd y rhesymwaith ar gyfer **rôl dylanwadu polisi** ehangach mewn adroddiad yn 2007 gan York Consulting. Roedd hyn yn nodi, oherwydd ystod ei waith, bod Gyrfa Cymru 'mewn safle unigryw i hysbysu gwneuthurwyr polisi ynghylch effaith a chanlyniadau parhaus polisïau penodol'. Yn enwedig 'mae mewn safle gwych i ddeall y ffordd y mae polisi, a'r gweithgareddau a ddaw yn ei sgil, yn gallu effeithio ar unigolion yn yr hirdymor ac yn gallu darparu enghreifftiau pendant o pam fod newid yn angenrheidiol, sut y dehonglir polisi ar y sail a'r effaith a ddaw yn sgil y gwaith hwn'. Felly, mae'r adroddiad yn argymell y dylid adeiladu ar safle 'Gyrfa Cymru' fel rhyngwyneb allweddol rhwng cyflogwyr, dysgwyr a sefydliadau yn ystod y blynyddoedd i ddod ac y dylid defnyddio ei arbenigedd yn llawn ar lefel strategol yn ogystal â gweithredol'[19]. I raddau tebyg gwnaethpwyd yr un pwynt yn yr adroddiad cynharach gan Moulson & Prail[20]. Yn sicr, mae tystiolaeth fod cwmnïau Gyrfa Cymru'n perfformio rolau adborth ac eirioli o'r fath mewn cylchoedd polisi, ond mewn modd llawer llai systematig a dylanwadol ag y gallant. Os yw'r cyfle am rôl gryfach wrth lywio polisi i'w arddel, mae gan hyn oblygiadau arwyddocaol, nid yn unig ar gyfer y cynhwysedd ymchwil yn strwythur Gyrfa Cymru (gweler para. 3.24-3.26), ond hefyd ar gyfer y strwythur ei hun.

---

[18] Cymdeithas Gyrfa Cymru (2008). Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth, ,* t.10. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.

[19] York Consulting (2007). *An Initial Study to Redefine the Careers Wales Contribution to 'Learning Pathways 14-19' and 'Extending Entitlement',* t.36, 42. Leeds: York Consulting.

[20] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adroddiad Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.59. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Strwythur**

1.19 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.1, mae Gyrfa Cymru'n frand sy'n ymwneud â nifer o gwmnïau ar wahân. Mae eu prif atebolrwydd i'w Byrddau, sy'n dueddol o gynrychioli buddiannau rhanbarthol yn hytrach na chenedlaethol. Mae pob un o gwmnïau Gyrfa Cymru'n contractio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau a amlygir yn y Canllawiau Cynllunio blynyddol, sy'n darparu templed cyffredin ar gyfer contractau (mae tuedd erbyn hyn i drafod y templed hwn ar y cyd rhwng y cwmnïoedd a'r Cynulliad). Seilir y contractau ar gynlluniau busnes cwmnïau ar wahân. Mae angen adrodd ar nifer o allbynnau (nifer y cyfweliadau, adolygiadau trawsnewid, ayb) yn ogystal ag amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad. Ymhlith y contractau hyn mae cymal cosbi sy'n caniatáu i 10% o'r taliadau misol gael eu tynnu os oes llai na 10% ar unrhyw darged; ni alwyd ar hyn erioed. Hefyd, gall y cwmnïau greu contractau â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gallant wneud cais am 'gronfeydd her', gan gynnwys Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

1.20 Crynhowyd manteision a manteision posibl y **model presennol** gan Moulson & Prail fel a ganlyn:

- Mae'n symud perygl (e.e. amrywiad o ran y cyllid) y tu allan i'r sector cyhoeddus.
- Mae'n darparu mynediad at gyllid ychwanegol (benthyca gan gwmni) heb effeithio ar y Gofyniad Gwario Benthyca Cyhoeddus.
- Mae'n lledaenu gorbenion ar draws busnesau nad ydynt yn rhan o'r Cynulliad.
- Mae gwelliant posibl i'r modd y darperir gwasanaeth ar hyn o bryd drwy gontractau nad ydynt yn rhai craidd.
- Mae'n arwain at fwy o arloesi.
- Mae annog gweithredu cyflym.

Awgrymodd Moulson & Prail fod tystiolaeth ar gyfer rhai o'r manteision hyn, ond nid ar gyfer rhai eraill. O ran y ddwy olaf, eu hawgrym oedd y llywodraethir y rhain gan safon y rheoli gan fwyaf[21].

1.21 Er y seilir y model presennol ar strwythur cwmni, nid yw hyn yn destun **cystadleuaeth** o ddifrif. Yn *Creu'r Cysylltiadau* cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad yr achos yn erbyn cystadleuaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun Cymru. Roedd yn dadlau bod y modelau a seilir ar gystadleuaeth yn 'eithrio grym defnyddiwr y gwasanaethau cyhoeddus wrth gynllunio'r system ddarparu'. Roedd yn nodi bod 'achos gwbl barchus i'w ddadlau dros y model hwn, ond nid i Gymru'. Yn lle, roedd yn dymuno model sy'n 'ceisio cael y mwyaf o enillion effeithlonrwydd drwy'r economïau graddfa cydweithio a chydlynu gwell rhwng asiantaethau ar draws yr holl

[21] Ibid,t.45-46.

sector cyhoeddus, heb eithrio'r sectorau annibynnol, gwirfoddol a phreifat[22]. Mae hyn yn cyferbynnu'n amlwg â'r dull a fabwysiadwyd yn Lloegr, lle datblygwyd lled-farchnad sylweddol mewn gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa[23].

1.22 Mae dwy ddadl dros **gadw'r model aml gwmni presennol**. Y gyntaf yw ei fod yn darparu strwythur rhanbarthol sy'n gwella gweithio mewn partneriaeth ac atebolrwydd rhanbarthol a lleol, ac yn sicrhau bod y darparu gwasanaethau wedi'i seilio ar anghenion arbennig gwahanol rannau o'r wlad. Yn amlwg mae achos cryf dros y model hwn mewn gwlad fel Cymru, sydd â gwahaniaethau sylweddol, nid yn unig rhwng ardaloedd dinesig a gwledig, ond hefyd rhwng ardaloedd sy'n ardaloedd dwyieithog yn bennaf a rhai sy'n Saesneg eu hiaith yn bennaf. Hefyd, mae materion arbennig yn ymwneud â Gogledd Cymru, lle mae gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru'n dueddol o gynnwys elfennau cryfach o ran datblygu cymunedol. Mae'r tri gwahaniaeth yn gorgyffwrdd, ond nid ydynt yn gyfystyr.

1.23 Yr ail ddadl yw bod amrywiaeth yn cefnogi arloesi ac yn caniatáu meincnodi traws gwmni fel offeryn rheoli contractau. Yn amlwg mae cryn densiwn rhwng y ddau honiad: mae arloesi'n elwa o amrywiaeth, mae meincnodi'n dueddol o annog cydymffurfio. Yn ymarferol, beirniadwyd Gyrfa Cymru sawl gwaith, am ei ddiffyg cysondeb, gan yr arolygiaeth annibynnol Estyn yn bennaf[24]. Mae pryder ymhlith cwmnïau Gyrfa Cymru y bydd y pwysau ar y mater hwn yn mygu arloesi. Maent hefyd yn teimlo eu bod yn derbyn negeseuon cymysg oddi wrth y Cynulliad. Ar faterion 14-19, er enghraifft, mae'r Cynulliad yn nodi bod polisi cenedlaethol, a gyflwynir yn lleol. Gofynnir i Gyrfa Cymru weithio'n agos gyda phartneriaethau lleol er mwyn sicrhau'r darpariaeth leol hon. Yna caiff ei feirniadu am wneud pethau'n wahanol mewn gwahanol ardaloedd.

1.24 Yn ymarferol, ymddengys fod **cysondeb traws gwmni** ar y rhan fwyaf o faterion, gan fod y gwaith yn seiliedig ar yr un contract ac ar safonau cyffredin. Cefnogir y cysondeb hwnyn fawr gan amrywiaeth eang o weithgorau traws gwmni[25] - mae ei bwyslais yn dueddol o fod yn fwy ar gysondeb a safon yn hytrach nag arloesi a newid - a hefyd gan safonau cenedlaethol Gyrfa Cymru a ddatblygwyd ar amrywiaeth o faterion proffesiynol a gweinyddol (gweler para. 2.4-2.6). Mae'r prif wahaniaethau traws gwmni yn ymwneud â 5-10% o waith a dargedir at y grŵp NEET o bobl ifanc, lle mae cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gyfyngu i ardaloedd daearyddol penodol, a lle caiff y gwaith ei reoli'n sylweddol gan bartneriaethau lleol. Ceir hefyd gwahaniaethau yn ymwneud â chysylltiadau addysg-bunses (para.4.9), gwasanaethau gyrfa addysg uwch

[22] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwasanaethau Gwell i Gymru*, rhagair. Caerdydd: LlCC. Mae David Reynolds wedi disgrifio'r safle hwn fel 'cynhyrchyddiaeth newydd'. Reynolds, D. (yn y wasg). New Labour, education and Wales: the devolution decade. *Oxford Review of Education.*
[23] Watts, A.G., Hughes, D. & Wood, M. (2005). *A Market in Career? Evidence and Issues.* Derby: Centre for Guidance Studies, University of Derby. Hefyd Watts, A.G. & McGowan, A. (2007). *New Arrangements for Connexions/Careers Services for Young People in England,* appendix 3. Reading: CfBT Education Trust.
[24] Gweler e.e. Estyn (2004). *Mesur Cynnydd Cwmnïau Gyrfa Cymru, ,* t.5. Caerdydd: Estyn.
[25] Gwahaniaethodd canllawiau newydd ar gyfer gweithgorau Cymru gyfan yn 2007 rhwng 17 o grwpiau sefydlog a 4 grŵp 'tasgau byrdymor'. Mae rhai yn 'gorfforedig' (e.e. cyllid, AD); mae rhai'n ymwneud â 'darparu' (e.e. cwricwlwm, gwasanaethau oedolion); ac ma rhai yn 'drawsdoriadol' (e.e. ansawdd, cydraddoldeb ac amrywiaeth).

(para.4.30) a rhwydweithiau cyfarwyddyd i oedolion (para.4.42). Dylid sylwi bod y rhan fwyaf o'r rhain, yn dod o weddillion strwythurau TEC blaenorol (gweler para.1.5), yn hytrach nag ymarfer arloesol amrywiol.

1.25 Mae'r **ffiniau daearyddol** a gynrychiolir gan y cwmnïau gyrfa presennol rhywfaint yn afreolaidd. Mae'r ddau uniad sydd wedi digwydd wedi creu dau gwmni (Gorllewin; Morgannwg Ganol a Phowys) sydd lawer yn fwy na'r lleill, yn nhermau ariannol a daearyddol. Argymhellodd Moulson & Prail y dylid lleihau nifer y cwmnïau i dri neu bedwar[26], a gellid fod wedi cyflawni hyn drwy uno Gogledd Ddwyrain a Gogledd Orllewin yn un cwmni, a Gwent a Chaerdydd a'r Fro yn un arall. Er, hyd yn oed bryd hynny, ni fyddant wedi'u hadlinio'n hollol â'r ffiniau rhanbarthol a fabwysiadir erbyn hyn mewn perthynas â pholisïau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; caiff y mater ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith nad yw'r strwythur a fabwysiedir gan y cyrff cenedlaethol er mwy segmentu map o Gymru yn gyson eu hunain bob amser. Mewn dau achos pellach, mae ffiniau cwmni Gyrfa Cymru yn torri drwy ffiniau awdurdodau. Mae'n debygol y byddai angen nifer o newidiadau er mwyn cyflawni adluniad optimaidd.

1.26 Ynghyd â'r argymhellion i uno, nododd Moulson & Prail fod pwerau gwell i **Gymdeithas Gyrfa Cymru**, a fyddai'n yn ei alluogi i 'fod yn gydlynydd canolog effeithiol', yn hanfodol os oedd y strwythur aml gwmni i'w gael ei gadw[27]. Ychydig iawn o gamau a gymerwyd ynghylch hyn. Caiff Cymdeithas Gyrfa Cymru ei hystyried o hyd fel adnodd cyffredin, yn hytrach na sefydliad cynllunio; fel gwas y cwmnïau yn hytrach na'u cydlynydd. Nid oes unrhyw gontract uniongyrchol rhwng Cymdeithas Gyrfa Cymru a'r Cynulliad: yn hytrach, mae'r cwmnïau'n is-gontractio rhai swyddogaethau penodol o'u contractau eu hunain yn effeithiol i Cymdeithas Gyrfa Cymru. Yn achos Gyrfa Cymru Ar-lein, am gyfnod neilltuwyd hyn yn y contractau, ond cawsant eu his-gontractio o hyd. Yn eironig, mae Cymdeithas Gyrfa Cymru yn darparu cydlyniad contractau canolog mewn perthynas â chontractau sylweddol â thrydydd parti, y rheiny gyda Chronfa Gymdeithasol Ewrop yn arbennig, yn bennaf oherwydd manylion technegol contractau o'r fath. Mae hefyd yn gwneud peth cydlynu gweithgareddau marchnata a hyrwyddo, ac yn cydlynu ymatebion ymgynghoriadau. Ond ar bob cyfrif mae'n amlwg yn parhau i fod israddol i'r cwmnïau gyrfa, y mae eu cadeiryddion bwrdd a'u prif weithredwyr yn rhan o'i Fwrdd. Mae'n amlwg fod y cwmnïau gyrfa wedi bod yn fodlon darparu rhywfaint o'u hadnoddau ar gyfer Cymdeithas Gyrfa Cymru, heb eisiau ildio gormod o bŵer iddi.

1.27 Mae gan y strwythur hwn nifer o **effeithiau negyddol**. Diffyg arweiniad yw un. Fel y nodwyd eisoes (para.1.17), seiliwyd penderfyniadau ar adeiladu consensws traws gwmni, sy'n cymryd amser ac sy'n atal newid radical. Nid oes unrhyw ganolbwynt cyson y gall rhai o'r tu allan eu negodi, gyda phwerau i weithredu. Pan fo prif weithredwyr penodol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus, nid yw bob amser yn glir pryd maent yn siarad ar ran Gyrfa Cymru gyfan neu ar ran eu cwmni eu hunain yn unig. Mae'r gwagle hwn o ran arweiniad yn gysylltiedig â'r hyn alwodd Estyn yn 'ddiwylliant o

---

Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru - Adroddiad Terfynol* , t.50-52. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cefnogir yr achos ar gyfer hyn gan y data meincnodi a 'gwerth am arian' a ddyfynnwyd yn hwyrach yn yr adroddiad presennol (para.3.23).

[27] Ibid, t.5.

gydymffurfio â chontractau mewn nifer o agweddau'r gwaith'[28]. Gellir dadlau hefyd fod dyblygu adnoddau gormodol ar gyfer gweithgareddau fel marchnata/hyrwyddo, cymorth technoleg gwybodaeth a datblygu adnoddau dynol, a sylw annigonol i ymchwil a fyddai'n manteisio o gael màs critigol cryf.

1.28 Darlun bychan ond trawiadol o wendidau'r trefniant presennol yw nad oes adroddiadau rheolaidd yn eiddo i'r cyhoedd o'r hyn y mae Gyrfa Cymru yn ei wneud yn ei gyfanrwydd. Cyn ei greu, roedd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol manwl o'r Gwasanaeth Gyrfa yng Nghymru[29]. Mabwysiadwyd y rhain gan gwmnïau Gyrfa Cymru yn 2002/03. Mae eu hadolygiadau blynyddol diweddar yn arddangos symud o strwythur cwmni-wrth-cwmni i strwythur thematig, ond maent ymddangos fwyfwy fel cynnyrch cysylltiadau cyhoeddus, gydag astudiaethau achos enghreifftiol heb lawer o ddata systematig. O ganlyniad, erbyn hyn mae'n anodd i rywun o'r tu allan sydd â diddordeb mewn cael trosolwg wedi'i ddogfennu o ystod a swm gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru.

1.29 Gellir dadlau fod y ffaith nad yw cwmnïau Gyrfa Cymru wedi ymateb mewn unrhyw ffordd syflaenol i neges glir adroddiad Moulson & Prail ynghylch yr angen i gryfhau rôl Cymdeithas Gyrfa Cymru ei hun yn enghraifft amlwg o'r anawsterau a gyflwynir gan y strwythur presennol wrth gyflawni newid. Mae methu a gweithredu'r gyfarwyddeb yn atgyfnerthu dilysrwydd y diagnosis. Felly mae'n amlwg, os yw newid strwythur am gael ei gyflawni, mae angen i'r Cynulliad ymgyrmryd â'r fenter.

1.30 Un posibilrwydd fyddai i'r Cynulliad **gysylltu'n uniongyrchol â Chymdeithas Gyrfa Cymru** er mwyn cynnal ystod o swyddogaethau penodol, ynghyd â'r contractau sydd eisoes yn bodoli gyda chwmnïau gyrfa. Efallai y bydd y rhain yn cynnwys rhai o'r swyddogaethau a nodwyd ym mhara.1.27 uchod.

1.31 Opsiwn cryfach fyddai gwneud **Cymdeithas Gyrfa Cymru yn brif gontractiwr** gyda'r Cynulliad, ac yna is-gontractio i'r cwmnïau gyrfa. Gallai hyn eu galluogi i ganolbwyntio'n fwy ar gynllunio a gosod safon, gyda'r cynhwysedd ymchwil i danategu cynrychiolaeth eang yn fforymau Cymru gyfan. Byddai'n gosod Cymdeithas Gyrfa Cymru mewn rôl gliriach fel arweinydd.

1.32 Aeth yr Adroddiad Webb diwethaf hyd yn oed ymhellach, gan argymell y dylid ailstrwythuro Gyrfa Cymru er mwyn creu **sefydliad unedol**. Roedd yn dadlau y byddai hyn yn cyflawni 'rhai enillion effeithlonrwydd ychwanegol - a mwy o safoni'[30]. Mewn modd tebyg, gofynnodd adroddiad *Sgiliau'n sy'n Gweithio*'r cwestiwn 'a allai modelau

[28] Estyn (2004). *Mesur Cynnydd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru,* t.17. Caerdydd: Estyn.
[29] Yr un olaf oedd: Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). *Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Gyrfa yng Nghymru, 2001-2002.* Caerdydd: CCC.
[30] Webb, A., Drury, S. & Griffiths, G. (2007). *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,* t.90. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

cyflwyno, a chwmni gyrfa cenedlaethol unigol neu uno rhwng Gyrfa Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid'[31].

1.33 Gallai'r sefydliad unedol arfaethedig fod ar un o blith tair prif ffurf:

- Cwmni unigol.
- Corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (CCNC).
- Uno â Llywodraeth y Cynulliad.

Nid oes un ohonynt heb ei broblemau. Ar y cyntaf, roedd Moulson & Prail yn cwestiynu a fyddai'n wleidyddol dderbyniol cael contract di-gystadleuaeth mor fawr gyda darparwr unigol. Ar yr ail, sylwasant y byddai'r opsiwn CCNC yn golygu y byddai'r perygl sydd y tu allan i'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd yn dod i mewn iddo, y byddai mynediad at gyllid ychwanegol y tu allan i CCNC yn cael ei golli, y gallai contractwyr di-graidd (yn enwedig ffynonellau Ewropeaidd) fod â barn lai ffafriol ynghylch contractio gyda chorff cyhoeddus, gallai fod rhywfaint o golled yn nhermau arloesi a hyblygrwydd (e.e. y gallu i ddefnyddio cronfeydd cwmni ar gyfer phrosiectau datblygu)[32]. Hefyd, yn gysylltiedig â'r polisi *Creu'r Cysylltiadau* mae nifer o asiantaethau gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, a Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) (a fu gynt yn yr CCNC mwyaf), wedi dod yn rhan o Lywodraeth y Cynulliad yn y blynyddoedd diwethaf. Gan ystyried 'coelcerth y cwangos', ymddengys fod creu CCNC newydd yn annhebygol. Ond ar y cyfan ni chredir bod uno'r sefydliadau hyn â'r Cynulliad wedi bod yn llwyddiannus, a gall gwneud yr un fath yn achos Gyrfa Cymru - y trydydd opsiwn - gynnwys cryn gymhlethdodau a chostau wrth gytgordio graddfeydd a thermau amodau staff cwmnïau priodol â rhai Llywodraeth Cynulliad. Byddai'r tri opsiwn yn cynnwys costau yn nhermau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE).

1.34 Nododd Cymdeithas Gyrfa Cymru yn ei hymateb fod manteision ac anfanteision i bob un o'r opsiynau hyn, ac y gellir 'gwneud i bob un weithio gyda'r ffactorau cywir yn eu lle, gan gynnwys disgwyliadau clir, blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, cynllunio strategol, mesurau llwyddiant y cytunwyd arnynt, adnoddu priodol a'r arweinyddiaeth gywir'. Roedd yn dangos ei bod yn 'awyddus i ymgymryd â deialog gyda Llywodraeth y Cynulliad er mwyn ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn a'r prosesau newid dynol, ariannol a chorfforol a fyddai angen ymgymryd â nhw er mwyn dadbacio'r trefniadau presennol[33].

1.35 Ymddengys fod yr achos dros symud tuag at un o'r opsiynau a amlinellwyd ym mhara.1.30-1.33 yn gryf: nid yw'r staus quo yn ddichonadwy os yw Gyrfa Cymru am wynebu'r heriau sy'n ei wynebu erbyn hyn. Nid yw dewis rhwng yr opsiynau hyn yn

[31] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008*). Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.27. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[32] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.49-50. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[33] Cymdeithas Gyrfa Cymru (2008). Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.10. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.

hawdd. Mae pob un cynnwys cost, ac mae angen i'r manteision a ragamcenir fod yn drech na'r costau hynny. Caiff rhai sylwadau pellach am yr opsiynau eu cynnig ym mhara.1.46-1.48, sy'n tynnu ar enghreifftiau o fannau eraill, ac ym mhara.5.20. Pa bynnag un o'r opsiynau a fabwysiedir, bydd yn bwysig cadw'r cysylltiadau rhanbarthol a lleol cryf y mae cwmnïau Gyrfa Cymru wedi'u datblygu.

**Lefel adnoddau**

1.36 Ar ôl cyfnod o gynnydd mawr o ran cyllid (o £28.9m yn 2001/02 i £37.4m yn 2004/05), mae arian y Cynulliad ar gyfer Gyrfa Cymru wedi cael ei gyfyngu, yn unol â thynhau cyffredinol ar wariant y sector cyhoeddus. Cynyddodd o £37.4m yn 2004/05 i £39.9 yn 2007/08, cynnydd o 6.5% dros y cyfnod pedair blynedd - llawer yn llai na chwyddiant. Nid yw'r llinell cyllideb ddangosol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn dangos unrhyw gynnydd. Canlyniad hyn fu toriad effeithiol yn y gyllideb, a amcangyfrifir gan y cwmnïau'n 12% yn ystod y tair blynedd diwethaf. Hyn er gwaethaf y galw cynyddol am eu gwasanaethau o rannau amrywiol y Cynulliad. Roedd Adroddiad Webb yn awgrymu bod angen cyllid neu gynilion newydd mewn mannau eraill er mwyn ehangu darpariaeth Gyrfa Cymru ar gyfer oedolion[34]. Mae'n werth amlygu yn y cyswllt hwn fod Llywodraeth y DU yn bwriadu buddsoddi £50m ychwanegol bob blwyddyn o 2010/11 mewn gwasanaeth newydd ar gyfer datblygu oedolion a gyrfa yn Lloegr[35].

1.37 Ni chaiff y feirniadaeth o danariannu'r Cynulliad ei chyfyngu i Gyrfa Cymru. Er enghraifft, honnwyd yn ddiweddar (ac roedd rhywfaint yn ddadleuol) y gwariwyd 6.4% yn llai ar addysg yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU er 2002/03, a bod hyn yn gwrthgyferbynnu â chynnydd cymharol yr arian ar gyfer 'adeiladu cenedl' (diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon)[36]. Mae'r arian presennol ar gyfer Gyfra Cymru'n cynrychioli 2.6% o gyllideb addysg a hyfforddiant y Cynulliad.

1.38 Mae'r fformiwla ariannu bresennol ar gyfer Cwmnïau Gyrfa Cymru wedi'i seilio i raddau helaeth ar fformiwla'r pen sy'n adlewyrchu tri grŵp cleientiaid statudol: disgyblion ysgol uwchradd 11-15 oed; pobl 16/17 oed mewn addysg a hyfforddiant, ac amcangyfrif o NEET. Rhoddir pwysoliad i bob un er mwyn adlewyrchu costau cymharol y gwasanaeth a ddarperir. Hefyd, gwneir lwfans er mwyn cydnabod costau ychwanegol darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Nid yw'r gwasanaeth i oedolion yn rhan benodol o'r fformiwla hon: dengys gwaith gyda chwmnïau â Chyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad nad oedd cynnwys ystadegau'r boblogaeth o oed gwaith yn newid cyfrannau'r fformiwla ariannu yn sylweddol[37].

---

[34] Webb, A., Drury, S. & Griffiths, G. (2007). *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,* t.89. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[35] Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (2008). *Shaping the Future – a New Adult Advancement and Careers Service for England,* t.12. London: DIUS.

[36] Reynolds, D. (2008). Funded to fail: how the Welsh Assembly Government cheats our children. See: http://www.tes.co.uk/article.aspx?storycode=6005200

[37] Trwy gyd-destun yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, codwyd y broblem a fyddai cynnwys nifer yr hawlwyr lles yn effeithio ar y cyfrannau hyn ac yn sgil hynny a ddylid ei gynnwys yn y fformiwla.

1.39 Mae’r trefniadau contract presennol yn rhagnodol a manwl iawn, ac yn clymu cwmnïau Gyrfa Cymru i bwyslais trwm ar ddarparu gwasanaethau. Nid ydynt yn annog hyblygrwydd: mae’n rhaid cyfiawnhau i’r Cynulliad unrhyw symud adnoddau.

1.40 Ar hyn o bryd, mae contract y Cynulliad yn creu tua 90% o gyfanswm incwm cwmnïau gyrfa. Cronfa Gymdeithasol Ewrop fu’r ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid ychwanegol (yn bennaf ar gyfer cefnogi Porth Ieuenctid), a ddarparodd £1.3m yn 2007/08, gan greu tua thraean o’r 10% a oedd yn weddill. Y categori mwyaf wedi hynny oedd cyllid awdurdodau lleol ar gyfer tracio pobl ifanc NEET (Cadw mewn Cysylltiad) (£0.3m). Contract arall gweddol fawr yw’r un gydag Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ar gyfer rheoli prosiect Dynamo, a gynlluniwyd er mwyn cyflwyno gweithgareddau menter i gwricwlwm ysgol. Daw bron yr holl incwm, ar wahân i log blaendaliadau, o gyrff sector cyhoeddus.

1.41 Ar hyn o bryd, mae Cymdeithas Gyrfa Cymru wedi paratoi nifer o geisiadau sylweddol ar gyfer cyllid pellach gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o dan ei rhaglenni newydd ar gyfer 2007-15: mae’r rhain yn ymwneud ag ystod ehangach o waith, gan gynnwys y grŵp oedran 11-13 ac oedolion, yn ogystal â Phorth Ieuenctid. Pe bai pob yn llwyddiannus, gallent ychwanegu’n fawr at gyllideb graidd y Cynulliad (byddai’r cynigion gwreiddiol wedi ychwanegu 40%, ond ers hynny maent wedi lleihau mewn maint). Fodd bynnag, mae’r broses geisiadau yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi’i hwyhau. Un o’r anawsterau a ddaw gyda rhaglenni o’r fath yw eu bod yn agored i gael eu terfynu pan ddaw cyllid i ben neu yn ystod ysbeidiau rhwng rhaglenni, sy’n cynnwys colledion o ran cymhwysedd a darparu gwasanaethau. Maent hefyd, fel y soniwyd eisoes (para. 1.24), yn dueddol o gael eu targedu at ardaloedd daearyddol penodol, gan arwain at anwastadrwydd o ran darparu gwasanaethau ledled Cymru.

**Cyd-destun rhyngwladol**

1.42 Bydd adrannau canlynol yr adroddiad hwn yn archwilio gwaith Gyrfa Cymru mewn mwy o fanylder ynghylch meincnodau a ddarperir gan Adolygiad Polisi Cyfarwyddyd Gyrfa'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a gynhaliwyd yn 2001/02. Roedd hyn yn cynnwys Cymru fel rhan o adolygiad y DU. Ni cheisiodd adroddiad synthesis Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ddod i unrhyw gasgliadau terfynol ynghylch teilyngdod cymharol modelau penodol i oed a modelau pob oed. Fodd bynnag, nododd fod gan wasanaethau pob oed nifer o fanteision o ran trefnu a defnyddio adnoddau. Yn arbennig, maent yn caniatáu i ystod amrywiol o wasanaethau gael eu darparu drwy gydol bywyd mewn fframwaith trefniadaethol. Gallai hyn eu caniatáu i fod yn fwy cost effeithiol, gan osgoi dyblygu adnoddau heb fod angen. Enwodd yr adroddiad Gyrfa Cymru fel un a oedd yn arddangos nifer o’r manteision hyn[38].

1.43 Ymgymerwyd ag adolygiad dilynol - hefyd gan ddefnyddio meincnodau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - o’r ddwy enghraifft arall

[38] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap,* t.144. Paris: Organisation for Economic Co-operation and Development.

fyd eang, flaengar o wasanaethau pob oed: yn Seland Newydd[39] a'r Alban[40]. Enghraifft arall o wasanaeth pob oed a sefydlwyd yn fwy diweddar yw'r Gwasanaeth Gyrfa yng Ngogledd Iwerddon. Crynhoir rhai nodweddion cymharol y pedwar gwasanaeth yn Nhabl 1.

[39] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective.* Wellington, Seland Newydd: Career Services.
[40] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential.* Glasgow: Careers Scotland.

## Tabl 1: gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfa pob oed: rhai nodweddion cymharol

| | Gyrfa Cymru | Careers Scotland | Gwasanaethau Gyrfa yng Ngogledd Iwerddon | Gwasanaethau Gyrfa, Seland Newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | 3.0m | 5.1m | 1.8m | 4.1m |
| **Tarddiad** | Sefydlwyd yn 2001 fel brand cyffredin ar gyfer 8 cwmni gyrfa a fu gynt ar wahân, ac nad oeddent yn gwneud elw | Sefydlwyd yn 2002 drwy integreiddio mwy na 80 sefydliad a fu gynt ar wahân | Bu gynt yn rhan o'r Gwasanaeth Cyflogaeth' sefydlwyd fel gwasanaeth ar wahân yn 2004 | Sefydlwyd yn 1990 |
| **Strwythur** | 6 chwmni nad ydynt yn gwneud elw, gyda chontractau ar wahân ond wedi'u cydlynu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru; is-gontractio rhai swyddogaethau canolog i Gymdeithas Gyrfa Cymru (cwmni ar wahân a berchnogir ar y cyd) | Hyd at 2008, roedd yn rhain yn rhan o ddau Rwydwaith Menter (Scottish Enterprise; Highlands and Islands Enterprise), o dan frand cyffredin; erbyn hyn mae'n rhan o Skills Development Scotland | Rhan o'r Adran Gyflogaeth a Dysgu (mae'r staff yn weision sifil) | Endid y goron (un o 6 asiantaeth addysg y llywodraeth) |
| **Incwm blynyddol o'r Llywodraeth** | £40.2m | £50.2m | £5.4m , o'r swm hwnnw caiff £1.3 ei is-gontractio i'r Gwasanaeth Cyfarwyddyd Addysgol i Oedolion (EGSA) ar gyfer agweddau o gyfarwyddyd oedolion | £6.5m (NZ$18.2m) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Annual income from other sources** | £4.7m | Nil | Nil | £0.5m (NZ$1.4m) |
| **Nifer y staff (c.a.ll.)** | 1,004 | 1,065 | 153 | 168 |
| **Nifer y staff cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol (c.a.ll.)** | 444 | 455 | 96 (targed: 112) | 84 |
| **% o'r rhai sy'n gadael ysgol** | Nod: 90% | Nod: pob un (er mae'n destun adolygiad) | 74% | Isel (darperir cyfweliadau gan amlaf gan gynghorwyr gyrfa a gyflogir gan yr ysgol) |
| **Nifer y bobl ifanc a gafodd gyfweliad** | 227,787[41] | 154,000 | 32,127 | 1,750 |
| **Nifer yr oedolion a gafodd gyfweliad** | 44,905 | 26,500 | 2,571 (a 3,006 EGSA – gweler uchod) | 5,250 |
| **Nifer y canolfannau gyrfa** | 48[42] | 92 | 27 (4 annibynnol; lleolir y gweddill mewn canolfannau gwaith/ canolfannau gwaith a budd-daliadau) | 17 |
| **Gwasanaethau cyfarwyddyd o bell** | Yn y gorffennol 4 canolfan alw; erbyn hyn un, a reolir gan un o'r 6 chwmni gyrfa ar ran y gweddill, gwelir y gwasanaethau ar y we fel rhan fawr o'r gwasanaeth | Yn y gorffennol gwefan yn unig, gyda llinell gymorth Learndirect Scotland ar wahân; erbyn hyn mae'n debygol o gael ei integreiddio | Gwefan yn unig (cynigir gwasanaeth llinell gymorth drwy Loegr) | Gwasanaethau wedi'u hintegreiddio (ar y we, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb) |

[41] Mae'r ffigwr hwn yn cyfeirio at nifer y cyfweliadau, ac nid nifer y cleientiaid.
[42] Sy'n cynnwys canolfannau Gyrfa Cymru sydd ar agor amser llawn (40) a rhan-amser (8), ond nid yw'n cynnwys gwasanaethau yn adeiladau sefydliadau eraill.

1.44 Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli rhai o'r ffigyrau yn y tabl hwn. Mae'r ystod o weithgareddau y mae gwasanaethau gwahanol yn ymgymryd â nhw yn amrywio. Eto, nid yw'r ffigyrau ar gyfer nifer y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn gwbl gymharol, ac maent yn bennaf ddefnyddiol ar gyfer rhoi arwydd bras o'r raddfa, a hefyd y cydbwysedd rhwng cyfweliadau a gynigir i bobl ifanc ac i oedolion. Mae'n werth nodi bod nifer yr oedolion a gafodd eu cyfweld lawer yn uwch yn achos Gyrfa Cymru nag mewn man arall, yn enwedig pan y'i cymharir â maint y boblogaeth; ond fod nifer y bobl a gafodd gyfweliad sy'n oedolion llawer yn uwch yn achos Seland Newydd (lle mae swm y gwasanaeth yn gyffredinol llawer yn llai).

1. 45 Mae nifer o nodweddion a amlinellir yn y tabl yn ymwneud â rhai o'r materion a drafodwyd ynghynt yn yr adran hon. Yn nhermau strwythur er enghraifft, Careers Scotland sydd wedi bod debycach i Gyrfa Cymru, yn yr ystyr ei fod hefyd yn frand yn hytrach nag yn sefydliad. Yn achos **Yr Alban** serch hynny, rhoddwyd y brand i ddau endid trefniadaethol; lle bu'r ddau ohonynt yn rhan o sefydliad arall: the Enterprise Networks. O dan y drefn hon, cytunodd Careers Scotland â phob un o'r rhwydweithiau i osod cyfres o dargedau perfformiad ar gyfer ei waith ei hun. Mae gan y rhesymeg dros rannu rhwng y ddau rwydwaith yn adleisio rhywfaint a'r gwahaniaeth rhanbarthol yng Nghymru: Yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, fel Gogledd Cymru (gweler para.1.22 uchod). Mae gan waith Careers Scotland elfennau cryfach o ran datblygu cymunedol. Erbyn hyn mae'r ddau wedi uno, ynghyd â sefydliadau eraill, i strwythur trefniadaethol newydd - Skills Development Scotland - ac nid yw eto'n glir a fydd brand Careers Scotland yn cael ei gadw yn y strwythur newydd hwn a pha ffurf y bydd y strwythur darparu gwasanaethau yn ei gymryd.

1.46 O ran yr opsiynau ad-drefnu a drafodwyd ym mhara.1.30-1.33 uchod, mae'r Gwasanaethau Gyrfa yng **Ngogledd Iwerddon** yn dangos y posibilrwydd o redeg gwasanaeth o'r fath fel rhan o strwythur y llywodraeth: mae ei staff yn weision sifil. Fodd bynnag, gan na chynhaliwyd adolygiad ffurfiol yno ym modd Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, mae'n anodd ffurfio barn wybodus o fanteision ac anfanteision y strwythur hwn. Yn sicr, mae gan y gwasanaeth lai o adnoddau fesul pen y boblogaeth nag sydd gan Yr Alban a Chymru, nid yw wedi'i integreiddio cymaint (caiff canran sylweddol o'r gwaith ei gontractio allan), ac mae cyflymdra datblygiad yn araf ers ei sefydlu fel gwasanaeth pob oed. Serch hynny, mae'n bosibl mai'r rheswm dros y diwethaf yw'r anawsterau cyfansoddiadol a gafwyd yng Ngogledd Iwerddon ers Cytundeb Dydd Gwener y Groglith 1998.

1.47 Opsiwn o dan ystyriaeth sy'n fwy perthnasol yng Nghymru yw enghraifft y Gwasanaethau Gyrfa yn **Seland Newydd**. Cwango yw hwn i bob pwrpas; mae'n un o chwe asiantaeth addysg y llywodraeth sy'n eistedd y tu allan i lywodraeth, ond sy'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni nodau'r llywodraeth. Mae ei brif gyllid ar ffurf 'cytundeb prynu blynyddol' gyda'r Gweinidog Addysg[43]. Mae'n wasanaeth unigol, sydd wedi elwa

[43] Gosodir cyd-destun y polisi mewn Llythyr o Ddisgwyliadau oddi wrth y Gweinidog Addysg, sy'n gosod y themâu polisi y mae disgwyl i'r sefydliad roi sylw iddynt wrth gynllunio. Yna caiff hyn ei adlewyrchu mewn Datganiad o Fwriad, ac mewn Cytundeb Cynnyrch blynyddol, y diwethaf yn nodi cynnyrch y mae'r Gweinidog yn eu prynu o

o gael arweinyddiaeth gadarn yn ystod y blynyddoedd diweddar. Y farn gyffredinol yw ei fod yn ystwyth, yn gymwys, wedi'i reoli'n dda, yn gydweithrediadol, yn bragmataidd ac yn ymatebol, a chaiff ei lais ei barchu'n fawr yn y llywodraeth[44]. Mae ei fodel o weithio yn wahanol iawn i un Cymru: mae'n ymwneud llawer yn llai â darparu gwasanaethu mewn ysgolion, lle mae'n ymgymryd â rôl gymorth lawer fwy cyfyngedig. Felly, mae'n sefydliad llawer yn llai, gyda chyllideb llawer yn llai. Hefyd, efallai bod gwahaniaethau rhanbarthol yn llai cryf yn Seland Newydd nag yng Nghymru. Ond nid yw enghraifft Seland Newydd yn amlygu mantesion arweinyddiaeth gref a rhyngwyneb unigol gyda'r llywodraeth.

1.48 Caiff rhai o'r gwahaniaethau eraill a amlinellir yn Nhabl 1 eu trafod mewn mwy o fanylder mewn adrannau i ddod yn yr adroddiad hwn. Ymhlith y rhain mae manteision ac anfanteision ceisio gweld pob un o'r rhai sy'n gadael ysgol neu'r rhan fwyaf ohonynt (para.2.30-2.35), y berthynas rhwng gwahanol sianeli o ddarparu gwasanaethau (para.2.7-2.29) a'r cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau ac adeiladu cymhwysedd (Adran 4).

1.49 Caiff rhai cymariaethau eu dwyn gyda **Lloegr**, sydd wedi mabwysiadu dull go wahanol o gael polisïau ar wahân a strwythurau gwasanaethau ar wahân yn ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer oedolion yn ôl eu trefn. Yn hytrach nag edrych am integreiddio 'fertigol', fel gweddill y DU, mae wedi ceisio integreiddio 'llorweddol' gydag ystod ehangach o wasanaethau, sy'n gysylltiedig â chysyniad cyffredinol o 'wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd' (GCW) (heb ansoddair cymwys). Yn achos gwasanaethau pobl ifanc, y farn gyffredinol yw ei fod wedi gwanhau swm a safon gwasanaethau gyrfa[45]. Yn enwedig, mae canran y sawl sy'n gadael ysgol yn Lloegr sydd wedi cael eu cyfweld gan gynghorydd gyrfa llawer yn is nag mewn mannau eraill yn y DU: erbyn hyn dim ond 40% o bobl ifanc yn Lloegr sydd wedi cael cyfweliad unigol (h.y. un i un) gyda chynghorydd personol Connexions (a allai fod yn gynghorydd gyrfa proffesiynol neu beidio)[46]. Mae datganoli diweddar y cyfrifoldeb dros wasanaethau GCS ar gyfer pobl ifanc, heb gyllid wedi'i neilltuo, mewn perygl o arwain at yr erydu pellach.[47] Tra bo'r Llywodraeth yn Lloegr wedi datgan erbyn hyn bod ganddi ddiddordeb mewn datblygu strategaeth bob oed, mae wedi ail-gadarnhau ei hymrwymiad i strwythyrau gwasanaeth ar wahân i bobl ifanc ac oedolion[48]. Serch

---

Wasanaethau Gyrfa, a'r amodau prynu a'r symiau i'w talu. Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,* t.11. Wellington, Seland Newydd: Career Services.

[44] Ibid., t.13.

[45] Watts, A.G. (2001). Career guidance and social exclusion: a cautionary tale. *British Journal of Guidance and Counselling, 29(2),* 157-176.

[46] Watts, A.G. (2008). The partnership model for careers education and guidance: rise, decline – and fall? *Career Research and Development, 20,* 4-8.

[47] Watts, A.G. & McGowan, A. (2007). *New Arrangements for Connexions/Careers Services for Young People in England.* Reading: CfBT Education Trust. Hefyd McGowan, A., Andrews, D. & Watts, A.G. (yn y wasg). *Local Variations: a Follow-Up Study of New Arrangements for Connexions/Careers/IAG Services for Young People in England.* Reading: CfBT Education Trust.

[48] Conservative Party (2008). *Building Skills, Transforming Lives: a Training and Apprenticeships Revolution.* Opportunity Agenda Policy Green Paper No.7. Llundain: Y Blaid Geidwadol.

hynny, mae’r Blaid Geidwadol wedi lleisio ei bwriad i sefydlu gwasanaeth pob oed yn Lloegr os daw i rym[49].

1.50 Yn ogystal â’r cymariaethau hyn, bydd rhannau’n hwyrach yn yr adroddiad yn mynd i’r afael â phroblemau y DU gyfan a godwyd wrth ddadansoddi: caiff y rhai eu crynhoi ym mhara 4.55.

1.51 Mewn perthynas â defnyddio meincnodau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, dylid nodi y datblygwyd y rhain i’w defnyddio gyda systemau cyfarwyddyd gyrfa gydol oes, ac nid i wasanaethau arbennig. Yn achos adolygiadau yn Seland Newydd a’r Alban, cawsant eu haddasu er mwyn eu defnyddio gyda gwasanaethau pob oed, ond i gynnwys sylw i’r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau o’r fath a darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill. Caiff yr un dull ei ddefnyddio yma (gweler Adran 4).

**Casgliad**

1.52 Er ei fod yn frand yn hytrach na sefydliad, mae Gyrfa Cymru’n chwarae rôl allweddol gyda nifer o bolisïau pwysig y Cynulliad. Fel gwasanaeth pob oed, serch hynny, mae angen rhyngwyneb cryfach o Lywodraeth y Cynulliad nag y gall Y Gangen Polisi Gyrfa bresennol ei ddarparu. I’r gwrthwyneb, mae strwythur gwasgaredig saith cwmni annibynnol yn atal dylanwad Gyrfa Cymru yn y Cynulliad, a’i allu i gyflawni newid effeithiol mewn ymateb i’r heriau sy’n ei wynebu. Gellir dychmygu nifer o strwythurau amgen, a gellir gweld y rhain mewn enghreifftiau gwledydd eraill. Yn benodol, mae enghraifft o Seland Newydd yn arddangos manteision arweinyddiaeth gadarn a rhyngwyneb unigol â’r Llywodraeth.

[49] Conservative Party (2008). *Building Skills, Transforming Lives: a Training and Apprenticeships Revolution.* Opportunity Agenda Policy Green Paper No.7. Llundain: Y Blaid Geidwadol.

# 2. Llunio'r Gwasanaeth

## Mynediad

2.1 Mae nifer o nodweddion 'systemau cyfarwyddyd gydol oes' a nodir yn adolygiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd[50] yn ymwneud â mynediad at wasanaethau:

- Tryloywder a mynediad hawdd ar hyd oes, gan gynnwys y gallu i fodloni anghenion ystod amrywiol o gleientiaid.
- Sylw arbennig i bwyntiau trawsnewid allweddol ar hyd oes.
- Hyblygrwydd ac arloesi wrth ddarparu gwasanaethau er mwyn adlewyrchu gwahanol anghenion ac amgylchiadau grwpiau cleientiaid amrywiol.
- Prosesau er mwyn ysgogi adolygu a chynllunio rheolaidd.
- Mynediad at gyfarwyddyd unigol gan ymarferwyr cymwysedig ar gyfer y rheini sydd angen help o'r fath, ar adegau pan fo ei angen arnynt.
- Mynediad sicr at ddarpariaeth o wasanaethau sy'n annibynnol o fuddiannau sefydliadau neu fentrau arbennig.
- Mynediad at wybodaeth gynhwysfawr ac integredig, addysgol, galwedigaethol ac ynghylch y farchnad lafur.

Mae dwy her i lunwyr polisi a nodir yn adolygiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn mynd i'r afael â phroblemau mynediad[51]:

- Sicrhau bod yr holl benderfyniadau dyrannu adnoddau'n rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i systemau sy'n datblygu sgiliau hunanreoli gyrfa a gwybodaeth gyrfa, a bod systemau darparu'n cyrraedd lefelau help personol, o gryno i estynedig, i anghenion ac amgylchiadau personol, yn hytrach na thybio bod angen cyfarwyddyd gyrfa personol dwys ar bawb.
- Sicrhau mwy o amrywiaeth yn y mathau o wasanaethau sydd ar gael ac yn y ffyrdd y cânt eu darparu, gan gynnwys defnyddio technegau hunan-helpu'n ehangach, a dull mwy integredig o ddefnyddio TGCh.

2.2 O ran y chweched nodwedd a restrir ym mhara 2.1 – 'mynediad sicr at ddarpariaeth o wasanaethau sy'n annibynnol o fuddiannau sefydliadau neu fentrau arbennig' – mae strwythur pob oed, annibynnol Gyrfa Cymru yn sicrhau mewn egwyddor bod holl drigolion Cymru yn cael mynediad at wasanaethau cyfarwyddyd gyrfa annibynnol a di-duedd. Dyma un o gryfderau nodedig strwythur o'r fath, yn wahanol i nifer o wledydd eraill, lle mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth cyfarwyddyd gyrfa ynghlwm wrth addysg neu sefydliadau eraill, ac yn destun pwysau gan fuddiannau sefydliadol yr sefydliadau hynny.

---

[50] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap*, t.138. Paris: Organisation for Economic Co-operation and Development

[51] Ibid., t.148.

2.3 Ar rai o'r meini prawf eraill, gellir cymharu'r modelau darparu gwasanaethau sy'n cael eu datblygu gan Gyrfa Cymru â'r arfer da a nodir yn adolygiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac yn Seland Newydd a gweddill y DU. Serch hynny, mae problemau'n ymwneud â rhai eraill. Caiff chwe nodwedd o fynediad eu trafod yn yr adran hon: cydlynu, sianeli, gwahaniaethu, treiddio, targedu a marchnata.

**Cydlyniad**

2.4 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddaf, cymerodd cwmnïau Gyrfa Cymru gamau i wella lefel y cydlyniant a'r cysondeb yng nghynllun a darpariaeth eu gwasanaeth. Fel y nodwyd ym mhara.1.24, datblygwyd safonau cenedlaethol Gyrfa Cymru ar amrywiaeth o faterion proffesiynol a gweinyddol. Ymhlith y rhain yr oedd: yr iaith Gymraeg, Porth Ieuenctid, gweithdrefnau cefnogaeth y grŵp ôl-addysg, Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru, hyfforddi staff, iechyd a diogelwch, dyddiaduron profiad gwaith, Learndirect ac anghenion arbennig.

2.5 Yn enwedig, datblygwyd cyfres o Safonau Cyfarwyddyd yn ddiweddar, a gynlluniwyd er mwyn darparu 'model cydnabyddedig o "gyfarwyddyd gyrfa" gan Gyrfa Cymru, yn hytrach na chyngor a chyfarwyddyd cyffredinol'[52]. Mae'r Safonau Cyfarwyddyd presennol yn ymwneud yn bennaf â gwaith unigol un-i-un, a chawsant eu rhoi ar waith drwy gyfres o weithdai dau ddiwrnod a oedd yn cynnwys pob cynghorydd gyrfa a chynghorydd Porth Ieuenctid ledled Gyrfa Cymru.

2.6 Mae ymateb gan ymarferwyr i'r Safonau Cyfarwyddyd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan gadarnhau ac atgyfnerthu'r hyn y mae cynghorwyr gyrfa yn gweld fel craidd eu rôl broffesiynol. Serch hynny, bu rhywfaint o densiwn rhwng y safonau a fframwaith arolygu Estyn (gweler para. 3.13). Mae hyn yn dueddol o roi sylw sylweddol i 'realaeth', sy'n arwain at rywfaint o bwysau ar gynghorwyr i ddefnyddio gwybodaeth y farchnad lafur hyd yn oed os nad yw'r cynghorydd yn ei ystyried yn briodol i'r cleient yn ystod y cam hwnnw yn y broses. Mae Estyn yn teimlo'n ymrwymedig i lynu wrth y fframwaith hwn hyd nes cwblhau'r cylch cyfredol o arolygiadau yn 2009. Yna, mae'n bosibl y ceir cyfle i'w hadolygu ac i weld a ddylid eu haflunio'n agosach â'r Safonau Cyfarwyddyd. Caiff y mater mwy cyffredinol o sicrhau safon ei drafod yn fanylach yn Adran 3 (para.3.12-3.29).

**Sianelu**

2.7 Caiff gwasanaethau cyfarwyddyd Gyrfa Cymru eu cynnig wyneb yn wyneb, dros y ffôn, a thros y we. Caiff bob un ei drafod yn eu tro.

2.8 Rhoddir llawer o'r pwyslais ar ddarpariaeth **wyneb yn wyneb**. Lleolir nifer o gynghorwyr gyrfa Gyrfa Cymru mewn ysgolion a cholegau; yn achos sefydliadau llai,

[52] Ymddengys fod y model 'gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd' cyffredinol a fabwysiadwyd mewn perthynas â phobl ifanc yn Lloegr yn brif bwynt cyfeirio (negyddol yma). Gweler e.e. Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (2007). *The Children's Plan: Building Brighter Futures.* Cm 7280. Llundain: Stationery Office.

mae'n bosibl eu bod yn gwasanaethu mwy nag un sefydliad. Lleolir eraill mewn canolfannau gyrfa, mae 48 ledled y wlad: mae 40 yn amser llawn, ac 8 yn rhan-amser. Hefyd, cynhelir nifer o sesiynau cyfarwyddyd mewn amrywiaeth o leoliadau eraill: roedd dadansoddiad a baratowyd gan un cwmni, Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro, yn dangos bod mwy na 50 lleoliad yn cael eu defnyddio at ddibenion o'r fath, gan gynnwys cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, canolfannau menter, canolfannau gwaith, bws/stondin gyrfa, canolfannau iechyd meddwl a chanolfannau cymunedol eraill.

2.9 Yn rhannol, seilir yr achos dros rwydwaith o ganolfannau gyrfa galw heibio ar yr angen i ddarparu lleoliad hygyrch ar gyfer pobl ifanc 'NEET', gan gynnwys y rheiny sy'n hawlio lwfansau caledi. Ond mae hefyd yn darparu adnoddau hygyrch i eraill, gan gynnwys oedolion. Cymerir gofal lle bo'n bosibl i wahanu gweithgareddau grwpiau ieuenctid, fel nad yw cleientiaid sy'n oedolion yn teimlo'n anghyfforddus mewn amgylchedd sydd i weld yn cael ei ddominyddu gan bobl ifanc. Amcangyfrifir bod rhwng traean a hanner yr ymwelwyr i'r canolfannau yn oedolion.

2.10 Hyd yn hyn mae'r gwasanaeth **ffôn** wedi cael ei frandio ar wahân fel Learndirect, sy'n gysylltiedig â gwasanaeth y DU gyfan a gydlynwyd gan UfI hyd nes yn ddiweddar. Seiliwyd hyn ar gytundeb pedair gwlad, gyda brand cyffredin, un rhif ffôn, ac isafswm cyffredin o ran safon y gwasanaeth. Serch hynny, mae'r gwasanaethau ar gyfer Yr Alban a Chrymu wedi cael eu rheoli ar wahân[53].

2.11 Yng Nghymru, rheolwyd y llinell gymorth gan Gyrfa Cymru er 2001, pan y'i trosglwyddodd o'r TEC (lle y cafodd ei rheoli ers ei sefydliad ym 1998). Am adeg gweithredwyd y gwasanaeth ar wahân gan bedwar o'r cwmnïau. Nododd Moulson & Prail fod y mwyafrif o alwadau yn cael eu cymryd mewn dwy o blith yr holl ganolfannau, yn Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro a Gyrfa Cymru Gorllewin. Nodwyd hefyd fod dwy ganolfan alwadau'n gyfrifol am Loegr ac 'nad oes dadl dda pam fod angen pedair ar Gymru'. Roeddent yn honni nad oedd y 'dadleuon o blaid gwybodaeth leol yn ddigon grymus i oresgyn y dadleuon dros y gweithrediadau mwy effeithlon a hyblyg a fyddai gan un ganolfan unigol'. Felly argymhellwyd ganddynt y dylid lleihau nifer y canolfannau galwadau o bedair i un, gan ddadlau y byddai'n arwain at lai o gost, mwy o hyblygrwydd yn nhermau defnyddio staff hyfforddedig, achlysurol, a chymhwysedd cryfach ar gyfer dwyieithrwydd[54].

2.12 Felly yn 2006 newidiodd y gwasanaeth i un ganolfan o leolir yn swyddfa Caerdydd Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro. Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am i 9pm, a dydd Sadwrn 9am i 12 canol dydd: caiff galwadau y tu allan i'r oriau hyn eu trosglwyddo i gyfleusterau neges llais. Caiff galwyr sy'n gadael negeseuon eu ffonio yn ôl hyd at uchafswm o dair gwaith (ni chynigir y gwasanaeth hwn

[53] Watts, A.G. & Dent, G. (2008). Esblygiad gwasanaeth cyfarwyddyd pellter cenedlaethol: tueddiadau a heriau. *British Journal of Guidance and Counselling, 36(4),* 455-465. Yn Yr Alban, mae rhif ffôn ar wahân wedi'i fabwysiadu, ond mae galwadau yn dal i gael eu cyfeirio o rif safonol y DU.
[54] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.48. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

yn Lloegr, lle gofynnir i alwyr ffonio yn ôl)[55]. Nododd adroddiad perfformiad gan Gaerdydd a'r Fro yn 2007/08 fod y gwasanaeth yn gweithredu mewn modd mwy cost effeithiol na'r model pedair canolfan blaenorol[56]. Mae gwerthusiadau annibynnol yn amlygu bod galwyr o Gymru yn gyson yn fwy tebygol na'r rheiny yn Lloegr o gytuno bod ansawdd gyffredinol y gwasanaeth wedi bod yn dda[57].

2.13 Caiff galwadau eu cymryd gan staff gwybodaeth sy'n gymwysedig hyd at NVQ Lefel 3. Yna, mae'r rheiny sydd angen cyfarwyddyd yn cael eu trosglwyddo i gynghorydd sy'n gymwysedig hyd at NVQ Lefel 4. Bu system rota mewn lle ers nifer o flynyddoedd rhwng Caerdydd a'r Fro a dau o blith y cwmnïau eraill. O dan hynny roedd cynghorydd cyfarwyddyd oedolion yn bresennol yn safle Caerdydd a fyddai'n darparu cyfarwyddyd dros y ffôn (am un diwrnod yr wythnos, ar sail rota). Ers yn gynnar yn 2007, mae'r system hon wedi'i haddasu; yn lle bo'r cynghorydd yn dod i mewn i'r ganolfan alwadau, caiff galwadau eu trosglwyddo i leoliadau addas yn y cwmni gyrfa sydd 'ar ddyletswydd'. Erbyn hyn mae'r weithdrefn wedi'i hestyn i gynnwys cwmnïau eraill Gyrfa Cymru, gan adael dim ond un heb ei gynnwys. Nododd adroddiad perfformiad y llinell gymorth ar gyfer 2007/08, yn ystod y flwyddyn atgyfeiriwyd 2,020 yn y modd hwn (6% o gyfanswm y galwadau), ac y 'gwelir y rota fel modd i gwmnïau eraill ddangos eu hymglymiad i'r ganolfan[58].

2.14 Cyn 2001/02, roedd y gwasanaeth llinell gymorth ar gael i oedolion yn unig, ond ers hynny cafodd ei estyn i ddod yn wasanaeth pob oed mewn egwyddor. Nid felly y mae hi yn Lloegr lle caiff pobl ifanc eu hannog i ddefnyddio gwasanaeth ar wahân sef Connexions Direct. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth llinell gymorth yn cael ei farchnata'n eang i bobl ifanc yng Nghymru. Dim ond 2% o'i ddefnyddwyr sy'n 17 oed neu'n iau, tra bo 11% arall yn 18-24 oed[59].

2.15 Mae nifer y galwadau i'r llinell gymorth wedi cynyddu oherwydd ei defnydd fel rhan o'r broses gais ar gyfer agor Cyfrifon Dysgu Unigol: enghraifft o'r ffordd y gellir ei defnyddio i gefnogi polisïau a rhaglenni eraill y Cynulliad. Gan ystyried hyn, a natur bob oed y gwasanaeth, mae'n dipyn o syndod fod nifer y galwadau rhywfaint is ar sail y pen o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyfanswm y cysylltiadau yn 2007/08 oedd 33,827, a oedd yn gynnydd o 7% ar y flwyddyn flaenorol, roedd y ffigwr hon yn cynnwys 1,365 neges e-bost[60]. Un esboniad posibl yw nad yw galwadau ffonau symudol yn cael eu trosglwyddo fel mater o drefn i'r ganolfan alwadau yng Nghymru. Un arall yw bod

---

[55] Gilson, P. (2008). *Learndirect (Llinell Cyngor Dysgu) Adroddiad Llinell Gymorth 2007-2008.* Caerdydd: Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro.
[56] Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro (2008). 3*ydd Adroddiad Perfformiad: 1af Rhagfyr 2007 – 31 Mawrth 2008,* t.6. Caerdydd.
[57] BMG Research (2008). *Learndirect Helpline Evaluation Survey Debrief (Qtr 1, 2008) – Key Scores for Wales.* Birmingham: BMG Research.
[58] Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro (2008). 3*ydd Adroddiad Perfformiad: 1af Rhagfyr 2007 – 31 Mawrth 2008,* t.6. Caerdydd: CWC&V.
[59] Data o Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro.
[60] Data o Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro. Os caiff yr e-bost ei eithrio, mae'r ffigwr o 32,462 yn cynrychioli canran o 11% mewn perthynas â chyfanswm y boblogaeth o 3.0. Y gyfran gymharol ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn 2006 oedd 1.6%.

mwy o wasanaethau gyrfa wyneb yn wyneb ar gael yng Nghymru sy'n golygu bod llai o atebolrwydd gan y ffôn at ddibenion o'r fath.

2.16 Yn gysylltiedig â'i waith gyda'r gwasanaeth cyngor ffôn, mae Gyrfa Cymru hefyd yn gyfrifol am ddarparu rhan Cymru Cyfeiriadur Dysgu Cenedlaethol y DU gyfan. Cynhelir y gwaith hwn gan Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro a Gyrfa Cymru Gorllewin, Adroddodd y gwerthusiad annibynnol lefel dda iawn o gywirdeb[61].

2.17 Erbyn hyn mae'r gwasanaeth Learndirect wedi'i ailfrandio fel y Gwasanaeth Cyngor Gyrfa, yn unol â datblygiadau yn Lloegr lle trosglwyddwyd cyfrifoldeb drosto o UfI i'r Cyngor Dysgu a Sgiliau wrth baratoi ar gyfer ei integreiddio i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Hybu Oedolion newydd yn Lloegr o 2010. Gall hyn arwain at ailfrandio pellach, sy'n codi rhai materion marchnata pwysig o safbwynt Cymru (gweler para.2.62-2.63).

2.18 Mae'r ffaith fod y gwasanaeth ffôn yn destun cytundeb y DU gyfan, ac wedi'i neilltuo yng nghontract Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro â'r Cynulliad, wedi cyfyngu'r graddau y caiff ei integreiddo'n llawn i strwythurau gwasanaethau Gyrfa Cymru. Mae rhai cwmnïau Gyrfa Cymru yn dal i farchnata eu gwasanaeth ffôn am ddim eu hunain. Wrth gwrs, mae cynghorwyr gyrfa wedi defnyddio eu ffôn ers amser maith er mwyn cynnal cyswllt â rhai cleientiaid, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nid yw ymarfer o'r fath o'r rheidrwydd yn anghydnaws â chael canolfan alwadau genedlaethol. Ac mae'r system atgyfeirio ar gyfer galwadau cyfarwyddyd (para.2.13) wedi helpu cyflawni integreiddio gwell na chynt. Ond mae dal i fod lle ar gyfer cynnydd pellach o ran hyn - mater y byddwn yn dychwelyd ato yn y man (para.2.29).

2.19 Ystyrir gwasanaeth Gyrfa Cymru a **leolir ar y we**, Gyrfa Cymru Ar-lein (CWOL), yn amlwg fel un o'i gyflawniadau mwyaf llwyddiannus. Mae diddordeb y Cynulliad ynddo yn gysylltiedig â'i pholisïau ehangach ar TGCh ac e-Lywodraeth yng Nghymru, sy'n tarddu o'i adroddiad *Creu'r Cysylltiadau*[62]*.* Disgrifir CWOL yn y *Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-09* fel y gwelliant gwasanaeth Gyrfa Cymru ychwanegol mwyaf pwysig er 2004-05'[63]. Mae wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys gwobr Celfyddydau Ffilm a Theledu'r Academi Brydeinig (BAFTA) yn 2005 am ei arloesedd technegol a chymdeithasol, a'r unig ymgeisydd o Gymru i gyrraedd rhestr fer y Gwobrau e-Lywodraeth yn 2007/08.

2.20 Rheolwyd llawer o ddatblygiad CWOL gan y Bwrdd Rheoli Prosiect, sydd wedi cynnwys aelodau bwrdd Cymdeithas Gyrfa Cymru a chynrychiolydd o'r Cynulliad. Mae rhan fwyaf y cyllid wedi dod o gwmnïau gyrfa, rhai ohonynt wedi'u neilltuo yn eu contractau â'r Cynulliad (nid felly y mae mwyach). Yn ddiweddar, cytunwyd y dylai Grŵp

---

[61] Globe Economic Development Consultants (2008). *Testing the Accuracy of Data in the National Learning Directory.* Lincoln: Globe Regeneration Limited.
[62] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). *Creu'r Cysylltiadau: Darparu Gwell Gwasanaethau i Gymru* Caerdydd: LlCC.
[63] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Gyrfa Cymru: Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-2009,* t.4. Caerdydd: LlCC.

y Prif Weithredwyr gymryd lle'r Bwrdd Rheoli Prosiect, yng ngoleuni effaith CWOL ar weithgareddau busnes craidd pob un o'r cwmnïau.

2.21 Wrth gynllunio a datblygu'r wefan, bu ymgynghori helaeth gyda grwpiau cleientiaid a phartneriaid. Mae hyn wedi cynnwys grwpiau ffocws, profi defnyddwyr, a holiaduron i grwpiau cleientiaid gwahanol. Gwahoddir defnyddwyr yn rheolaidd i fynegi eu barn drwy fecanwaith adborth SurveyMonkey. Mae gan CWOL Grŵp Cynghori hefyd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cyfeirio pwysig.

2.22 Mae'r safle'n cynnwys amrywiaeth o gronfeydd data ac offer cynllunio gyrfa. Mae'r cronfeydd data yn ymwneud â gwybodaeth addysgol, gwybodaeth alwedigaethol a gwybodaeth am y farchnad lafur. Yng nghanol y safle mae e-bortffolio, a gynlluniwyd i alluogi defnyddwyr i gofnodi, adolygu ac adlewyrchu ar eu gyrfa a'u taith dysgu. Y weledigaeth yw 'galluogi pawb yng Nghymru i ddatblygu eu gyrfa a'u sgiliau dysgu drwy eu portffolio eu hunain a chynnwys cefnogi safle'[64]. Mynegwyd y gobaith yn gynnar y byddai'r '"e-bortffolio" sy'n torri tir newydd yn dod yn offer gydol oes, i helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau i reoli datblygiad eu gyrfa a'u dysgu drwy gofnodi eu llwyddiannau dros y blynyddoedd a siartio eu cynnydd yn erbyn targedau a osodir[65].

2.23 Cynyddodd y nifer a gofrestodd ar safle CWOL o 29,537 yn 2004/05 i 96,826 yn 2005/06, 213,349 yn 2006/07 a 243,990 yn 2007/08[66]. Mae pobl ifanc yn defnyddio'r safle'n helaeth (er mae graddau a chyflymdra mynediad at TGC yn broblem o hyd mewn rhai ysgolion). Dangosodd arolwg yn 2008 o bobl ifanc a oedd wedi cael cyfweliad cyfarwyddyd (sef bron pob unigolyn ifanc) fod ychydig yn llai na dau draean (62%) o bobl ifanc a oedd wedi cael y cyfweliad cyfarwyddyd wedi dweud eu bod wedi'i ddefnyddio[67]. Roedd y ffigwr gymharol yn achos yr oedolion a oedd wedi cael cyfweliad cyfarwyddyd (nifer llawer yn is) ychydig yn fwy na dau bumed (43%)[68]. Yn gyffredinol, ymddengys fod oedolion yn defnyddio CWOL yn llai, a nhw'n sy'n ei gael rhywfaint yn llai defnyddiol. Dengys arolwg o sampl o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2006 fod 24% wedi clywed am wefan Gyrfa Cymru, o'r rhain ychydig yn fwy na thraean a oedd wedi ymweld â hi[69]. Tra bo'r ymateb o bob grŵp oedran wedi bod yn gadarnhaol iawn, prin bu'r ymateb oddi wrth oedolion cyflogedig, ac mae rhai ohonynt wedi teimlo bod cynnwys y safle wedi'i anelu at bobl iau[70].

2.24 Yn ddiweddar mae gwefan CWOL wedi cael ei gwella'n sylweddol. Erbyn hyn mae adrannau wedi'u neilltuo ar gyfer gwahanol grwpiau targed: y rhai sy'n 16 oed neu'n iau (wedi'i rannu ar gyfer blynyddoedd 9-11), y rhai sy'n 16-19 oed (wedi'i rannu'n

---

[64] Llyfryn Gyrfa Cymru Ar-lein.
[65] Gyrfa Cymru (2004). *Adolygiad Blynyddol 2003/4*, t.8. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.
[66] Data o Gymdeithas Gyrfa Cymru.
[67] Beaufort Research (2008). *Gyrfa Cymru:Arolwg Dangosydd Perfformiad: Adroddiad Pobl Ifanc Mawrth 2008,* t.3. Caerdydd: Beaufort Research.
[68] Beaufort Research (2008). *Gyrfa Cymru:Arolwg Dangosydd Perfformiad: Adroddiad Cleientiaid sy'n Oedolion Mawrth 2008,* t.18. Caerdydd: Beaufort Research.
[69] Beaufort Research (2006). *Gyrfa Cymru: Ymchwil Ymwybyddiaeth ac Effaith Brand: Trosolwg o Ganfyddiadau Allweddol.* Caerdydd: Beaufort Research.
[70] Data o ddangosyddion perffomiad Gyrfa Cymru Ar-Lein

chweched dosbarth neu goleg, mewn gwaith, mewn hyfforddiant, a diwaith), oedolion, cyflogwyr, rhieni a gweithwyr gyrfa proffesiynol. Y gobaith yw y bydd hyn yn atal unrhyw un o'r grwpiau rhag teimlo nad yw'r wefan ar eu cyfer. Bydd cronfa data o gyfleoedd profiad gwaith yn cael ei phrofi cyn hir, a fydd yn cofnodi lleoedd a gynigir gan gyflogwyr, er mwyn galluogi pobl ifanc i drefnu eu lleoliad gwaith. Darperir gwelliannau hefyd ar gyfer defnyddwyr ag anableddau dysgu.

2.25 O bwysigrwydd arbennig yw'r ffaith fod y fersiwn newydd yn cynnig cymorth gwell i Lwybrau Dysgu 14-19. Mae hyn yn cynnwys: prosbectws Cymru gyfan o gyfleoedd Llwybrau Dysgu ar gyfer pob un o'r pedwar rhwydwaith ar hugain ar gyfer 14-19 (un ymhob Awdurdod Lleol), sy'n cynnwys manylion cyrsiau Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16; cyfleusterau negeseua sy'n caniatáu i ddysgwyr gyflwyno eu cynlluniau a'r dewisiadau opsiwn i diwtoriaid, cynghorwyr gyrfa, anogwyr dysgu, a chydlynwyr cwricwlwm; a chyfleusterau gweinyddol i ysgolion a rhwydweithiau sy'n cefnogi cynhyrchiad adroddiadau rheoli gwybodaeth am ddewisiadau Llwybrau Dysgu a wneir gan ddysgwyr. Gall ysgolion lawrlwytho data dewis disgyblion i system rheoli gwybodaeth eu hysgol, lle gallant ddefnyddio'r data i'w cefnogi wrth greu amserlenni. Mae'r Cynulliad yn mabwysiadu CWOL yn effeithiol, nid yn unig fel yr offer cyfarwyddyd allweddol yn ymwneud â'r llwybrau, ond hefyd fel yr offer gweinyddol allweddol. Ni fydd disgwyl i ysgolion a cholegau na darparwyr dysgu eraill ei ddefnyddio, ond bydd hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio (gan gynnwys sut i addasu ei gynnwys er mwyn cynnwys eu darpariaeth eu hunain[71]) yn cael ei gynnig i bob un ohonynt erbyn mis Medi 2010, ac mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf yn gwneud hynny os nad pob un ohonynt.

2.26 Mae hyn yn rhoi CWOL yn arbennig a Gyrfa Cymru'n gyffredinol mewn safle canolog. Yn y dyfodol, mae'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc yn debygol o ddefnyddio CWOL yn gyson rhwng 14 oed a 19 oed. Gan ei fod wedi'i gynllunio'n gychwynnol fel offer cyfarwyddyd yn hytrach nag offer gweinyddol, mae'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn gyfeillgar i ddefnyddwyr. Gan y cedwir eu portffolio yno, o bosibl fel y sylfaen ar gyfer cynnal eu curriculum vitae, a chynnwys cronfa bersonol o adnoddau gwybodaeth perthnasol, mae siawns y byddant yn parhau i'w ddefnyddio. Os felly, gallai fod yn sylfaen wirioneddol ar gyfer datblygu gyrfa gydol oes, gyda'u portffolio a amgylchynir gan adnoddau eraill - gan gynnwys arwyddbyst i wasanaethau eraill Gyrfa Cymru - y gallant gael mynediad atynt er mwyn cael cymorth. Yr hyn sy'n allweddol yw a ydynt yn ystyried eu portffolio fel rhywbeth y maent yn berchen arno, ac felly am ei gynnal: neu fel rhywbeth y maent yn ei gysylltu ag ysgol a dyletswydd, ac felly am ei adael ar ôl. Mewn egwyddor, serch hynny, mae'n darparu sylfaen gref er mwyn adeiladu, yn enwedig os gellir datblygu 'bachau' pellach er mwyn eu hannog i'w ddefnyddio ôl-16. Mae'r gallu i ryngweithredu gydag e-bortffolios yn addysg uwch, y mae'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) yn ymchwilio iddo ar hyn o bryd[72], yn fater pwysig iawn, fel y mae'r rhyngwyneb ehangach rhwng Gyrfa Cymru a gwasanaethau gyrfa addysg uwch Cymru (gweler para.4.23-4.33).

---

[71] Gall addasu o'r fath ddigwydd ar lefel sefydliad, consortiwm neu bartneriaeth: mae dewisiadau ar hyn i'w gwneud yn lleol.

[72] Gweler http://www.jisc.ac.uk/publications/publications/pub_eportfolio_overview/pub_eportfolio_overview_full.aspx

2.27 Mae'r lefel o ryngweithio â chynghorwyr a ddarperir yn CWOL wedi'i chyfyngu ar hyn o bryd, Gall defnyddwyr anfon eu hymholiadau mewn neges e-bost drwy gyfleuster negeseua 'Cysylltwch â Ni' CWOL, sy'n cyfeirio eu cais at ganolfan alwadau Caerdydd a'r Fro yn achos ymholiadau yn ymwneud â dysgu, ac at eu cwmni gyrfa lleol yn achos ymholiadau eraill. Ni ddefnyddir cyfleusterau sgwrsio ar-lein eto. Os yw CWOL am barhau i chwarae rhan strategol fawr yn natblygiad Gyrfa Cymru, mae angen edrych ymhellach ar bosibiliadau o'r fath, ynghyd â chyfleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gynigir gan dechnolegau Web 2.0.

2.28 Yn ogystal â CWOL, mae Gyrfa Cymru wedi rheoli CLIC ers 2004, y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed. Dosbarthir y wybodaeth yn ddeg pwnc, gan cynnwys iechyd, y gyfraith, hawliau a dinasyddiaeth, a'r teulu a pherthnasoedd. Cytunwyd yn gynnar yn y broses y dylai hyn gael strwythur rheoli, a hunaniaeth brand a delwedd, a fyddai'n wahanol i CWOL. Mae hyn yn enghraifft bellach o Gymru'n gwrthod dilyn y llwybr a fabwysiadwyd gan Loegr o gynnwys gwasanaethau gyrfa yng nghyd-destun cyffredinol 'gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd' (gweler para.1.49). Mae'r contract yn awr wedi'i ail-dendro, a chyflwynwyd ef i ddarparwr arall.

2.29 Mae'r graddau y caiff sianelau amrywiol eu **hintegreiddio** yn Gyrfa Cymru wedi'u cyfyngu rhywfaint o hyd. Nid oes unrhyw waith wedi'i wneud hyd yn hyn i ddatblygu system rheoli cwsmeriaid integredig, fel y gwnaethpwyd yn Seland Newydd, gan gofnodi'r holl ryngweithio gyda'r un cleient waeth beth fo'r sianel a ddefnyddir[73]. Nid yw modelau sylfaenol y cyfarwyddyd a ddefnyddir gan Gyrfa Cymru wedi'u had-drefnu er mwyn cymryd i ystyriaeth y sianelau gwahanol. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'r adnoddau wedi'u gosod ar gyfer symud ymlaen yn y cyswllt hwn, gan symud tuag at strwythur lle gellir ystyried y sianelau, nid fel dewis amgen ond fel portholion eraill i ystod integredig o wasanaethau[74].

## Gwahaniaethu

2.30 Yn wahanol i Seland Newydd a'r Alban, ychydig o waith sydd wedi'i wneud yn Gyrfa Cymru o ran darparu gwasanaethau gwahaniaethol.

2.31 Fel y nodwyd ym mhara.2.13 uchod, gweithredir system frysbennu yn y llinell gymorth dros y ffôn, ac felly derbynnir galwadau gan staff gwybodaeth, ac yna caiff y rheiny sydd angen cyfarwyddyd (6%) eu trosglwyddo i gynghorydd gyrfa. Yn yr un modd, mewn canolfannau galw heibio, i ddechrau mae ymwelwyr yn gweld yr derbynnydd a/neu staff gwybodaeth, ac yna caiff y rhai sydd angen cyfarwyddyd eu cyfeirio at gynghorydd gyrfa.

---

[73] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,* t.21. Wellington, New Zealand: Careers Services.

[74] Fel y cymeradwywyd mewn papur a baratowyd ar gyfer adolygiad yr Organisation for Economic Co-operation and Development. Watts, A.G. (2002). Rôl technolegau gwybodaeth a chyfathrebu mewn system gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfa integredig: safbwynt polisi. *International Journal for Educational and Vocational Guidance, 2(3),* 139-155.

2.32 Mewn ysgolion, y polisi bu i geisio cyfweld ag o leiaf 90% o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4, ac i'w gweld ar adegau eraill lle bo'n bosibl. Yn y Cyfarwyddyd Cynllunio ar gyfer 2008/09 diddymwyd y 'targed uchelgeisiol' hwn, er dylai'r cynlluniau 'osod sut y cynhelir gwasanaeth cymorth cyson, hygyrch a chynhwysfawr ar gyfer myfyrwyr CA4 sydd angen cymorth GCW er mwyn cynllunio i drawsnewid'[75]. Y model arferol yw cyfweliad yn para tua 50 munud, sy'n arwain at gynllun gweithredu gyrfa. Roedd contract Gyrfa Cymru ar gyfer 2007/08 yn nodi y dylid helpu disgyblion i gyrraedd penderfyniad gwybodus ymhob un o'r Pwyntiau Penderfynu Allweddol (Blynyddoedd 7,9,11,13), a 'bod yn rhaid cofnodi mewn Canlyniad Ysgrifenedig y penderfyniadau a wneir gyda chymorth unigol sylweddol Ymarferydd Cyfarwyddyd [sy'n gymwysedig hyd at NVQ Lefel 4] yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd Pwynt Penderfynu Allweddol, a bod y Darparwr yn cadw copi'. Er bod llawer o ddisgyblion yn derbyn mwy nag un cyfweliad (gweler para.3.37), mae'n amlwg nad oes gan gwmnïau Gyrfa Cymru'r adnoddau i ddarparu cyfweliadau gyrfa i bob myfyriwr ym mhob un o'r pwyntiau penderfynu.

2.33 Felly ymddengys y bydd angen i Gyrfa Cymru symud tuag at fodel darparu gwasanaethau gwahaniaethol mewn ysgolion a cholegau yn ogystal â mewn mannau eraill. Cydnabyddir hyn mewn papur a baratowyd gan y cwmnïau ar gyfer eu hadolygiad presennol. Mae'n nodi ei fod 'yn bryd erbyn hyn i ddarparu gwasanaeth mwy gwahaniaethol i'w gleientiaid, gan ymateb i ofynion ac anghenion wrth iddynt godi, a phan godant'. Mae'n nodi y bydd 'hyn yn golygu symud adnoddau o ddull blanced (lle bo pawb mewn grŵp blwyddyn yn cyfarfod â'u cynghorydd gyrfa) i un sy'n gosod targedau cymorth i'r rheiny sydd ei angen, pan fo'i angen arnynt.' Mae'n nodi 'na chaiff hyn ei groesawu â brwdfrydedd gan ysgolion sydd am i Gyrfa Cymru barhau i ddarparu ei lefel bresennol o wasanaeth i fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 wrth hefyd gynyddu ei waith i Gyfnod Allweddol 3, ond yn nodi 'nad yw hyn yn bosibl gyda'r adnoddau presennol'. Mae'n cynnig yn arbennig, 'er mwyn caniatáu amser ychwanegol i'r rheiny ym Mlwyddyn 9, bydd angen i Gyrfa Cymru ddefnyddio dull a arweinir gan alw yn hytrach nag angen er mwyn rhoi cymorth i bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4, a'r rheiny mewn darpariaeth ôl-16'. Mae'n ychwanegu y bydd 'y cymorth hwn sydd wedi'i dargedu yn cael ei oleuo gan offer asesu a chyfeirio diagnostig, gan y bobl ifanc a'r staff sy'n gweithio gyda nhw'[76].

2.34 Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, gallai cwmnïau Gyrfa Cymru ei chael o fudd edrych ar y strwythur a fabwysiadwyd yn Yr Alban[77], lle ail-fodelwyd y gwasanaethau i raddau helaeth ar sail model darparu gwasanaethau gwahaniaethol a ddatblygwyd yn

[75] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Gyrfa Cymru: Cynllunio Cyfarwyddyd 2008-2009,* t.4. Caerdydd: LlCC.
[76] Gyrfa Cymru (2008). *Papur 2 Gyrfa Cymru: Crynodeb o Wasanaethau a Ddarperir gan Gyrfa Cymru,* t.7. Paratowyd y papur ar gyfer Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru.
[77] Am lawlyfr diweddar yn cyflwyno model FSU yn fanwl, gweler Sampson, J.P. (2008). *Designing and Implementing Career Programs: a Handbook for Effective Practice.* Broken Arrow, OK: National Career Development Association.

Florida State University yn UDA[78]. Roedd hyn yn gwahaniaethu rhwng y rheiny sy'n gallu gweithio ar sail 'hunangymorth' gan amlaf, y rhai sy'n gofyn am wasanaethau cryno wedi'u cynorthwyo, a'r rhai sy'n gofyn am gymorth 'dwys'. Mae fersiwn o'r model hwn hefyd ar waith yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd. Mae'n darparu dull systematig o ailgynllunio gwasanaethau[79].

2.35 Wrth weithredu'r model hwn, mae angen ystyried yn ofalus ei ddefnydd mewn ysgolion. Er enghraifft, ers amser, mae'r Alban wedi dychwelyd i geisio cyfweld â phob disgybl, er bod yn hyn yn destun adolygiad unwaith eto. Mae dadl gref dros gael pob unigolyn ifanc i weld cynghorydd gyrfa proffesiynol, nid yn lleiaf fel mesur i wneud penderfyniadau a rheoli ansawdd. Efallai fod pobl ifanc yn ei chael yn gyfleus honni rhyw gyfeiriad o ran eu gyrfa, ond heb sylfaen gref iddo mewn gwirionedd. Hefyd, os yw mynediad at gynghorydd annibynnol yn sicrhau didueddrwydd, fel y mae Deddf Addysg 1997 yn ei arddel, yna ymddengys mynediad o'r fath fel yr hawl leiaf. Ar y llaw arall, gall cyfweld cynhwysfawr droi'n rhan o'r drefn arferol, ac felly gall disgyblion ei weld fel proses fiwrocrataidd. Mae achos cryf dros amrywio ei amersu, a'i gadw mewn dull datblygiadol sy'n corffori egwyddorion darparu gwasanaethau gwahaniaethol.

**Treiddiad**

2.36 Mewn egwyddor, yn ogystal â'u cyfrifoldebau statudol dros bobl ifanc[80], mae disgwyl i Gyrfa Cymru ddarparu gwasanaethau gyrfa i bob oedolyn. Mae natur yr hawl sy'n berthnasol yma rywfaint yn amwys. Ar lefel ffurfiol, mae posibilrwydd o fynediad at Gyrfa Cymru Ar-Lein yn cynnig cymal dihangol. Yn amlwg ceir ymdrechion i ddarparu mwy na hyn i'r rhai sy'n ei geisio. Ond roedd ymtaeb Cymdeithas Gyrfa Cymru i'r ymgynghoriad *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn datgan 'dylai pawb gael yr hawl i gyfarwyddyd gyrfa – oedolion yn ogystal â phobl ifanc'[81] – gan awgrymu nad felly y mae ar hyn o bryd. Ymddengys, er enghraifft, fod achos cryf dros ddarparu mynediad at gyfarwyddyd gyrfa i bob oedolyn sy'n ymgymryd â dysgu ffurfiol a ariennir yn gyhoeddus, er mwyn eu helpu i wneud y defnydd gorau o'u dysgu o ran datblygu gyrfa. Ond tra bo dogfen ymgynghori'r Cynulliad ar ddysgu oedolion yn y gymuned yn trafod pwysigrwydd cynnydd, nid yw'n sôn o gwbl am gyfarwyddyd i gynnydd o'r fath[82].

---

78 Am lawlyfr diweddar yn cyflwyno model FSU yn fanwl, gweler Sampson, J.P. (2008). *Designing and Implementing Career Programs: a Handbook for Effective Practice.* Broken Arrow, OK: National Career Development Association.

79 Gweler y pwynt bwled olaf ond un ym mhara.2.1.

80 Caiff y rhain eu harddel yn Neddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973, fel y diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993. Hefyd, mae Cyfarwyddyd ac Arweiniad i Wasanaethau Cymorth i Ieuenctid (Cymru) 2002, a wnaethpwyd dan adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai pob unigolyn ifanc yng Nghymru gael mynediad at gyngor a chyfarwyddyd gyrfa annibynnol ac arbenigol, fel un o ddeg hawl, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac ym mywydau eu cymunedau.

81 Cymdeithas Gyrfa Cymru (2008). Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.2. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.

82 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio dros Gymru: elivering Skills that Work for Wales:* Ymagwedd *Newydd at Ddysgu Oedolion yn y Gymuned t.*24. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.37 O ran pobl ifanc, mae'r graddfeydd treiddio yn aml yn sylweddol iawn. Yn ystod 2007/08, cynhaliodd cwmnïau Gyrfa Cymru 137,000 cyfweliad gyda phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. Gyda charfan oedran o tua 40,000 ar gyfartaledd, mae hyn yn golygu bron i 3.5 cyfweliad i bob myfyriwr rhwng 14 a 19 oed. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf yn derbyn rhwng un a thri chyfweliad, gyda nifer fechan - y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai mewn perygl o droi'n NEET - yn derbyn help mwy dwys. Os ychwanegir sesiynau grŵp at hyn ynghyd â mynediad at CWOL, mae'n golygu continwwm sylweddol o gymorth. Serch hynny, mae'n werth nodi, tra bod canran y garfan Blwyddyn 11 a gafodd gyfweliad yn 2006/07 yn 91%, roedd canran ychweched dosbarth mewn ysgol neu goleg trydyddol ond yn 45%[83]. Gall hyn fod oherwydd yr ymarfer a ymgymerwyd mewn rhai ysgolion o gyfyngu mynediad cynghorwyr gyrfa at fyfyrwyr chweched dosbarth a oedd yn bwriadu mynd i addysg uwch, gyda chyfarwyddyd i'r myfyrwyr hyn yn cael ei ddarparu gan diwtoriaid a phenaethiaid y chweched dosbarth.

2.38 I oedolion, mae'r lefelau gweithgarwch llawer yn is nag i bobl ifanc. Yn ystod 2007/08, derbyniodd 44,905 oedolyn gyfweliad unigol gyda staff Gyrfa Cymru; o'r rhain, cafodd lleiafrif fwy nag un[84]. O'r rhai a gafodd gyfweliad, roedd gan 43% gymwysterau hyd at Lefel 3 neu'n uwch[85]. Yn nhermau lefel yr ymyrraeth roedd mwy na dau draean o'r cyfweliadau'n gyfweliadau cyfarwyddyd a ddarparwyd gan staff a oedd yn gymwysedig hyd at NVQ Lefel 4; roedd y gweddill yn sesiynau gwybodaeth a chyngor a ddarparwyd gan staff a oedd yn gymwysedig hyd at NVQ Lefel 3[86]. Mae'r rhifau hyn yn ogystal â'r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaethau ffôn (gweler para.2.15) a'r rhai a fu'n defnyddio Gyrfa Cymru Ar-Lein (gweler para.2.23). Mae'n amlwg mai dim ond lleiafrif bychan o oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru yn ystod unrhyw adeg o'u bywyd fel oedolyn ar hyn o bryd.

2.39 Caiff tensiwn rhwng mynediad cyffredinol a thargedu gwasanaethau i'r rhai sydd eu hangen fwyaf ei gysoni drwy fformiwla bolisi lle mae gofyn i gwmnïau Gyrfa Cymru ddatgan eu hymrwymiad i sicrhau y bydd o leiaf 75% o gyfweliadau cyfarwyddyd gydag oedolion yn rhai gydag aelodau o grwpiau â blaenoriaeth benodedig, wrth ganiatáu i'r gwasanaethau beidio â throi'r rhai i ffwrdd os ydynt y tu allan i'r grwpiau hyn ac yn gofyn am help.

2.40 Yn ymarferol, cynhelir y fformiwla'n rhannol gan farchnata cyfyngedig (gweler para.2.56-2.65 isod) ac yn rhannol gan restrau aros. Wrth gwrs, mae rhestrau aros o'r fath yn gyffredin yng ngwasanaethau'r sector cyhoeddus, er y gwnaethpwyd ymdrech gref yn ddiweddar mewn rhai sectorau, iechyd yn enwedig, i'w lleihau. Mae hyd yr amser y mae'n rhaid i oedolion aros am gyfweliadau cyfarwyddyd gyrfa yn amrywio gyda'r hinsawdd economaidd ond, adeg ysgrifennu hwn, mae cwmnïau gyrfa'n amcangyfrif ei fod rhwng llai nag wythnos a hyd at bedair wythnos. Mae'n bosibl y caiff cleientiaid o grwpiau blaenoriaeth - yn enwedig y rhai sydd wedi cael eu diswyddo'n

[83] Darparwyd y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.
[84] Darparwyd y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.
[85] Darparwyd y data gan gwmnïau Gyrfa Cymru.
[86] Darparwyd y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.

ddiweddar - eu rhoi ar drywydd cyflym (gweler para 2.51-2.53 isod): gyda'r cynnydd enfawr diweddar yn y nifer sy'n cael eu diswyddo, gallai hyn ychwanegu'n sylweddol at amseroedd aros cleientiaid eraill. Po hiraf y rhestr aros, y mwyaf tebygol y mae pobl o dynnu yn ôl, neu o beidio â mynychu.

2.41 Hyd yn hyn, ymddengys nad oes unrhyw waith wedi'i wneud yng Nghymru y gellir ei gymharu â'r model segmentu a ddatblygwyd gan Careers Scotland. Diffiniodd hyn y nifer o gwsmeriaid posibl ymhob un o blith nifer o gategorïau. Roedd gan y lefel gyntaf tri chategori: gweithlu'r dyfodol; mewn gwaith; yn yr ysgol; di-waith. Yna, isrannwyd pob un o'r rhain ymhellach: 'gweithlu'r dyfodol' i ysgol, addysg bellach ac addysg uwch, 'mewn gwaith' i gategorïau fesul maint y cyflogwr ac a oeddent yn derbyn hyfforddiant ai peidio; a 'di-waith' i 'dymuno cael swydd' a 'ddim yn dymuno cael swydd'. Mewn rhai achosion, ychwanegwyd lefel bellach o ddadansoddi: er enghraifft, rhannwyd y rheiny sy'n gadael ysgol fesul cyrchfan; a'r rheiny 'nad oeddent yn dymuno cael swydd' i 'salwch hir dymor', 'gofalu' a 'ymddeol/arall'. Edrychwyd ar bob categori yn nhermau lefel y flaenoriaeth, ac fe'u rhannwyd yn grwpiau blaenoriaeth -uchel, -canolig ac -isel. Defnyddiwyd y blaenoriaethu i benderfynu ar raddfeydd treiddio priodol ar gyfer pob un o'r categorïau[87]. Efallai caiff dull tebyg, wedi'i estyn i ymwneud â 'phwyntiau trawsnewid allweddol gydol oes'[88], ei fabwysiadu'n ffrwythlon gan Gyrfa Cymru fel offeryn cynllunio strategol.

### Targedu

2.42 Gall defnyddio offer o'r fath fod yn arbennig o ddefnyddiol i Gyrfa Cymru yng ngoleuni'r ffaith fod gofyn iddo, ynghyd â'i wasanaethau cyffredinol, roi sylw arbennig i anghenion nifer o grwpiau targed penodol. Mae hyn yn berthnasol i bobl ifanc ac i oedolion.

2.43 O ran pobl ifanc, caiff sylw arbennig ei roi i anghenion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith nac hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o ddisgyn i'r grŵp hwn. Mae lleihau maint y grŵp NEET yn nod polisi allweddol (gweler para.1.10). Y brif raglen a dargedwyd at y bobl ifanc hyn yw Porth Ieuenctid. Fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol er mwyn hwyluso trosglwyddiad myfyrwyr 16 oed i waith neu addysg bellach a chyfleoedd hyfforddiant, ac mae wedi datblygu i fynd i'r afael â'r problemau ehangach a ddaw yn sgil ymddieithrio o addysg ffurfiol[89]. Erbyn hyn mae'n cynnwys dwy raglen: Porth Ieuenctid, a gynlluniwyd ar gyfer y grŵp oedran ôl-16; a Phorth Addysg, a dargedir at y rheiny yng Nghyfnod Allweddol 4 sydd wedi rhoi'r gorau i'r ysgol neu sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, neu'r rheiny sydd mewn perygl o wneud hynny. Mae'r ddwy raglen yn cynnwys cymysgedd o fentora dwys un-i-un, gwaith mewn grwpiau bach, a gweithgareddau grŵp (e.e. gweithgareddau awyr agored). Mae'r rhain yn cynnwys gwaith grŵp a gynlluniwyd er mwyn gwella hunan-barch, cymhelliant a hunanhyder, ynghyd â chymorth i chwilio am swydd, cwblhau ffurflenni cais a chreu CV. Cynghorwyr

---

[87] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential,* pp.13-14. Glasgow: Careers Scotland.

[88] Gweler yr ail baragraff ym mhara.2.1.

[89] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru - Adroddiad Terfynol,* t.10. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

arbenigol Porth Ieuenctid sy'n ymgymryd â mwyafrif y gwaith. Mewn rhai ardaloedd, mae'r rhaglenni wedi'u cefnogi gan arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop (gweler para.1.40-1.41). O'r bobl ifanc sydd wedi ymuno â Phorth Ieuenctid ô-16 rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2007, datblygodd 83% i ganlyniad cadarnhaol ymhen pedwar mis wedi dechrau'r rhaglen[90].

2.44 O'r rheiny sy'n cyflawni canlyniad mor gadarnhaol, mae nifer sylweddol yn dechrau ar ddarpariaeth ddysgu sy'n seiliedig ar waith – Adeiladu Sgiliau. Mae'n rhaid i bobl ifanc sy'n dechrau ar Adeiladu Sgiliau gael eu hardystio gan staff Gyrfa Cymru cyn dechrau ar y ddarpariaeth hon. Mae staff Gyrfa Cymru hefyd yn cynnal cyfarfodydd adolygu gyda'r unigolyn ifanc a'i ddarparwr hyfforddiant er mwyn sicrhau bod telerau'r ardystiad ac felly angen yr unigolyn ifanc yn cael eu bodloni.

2.45 Yn ogystal â Phorth Ieuenctid, mae Gyrfa Cymru yn chwarae rôl bwysig mewn nifer o Bartneriaethau Pobl Ifanc (PPI) wrth gyfrannu at gydlynu trefniadau tracio (Cadw mewn Cysylltiad) a'u harwain mewn rhai achosion, er mwyn canfod a chynnig cymorth i bobl ifanc 11-25 oed sy'n NEET. Roedd y Cynulliad yn ei adroddiad *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn cydnabod bod Gyrfa Cymru wedi gweithio'n galed i wella swm ac ansawdd y data tracio, ond yn pwysleisio 'bod llawer o waith i'w wneud o hyd'[91]. Yn ei ymateb, nododd Gyrfa Cymru 'mae'n gwneud synnwyr i dracio cyrchfannau fod yn rhan o'n cylch gwaith ein hunain', gan ychwanegu 'os yw hyn i'w gael ei wella'n sylweddol, bydd goblygiadau o ran adnoddau'[92].

2.46 Fel y nodwyd yn gynharach (para.1.10), roedd dogfen ymgynghori'r Cynulliad hefyd yn awgrymu bod angen i un sefydliad gymryd cyfrifoldeb dros gydlynu ac arwain y gwaith gyda phobl ifanc NEET, ac y dylai cwmnïau Gyrfa Cymru - yng nghyd-destun Partneriaethau Pobl Ifanc - ymgymryd â'r rôl hon. Yn ei ymateb, nododd Gyrfa Cymru ei fod yn fodlon gwneud hynny, ond ychwanegodd: "Mae'n hollbwysig fod ein partneriaid yn glir eu bod yn rhannu cyfrifoldeb o ddod o hyd i'r bobl ifanc a'u cefnogi ac i beidio â thybio bod gan Gyrfa Cymru gyfrifoldeb llwyr i leihau NEET[93].' Mae gan y rôl estynedig hon hefyd oblygiadau o ran adnoddau.

2.47 Mae'r gwasanaethau a gynigir gan Gyrfa Cymru i bobl 16/17 oed hefyd yn cynnwys gwasanaethau atgyfeirio a lleoliadau gwaith. Yn Yr Alban, roedd y cwestiwn a ddylai delio â swyddi gwag yn y fath fodd aros fel rhan o gylch gwaith Careers Scotland, wedi'i gyfyngu fel ag yr oedd y gwasanaeth i'r grŵp oedran penodol hwnnw, yn asgwrn cynnen yn ystod adeg adolygiad 2005[94], ac ar ôl hynny fe'i tynnwyd o'r cylch gwaith. Yng Nghymru, ymddengys nad oes unrhyw gwestiynu difrifol o ran rhesymeg dros gael Gyrfa Cymru'n cynnig y gwasanaethau hyn, er y cawsant eu beirniadu gan Estyn yn

---

Darperir y wybodaeth gan gwmnïau Gyrfa Cymru.

[91] Adran Plant, Addysg, Dygu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Gostwng Canran y Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant,* t.16. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[92] Cymdeithas Gyrfa Cymru (2008). *Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio dros Gymru,* t.9. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.

[93] Ibid., t.2, 7.

[94] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential,* t.26. Glasgow: Careers Scotland.

2004 am fod ‘edefyn gwanaf y gwasanaethau y mae cwmnïau gyrfa yn eu darparu’[95]. Derbynnir gan nad yw pobl ifanc o’r oedran hwn yn medru hawlio budd-daliadau di-waith, nid yw’r Ganolfan Byd Gwaith yn delio â nhw, ac felly mae’n gwneud synnwyr i Gyrfa Cymru gynnig gwasanaethau lleoliad gwaith iddynt fel rhan o’u cymorth ehangach ar gyfer y grŵp NEET. Yn 2007/08 rhoes Gyrfa Cymru fwy na 10,000 o bobl ifanc mewn cyflogaeth neu hyfforddiant[96]. Os oes nifer fawr o ymgeiswyr, ac os yw’r cyflogwr yn ei ddymuno, gallant greu rhestr fer ar gyfer y cwmni i’w cyfweld.

2.48 Yn gysylltiedig â’r pryder i leihau maint y grŵp NEET, rhoddir blaenoriaeth hefyd mewn ysgolion i bobl sy’n gadael addysg amser llawn ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae’r Cyfarwyddyd Cynllunio’n pwysleisio mai ‘disgwyliad allweddol yw bod unrhyw unigolyn ifanc a amlygir fel rhywun sy’n debygol o adael ei sefydliad addysgol ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn cael y cymorth a’r cyngor sydd ei angen arno er mwyn trawsnewid yn llwyddiannus yn 16 oed i addysg bellach/barhaus, hyfforddiant neu gyflogaeth’[97].

2.49 Caiff sylw arbennig ei roi i anghenion **pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig** (AAA) yn ymwneud ag anawsterau dysgu neu anableddau. Mae gan gwmnïau Gyrfa Cymru ran bwysig yn y broses trawsnewid AAA o 14 oed. Mae hyn yn cynnwys prif rôl wrth baratoi ceisiadau er mwyn ariannu lleoliadau gwaith addysg bellach sy’n breswyl ac yn arbenigol, ac wrth baratoi Cynlluniau Dysgu a Sgiliau yn ystod blwyddyn olaf disgyblion yn yr ysgol gyda’r bwriad o gael cymorth dysgu pellach. Fel rhan o’r broses hon, mae gofyn i gynghorwyr Gyrfa Cymru fynychu pob adolygiad cynllunio trawsnewid sy’n digwydd ym Mlwyddyn 9 ac 11. Maent hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau pwysig yn ymwneud â thracio, eiriolaeth a broceriaeth. Mae gwaith o’r fath yn gofyn am ystod eang o sgiliau a gwybodaeth arbennig, a chaiff ei wneud fel arfer gan arbenigwyr anghenion arbennig. Ar hyn o bryd mae 35 ohonynt ledled Cymru: mae peth pryder ynghylch a yw hyn yn ddigon. O’r rhai a adawodd Blynyddoedd 11-14 yn 2007/08 gyda datganiadau AAA a oedd wedi cymryd rhan yn rhaglenni lle'r oedd Gyrfa Cymru ynghlwm wrthynt, cyrhaeddodd 97% gyrchfan cadarnhaol[98].

2.50 Mae’r gwaith y mae Gyrfa Cymru’n ymgymryd ag ef ar hyn o bryd yn y maes hwn yn debygol o gael ei ehangu’n sylweddol gan ddatblygiadau polisi presennol yn y Cynulliad. Mae’r rhain yn ehangu cysyniad anghenion addysgol arbennig er mwyn cynnwys cysyniad llawer ehangach anghenion dysgu ychwanegol, sy’n gorgyffwrdd â’r agenda NETS yn fawr. Maent yn cynnwys Strategaeth Cyflogaeth dan Gymorth ar gyfer pobl 16-18 oed sydd ag anghenion o’r fath, er mwyn ehangu lefel y cymorth sydd ar gael i’r rhai sydd wedi gadael ysgol: mae Gyrfa Cymru’n debygol o chwarae rôl flaenllaw wrth weithredu’r strategaeth hon.

---

Estyn (2004). *Mesur Cynnydd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru*, t.8. Caerdydd: Estyn.
Gyrfa Cymru (2008). *Papur 2 Gyrfa Cymru: Crynodeb o Wasanaethau a Ddarperir gan Gyrfa Cymru,* t.11. Papur a baratowyd gan Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru.
[97] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Gyrfa Cymru: Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-2009,* t.8. Caerdydd: LlCC.
[98]Darperir y wybodaeth gan gwmnïau Gyrfa Cymru.

2.51 I **oedolion,** y grwpiau blaenoriaeth a amlinellir yn y Cyfarwyddyd Cynllunio [99] yw:

- Y di-waith y tu allan i'r Fargen Newydd.
- Y rhai sy'n ceisio dychwelyd i'r gwaith.
- Y rhai sydd o dan rybudd diswyddo.
- Pobl gyflogedig sydd â lefelau isel o gymwysterau academaidd achrededig.
- Myfyrwyr galwedigaethol rhan-amser a'r rhai mewn addysg gymunedol.
- Y rheini sydd yn y carchar neu ar brawf neu'n dychwelyd o garchar i'w hardal leol.

Gall gwmnïau ychwanegu eu grwpiau blaenoriaeth ei hunain: er enghraifft, mae un cwmni (Caerdydd a'r Fro) yn cynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig a cheiswyr lloches.

2.52 Mae **colli gwaith** yn ystyriaeth bwysig, ac yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae'n debygol o fod yn un bwysicach fyth. Mae cysylltiadau cymunedol cryf cwmnïau Gyrfa Cymru wedi adeiladu disgwyliad y byddant yn gallu ymateb i'r sefyllfaoedd hyn: gallai eu gallu i wneud hyn fod yn broblem fawr yn awr. Pan gaewyd dau waith dur yn 2001, darparodd y Cynulliad adnodd ychwanegol, a chaniatáu i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn gael ei ddehongli mewn modd hyblyg. Rhwng 2003/04 a 2007/08 gwelwyd codi a gostwng rhwng 14% a 23% yng nghanran y cyfweliadau cyfarwyddyd i oedolion Gyrfa Cymru a roddwyd i oedolion a oedd mewn perygl o gael eu diswyddo[100]: mae'n debygol o fod llawer yn uwch yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf.

2.53 Prif offeryn rhaglen y Cynulliad ar gyfer ymateb i ddiswyddiadau yw'r rhaglen ReACT, sy'n cynnwys Cymhorthdal Recriwtio i'r Cyflogwr, Cymhorthdal Hyfforddi'r Cyflogwr a Gwobrau Hyfforddi Dewisol. Cefnogir y rhaglen gan arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae angen i bob ymgeisydd gael ei weld gan gynghorydd Gyrfa Cymru, ac mae'n rhaid i'r cynghorydd lofnodi ei ffurflen gais. Mae staff Gyrfa Cymru'n aml yn gweithio ar safle'r cwmni dan sylw, gan gynnig sesiynau grŵp yn ogystal â sesiynau un-i-un. Mae'r gwaith fel arfer yn cynnwys cynllunio gyrfa, creu proffil o sgiliau, dadansoddi anghenion hyfforddi, a chymorth wrth ysgrifennu CV. Daeth gwerthusiad o'r rhaglen ReACT yn 2005 i'r casgliad ei bod wedi helpu mwy na 80% o'r buddiolwyr i ddod o hyd i waith newydd yn eithaf buan ar ôl iddynt golli gwaith, gyda'r rhan fwyaf o ohonynt yn dangos cynaliadwyedd da o ran y swydd[101]. Serch hynny, mae'n debygol y caiff y llwyddiant hwn ei ddylanwadu gan gyflwr yr economi.

2.54 Grŵp blaenoriaeth pwysig arall yw **troseddwyr**. Mewn papur diweddar gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar 'ddatblygu sgiliau er mwyn lleihau

[99] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *gyrfa Cymru: Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-2009, t.*16. Caerdydd: LlCC.

[100] Darparwyd y wybodaeth gan Gangen Polisi Gyrfa DCELLS .

[101] Ymchwil y Grŵp Cyfeirio Cwsmeriaid (2005). *Gwerthusiad o'r Rhaglen ReACT – Cyfnod II.* Caerffili: Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELKa).

aildroseddu', amlygwyd y mater o gymorth cyfarwyddyd gyrfa ar eu cyfer yn nhermau datblygu sgiliau tra eu bod yn y carchar ac adsefydlu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau[102]. Mae Gyrfa Cymru yn arbennig o bwysig o ran troseddwyr ifanc, oherwydd ei allu i ddarparu cymorth cyson: Yn ddiweddar adroddodd Estyn ar y berthynas dda a chynhyrchiol rhwng Gyrfa Cymru a thimoedd troseddwyr ifanc[103]. Dau fater arwyddocaol yn ymwneud â throseddwyr yw'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn carcharau (sydd, er enghraifft, yn rhwystr yn nhermau sefydlu portffolios Gyrfa Cymru Ar-Lein), a'r ffaith fod nifer o garcharorion o Gymru'n cael eu carcharu yn Lloegr (nid oes, er enghraifft, unrhyw garchar yng Nghymru i fenywod). O ran y cyntaf, ceisir am fersiynau papur/disg yn lle'r rhyngrwyd; o ran yr olaf, mae camau wedi'u cymryd i greu cysylltiadau gyda throseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn Lloegr, ac i greu cofnodion ar-lein ar eu cyfer. Mae gan Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys ddau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn gweithio gydag oedolion yng ngharchar y Parc ac un arall yn gwneud gwaith peilot gyda phobl ifanc (15-18 oed).

2.55 Mae'n werth nodi bod nifer o grwpiau targed eraill yn amlwg oherwydd eu habsenoldeb ar restrau blaenoriaeth presennol: er enghraifft: myfyrwyr sydd wedi rhoi'r gorau i addysg uwch; pobl sy'n newid gyrfa; a gweithwyr hŷn. O ran yr olaf, mae'r cysylltiad rhwng cyfarwyddyd gyrfa a chadw'n brysur wrth heneiddio yn rhywbeth sy'n haeddu sylw cryfach mewn polisïau. Rhinwedd fwyaf y model segmentu cwsmeriaid yw y gall ganfod grwpiau targed ychwanegol o'r fath, a chanolbwyntio sylw ar ddatblygu ffyrdd o roi sylw i'w hanghenion.

**Machnata**

2.56 Mae lefel y gydnabyddiaeth gyhoeddus i frand Gyrfa Cymru'n gymharol uchel. Cafodd arolwg ffôn yn 2006 fod 63% wedi clywed am Gyrfa Cymru, o'i gymharu â 93% ar gyfer y Ganolfan Waith a 81% ar gyfer Learndirect. Pan ofynnwyd iddynt lle y byddent yn mynd yn gyntaf am 'help neu gyfarwyddyd ynghylch gyrfa, ennill cymwysterau, cyfleoedd hyfforddiant a chyllid', dywedodd 27% y ganolfan waith, 17% 'ysgol neu goleg neu brifysgol', 12% y rhyngrwyd a 7% Gyrfa Cymru (2% oedd y ffigwr ar gyfer Learndirect). Roedd 24% wedi clywed am wefan Gyrfa Cymru ac, o'r rhain, roedd ychydig yn fwy na thraean wedi ymweld â hi. Dywedodd 39% eu bod wedi gweld hysbysebu/marchnata ar gyfer Gyrfa Cymru yn y flwyddyn neu ddwy diwethaf: y rhai a gafodd eu crybwyll fwyaf oedd teledu (34%) a hysbysebion mewn papurau newydd lleol (25%)[104].

2.57 Yn ôl darn cyfochrog o waith gan Effective Communication yn 2006 ynghylch canfyddiadau pobl yn y cyfryngau, busnes, addysg, y Cynulliad, llywodraeth leol, undebau a phartneriaid eraill roedd y canfyddiad/gwybodaeth/barn o Gyrfa Cymru yn uchel ymhlith y rhai a oedd yn delio ag ef yn uniongyrchol, ac yn isel ymhlith y rhai nad

---

[102] Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (2007). *Dysgu Newid: Datblygu Sgiliau er mwyn Lleihau Aildroseddu yng Nghymru:* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[103] Estyn (2008). *Bodloni Anghenion Dysgu Plant a Phobl Ifanc sy'n Troseddu.* Caerdydd: Estyn.

[104] Beaufort Research (2006). *Careers Wales Brand Awareness and Impact Research: an Overview of Key Findings.* Caerdydd: Beaufort Research.

oeddent yn delio ag ef. Ni ystyriwyd bod cyfathrebu Gyrfa Cymru'n dda iawn, a mynegwyd peth rhwystredigaeth ynghylch ei strwythur tameidiog[105]. Roedd adroddiad mwy diweddar gan York Consulting yn argymell bod angen datblygu 'cyfres glir o negeseuon er mwyn crynhoi a mynegi pwynt gwerthu unigryw Gyrfa Cymru i ystod o gynulleidfaoedd gan gynnwys cleientiaid, cyflogwyr a sefydliadau partner'[106].

2.58 Mae'r ffigwr o 63% yn arolwg Beaufort Research yn cymharu'n ffafriol â Seland Newydd, lle'r ffigwr cymharol oedd 31%[107]. Ond mae'n is na Careers Scotland (72%)[108] a Learndirect yn Lloegr (82%)[109].

2.59 Mae lefel y gwariant ar farchnata lawer yn is nag yn achos Seland Newydd a Learndirect. Yn Gyrfa Cymru, roedd cyfanswm y gwariant yn 2007/08 yn £40,000, a oedd yn llai na 1% o'r cyfanswm trosiant o £44.9m. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y ffigwr ar gyfer Seland Newydd yn 7%, ac yn 33% ar gyfer Learndirect[110].

2.60 O gyfanswm y gyllideb ar gyfer marchnata sef tua £400,000, dim ond £50,000 a drafodwyd yn ganolog gan Gymdeithas Gyrfa Cymru. Rheolwyd y gweddill ar lefel ranbarthol gan y gwahanol gwmnïau gyrfa.

2.61 Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod Gyrfa Cymru yn cael gwerth da o'i fuddsoddiad cyfyngedig mewn marchnata. Ymddengys fod marchnata rhanbarthol a lleol yn effeithiol iawn, gan wrthgyferbynnu'n ffafriol â Careers Scotland yn y modd hwn[111]. Mae dal i fod ychydig o amharodrwydd i farchnata'n rhy drwm rhag ofn ysgogi galw (yn enwedig y tu allan i'r grwpiau blaenoriaeth) na fydd Gyrfa Cymru yn gallu ei ateb.

2.62 Cydnabyddir hefyd yn Gyrfa Cymru bod ei linell gymorth wedi elwa'n fawr o ymgyrchoedd hysbysebu a gweithgareddau hyrwyddo Learndirect yn Lloegr a oedd gwerth sawl miliwn ac a ariannwyd gan Ufl[112]. Gan fod llawer o'r cyfryngau mwyaf dylanwadol yn rhai'rDU gyfan, a chan y defnyddiwyd rhif ffôn cyffredinol ledled y DU, i bob pwrpas, hyrwyddwyd y llinell gymorth yn genedlaethol i Gymru yn rhad ac am ddim. Ond erbyn hyn mae gwasanaeth y llinell gymorth yn Lloegr wedi'i drosglwyddo o

---

[105] Effective Communication (2006). *Careers Wales: External Perceptions Survey.* Caerdydd: Effective Communication.

[106] York Consulting (2007). *An Initial Study to Redefine the Careers Wales Contribution to 'Learning Pathways 14-19' and 'Extending Entitlement',* t.42. Leeds: York Consulting.

[107] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,* t.30. Wellington, Seland Newydd: Careers Services.

[108] Segal Quince Wicksteed (2003). *Evaluation of the All Age Guidance Pilots,* t.50. Caeredin: SSQW.

[109] Leitch Review of Skills (2006). *Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills,* t.107. Llundain: Stationery Office.

[110] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,*t.30-31. Wellington, Seland Newydd: Careers Services.

[111] Nododd yr adolygiad o Careers Scotland fod swyddfeydd lleol weithiau'n teimlo na ddylent ymgymryd â'u gweithgareddau marchnata eu hunain ar lefel leol, er cryn botensial marchnata o'r fath. Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential,* t.15. Glasgow: Careers Scotland.

[112] Gilson, P. (2008). *Adroddiad Llinell Gymorth Learndirect (Llinell Cyngor Dysgu) 2007-2008.* Caerdydd: Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro

Learndirect i’r Cyngor Dysgu a Sgiliau; ac o 2010 caiff ei drosglwyddo eto i’r Asiantaeth Ariannu Sgiliau, lle daw yn rhan o’r gwasanaeth gyrfa a hybu oedolion newydd o dan frand nad yw’n bendant eto (bydd yr ymchwil brand er mwyn penderfynu ar hunaniaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gomisiynu ym mis Rhagfyr 2008, a chaiff yr hunaniaeth newydd ei chyflwyno yn ystod 2009/10)[113].

2.63 Hyd yn hyn. Mae’r gweinyddiaethau datganoledig wedi cael gwybod am y penderfyniadau hyn yn hytrach na chael eu hymgynghori’n weithredol wrth eu creu. Mae’r symud o Leardirect i’r Gwasanaeth Cyfarwyddyd Gyrfa wedi dod â brand y llinell gymorth yn agosach at un Gyrfa Cymru, ond mae’r ddau’n dal i fod yn wahanol. Defnyddir y ddau logo ar y cyd ar ddeunyddiau hyrwyddo perthnasol, a chaiff ymholiadau ffôn eu hateb fel ‘Cyngor Dysgu a Gyrfa’ yn hytrach na ‘Gyrfa Cymru’.

2.64 Ymddengys fod achos cryf dros gynnal trafodaethau rhwng llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch dichonoldeb cydweithio parhaus ar gyd-strategaeth marchnata’r DU gyfan, sy’n gysylltiedig â brandio wedi’u cydlynu. Er enghraifft, pe bai’r gwasanaeth gyrfa a hybu oedolion newydd yn Lloegr yn cael ei frandio fel Careers England (i bob pwrpas yn ‘prynu’ y teitl oddi wrth y sefydliad presennol o’r enw hwnnw), a phe bai’r Gwasanaeth Gyrfa yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei frandio fel Careers Northern Ireland, byddai’n caniatáu gwasanaethau’r DU gyfan i gael eu brandio gyda’i gilydd fel Careers UK, gyda brandiau cyson â chysylltiad cryf i bob un o’r gwledydd cartref. Byddwn yn dychwelyd i’r materion hyn ym mhara.4.57.

2.65 Ar hyn o bryd, mae’n werth nodi, tra bo’r strategaeth farchnata’n gweithio’n ddigonol yn strwythur presennol Gyrfa Cymru, dadleir bod angen dull mwy uchelgeisiol ac wedi’i gydlynu’n well os yw Cymru am ymateb i’r her a fynegwyd mewn cynnig a basiwyd yn 2004 gan Gyngor o Weinidogion Addysg yr Undeb Ewropeaidd ynghylch cyfarwyddyd. Roedd hyn yn datgan bod: “angen i wasanaethau fod ar gael ar adegau ac ar ffurfiau a fydd yn annog dinasyddion i ddatblygu eu sgiliau a’u cymhwysedd drwy gydol eu bywydau, sy’n gysylltiedig ag anghenion cyfnewidiol yn y farchnad lafur.’ Ychwanegodd: “Mae angen edrych ar y gwasanaethau hyn fel offeryn gweithredol, a dylid annog unigolion i’w defnyddio’[114]. Mae hyn wrth gwrs yn codi materion pwysig ynghylch sut y gellir bodloni galw o’r fath, unwaith y daw i’r golwg.

## Casgliad

2.66 Cymerwyd camau i ddatblygu mwy o gydlyniad a chysondeb wrth gynllunio a chyflwyno’r gwasanaeth, ac wrth sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar ffurfiau aml-sianel. Serch hynny mae gwaith i’w wneud o hyd i integreiddio sianelau, fel bod pob un yn darparu porthol amgen at ystod integredig o wasanaethau. Mae angen sylw strategol hefyd er mwyn galluogi i’r e-bortffolios yn Gyrfa Cymru Ar-Lein gael eu

---

[113] Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (2008). *Shaping the Future – a New Adult Advancement and Careers Service for England,* t.9, 12, 17. Llundain: DIUS.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2004). *Penderfyniad 9286/04 EDUC 109 SOC 234*. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

defnyddio gan fwy o oedolion yn ogystal â phobl ifanc, fel offeryn ar gyfer datblygu gyrfa gydol oes. Ynghyd â hyn, mae angen gwneud mwy o waith systematig ar ddarparu gwasanaethau gwahaniaethol, fel sail ar gyfer cynllunio strategol ac ailgynllunio gwasanaethau. Yna, yn sgil hyn, bydd yn bosibl datblygu strategaethau ar gyfer marchnata gwasanaethau mewn modd mwy gweithredol.

# 3. Gwella Perfformiad

## Ansawdd

3.1 Nododd adolygiad OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) nifer o heriau i lunwyr polisi sydd wedi cael y sylw lleiaf yn y rhan fwyaf o wledydd OECD[115]. Roedd nifer o'r rhain yn ymwneud â materion ansawdd:

- Sicrhau mwy o amrywiaeth o ran y mathau o wasanaethau sydd ar gael a'r ffyrdd y cânt eu darparu, gan gynnwys mwy o amrywiaeth o ran strwythurau staffio.
- Gan weithio'n agos gydag ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfa er mwyn ffurfio natur addysg gychwynnol a phellach a chymwysterau hyfforddi er mwyn cefnogi datblygiad sgiliau hunanreoli gyrfa, gwell wybodaeth gyrfa, a darparu gwasanaethau mwy amrywiol.
- Datblygu gwell fecanweithiau sicrhau ansawdd a chysylltu'r rhain ag ariannu gwasanaethau.
- Gwella'r sylfaen wybodaeth ar gyfer creu polisïau yn gyhoeddus, gan gynnwys casglu data gwell ar yr adnoddau ariannol a dynol a neilltuir i gyfarwyddyd gyrfa, ar angen a gofynion cleientiaid, ar nodweddion cleientiaid, ar foddhad cleientiaid, ac ar ganlyniadau a chost-effeithiolrwydd cyfarwyddyd gyrfa.

Mae Gyrfa Cymru wedi cymryd camau mawr er mwyn mynd i'r afael â phob un o'r heriau hyn. Serch hynny, mae gwaith i'w wneud o hyd gyda rhai ohonynt.

### Staffio

Cyfanswm staff y cwmni a oedd yn ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Gyrfa yng Nghymru ym mis Mawrth 2001 oedd 400 cyfwerth ag amser llawn[116]. Wrth sefydlu Gyrfa Cymru, a chyfuno gweithgareddau TEC amrywiol a chwmnïau gyrfa, cynyddodd hyn i 1,102 yn 2004/05. Ers hynny, mae niferoedd cyffredinol y staff wedi disgyn i 1,004 yn 2007/08, yn rhannol oherwydd diwedd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Porth Ieuenctid. Ond cynyddodd nifer y cynghorwyr gyrfa sy'n gymwysedig hyd at Lefel 4 o 352 i 366 c.a.ll. yn ystod yr un cyfnod; sicrhawyd arbedion drwy golli o 30 o staff rheoli a chorfforaethol (c.a.ll.), ac felly'n cynyddu cyfran y staff darparu fel canran o gyfanswm y staff o 68.7% i 69.3%[117].

---

[115] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap*, t.148. Paris: Organisation for Economic Co-operation and Development.
[116] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001). *Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Gyrfa yng Nghymru, 2000-2001,* t.5. Caerdydd: LlCC.
[117] Darparwyd y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.

3.3 Fel arfer caiff staff sy'n gweithio mewn canolfannau gyrfa ac ar y llinell gymorth eu hyfforddi i ddelio â chysylltiadau cychwynnol ar sail bob oed. Mae cynghorydd gyrfa'n dueddol o weithio'n bennaf gyda naill ai pobl ifanc neu oedolion, yn enwedig yn achos y rhai mewn ysgolion. Mae'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu'r Porth Ieuenctid yn dueddol o arbenigo yn y gwaith hwn, er y cânt eu hyfforddi hefyd mewn cyfarwyddyd gyrfa: mewn geiriau eraill, ystyrir eu rôl fel arbenigedd yn y maes cyfarwyddyd gyrfa. Yn achos y rhai sy'n gweithio gyda'r grŵp NEET, mae hyn yn cyferbynnu'n amlwg â'r polisi a fabwysiadwyd yn Lloegr lle, o dan Connexions, cafodd pob cynghorydd gyrfa sy'n gweithio gyda phobl ifanc ei integreiddio i'r hyn a alwyd yn 'broffesiwn newydd' o gynghorwyr personol, llawer ohonynt heb gymwysterau cyfarwyddyd gyrfa penodol[118].

3.4 Serch hynny, ni chaiff staff sy'n gwneud gwaith cysylltiadau addysg-busnes eu hyfforddi mewn cyfarwyddyd gyrfa o'r rheidrwydd. Cydnabyddir bod eu gwaith fel swyddogion cyswllt cyflogwyr yn gofyn am gyfres o sgiliau penodol yn ymwneud â thrafod, ymgynghori a threfnu. Nododd Adroddiad York Consulting yn 2007 fod hwn yn faes lle'r oedd angen darpariaeth bellach er mwyn datblygu staff[119].

3.5 Mae rhai pethau sy'n gorgyffwrdd rhwng y rolau amrywiol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cynghorwyr anghenion arbennig yn helpu cynghorwyr cyfarwyddyd i oedolion sy'n gweithio gydag oedolion â phroblemau iechyd meddwl. Mae hefyd cyfle ar gyfer datblygu mewn gyrfa, lle mae staff yn symud rhwng gwahanol grwpiau oedran a grwpiau targed. Yn y cyswllt hwn mae hydrinedd y gweithlu'n bwysig er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaeth gyfnewidiol gwasanaethau.

3.6 Un amod yng nghontract y Cynulliad yw y dylai gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfa gael eu darparu gan staff sy'n meddu ar NVQ Lefel 4 mewn cyfarwyddyd neu staff sy'n gweithio tuag ato. Mae angen i staff cymorth, gan gynnwys cynghorwyr y llinell gymorth dros y ffôn, feddu ar NVQ Lefel 3 mewn cyfarwyddyd neu fod yn gweithio tuag ato.

3.7 Y prif gymhwyster proffesiynol yn y maes cyfarwyddyd yw'r Cymhwyster mewn Cyfarwyddyd Gyrfa (QCG). Mae hyn yn darparu sylfaen gryfach mewn theori na'r NVQ, ond mae wedi gadael rhai diffygion y bu'n rhaid i gwmnïau Gyrfa Cymru eu llenwi wrth ddarparu eu hyfforddiant eu hunain. Er enghraifft, arweiniodd integreiddio'r Gwasanaeth Gyrfa i Connexions yn Lloegr at wanhau'r sylw a roddai llawer o gyrsiau o'r fath i faterion y farchnad lafur. Ystyrir hefyd bod y cyrsiau hyn yn rhoi sylw'n bennaf i anghenion pobl ifanc. Weithiau hefyd, ni aethpwyd i'r afael yn ddigonol â materion anghenion arbennig.

3.8 Ar hyn o bryd dim ond cwrs QCG sydd yng Nghymru: ym Mhrifysgol Morgannwg. Er, mae'r cysylltiadau rhwng y rhai sy'n cynnal y cwrs a Gyrfa Cymru wedi bod rhywfaint yn wan. Roedd papur gan ddau aelod o staff y cwrs yn nodi bod angen i'w hyfforddwyr

---

118 Watts, A.G. (2001). Career guidance and social exclusion: a cautionary tale. *British Journal of Guidance and Counselling, 29(2),* 157-176 (gweler t.166).

119 York Consulting (2007). *An Initial Study to Redefine the Careers Wales Contribution to 'Learning Pathways 14-19' and 'Extending Entitlement',* t.41. Leeds: York Consulting.

‘fod yn fwy cyfarwydd â darparu gwasanaethau, nid yn unig er mwyn paratoi newydd ddyfodiaid yn well, ond hefyd er mwyn cynyddu gwybodaeth am gyfarwyddyd y cynghorwyr a hyfforddir yn y cwmni ac er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus’[120]. Er enghraifft, dim ond rhyngweithio hwyr a fu o ran Safonau Cyfarwyddyd Gyrfa Cymru (gweler para.2.5-2.6). Mae hefyd yn berthnasol nad yw’r cwrs yn bodloni anghenion cwmnïau gyrfa Gogledd Cymru, oherwydd y pellter daearyddol ac oherwydd nad oes unrhyw addysgu yn yr iaith Gymraeg. Yn ddiweddar, bu rhai trafodaethau cychwynnol gyda chwmnïau Gyrfa Cymru ynghylch yr angen i edrych, ar y cyd â sefydliadau addysg uwch lleol, ar y posibilrwydd o ddatblygu cyd-raglenni hyfforddiant sy’n bodloni anghenion cwmnïau’n well. Gellir rhoi sylw buddiol mewn trafodaethau o’r fath sydd wedi digwydd yn Yr Alban, lle datblygwyd rhaglenni hyfforddiant newydd, sy’n gysylltiedig â chymwysterau lefel meistr, gan dair prifysgol ar y cyd â Careers Scotland[121].

3.9 Yn fwy bras, mae camau ar waith i fynd i’r afael â mater safonau proffesiynol ar sail y DU gyfan, er mwyn hwyluso symudedd staff cymwysedig yn y DU. Mae Dysgu Gydol Oes y DU (LLUK), y cyngor sgiliau sector ar gyfer y sector dysgu gydol oes, wedi bod yn ystyried cynnwys cyflogwyr sy’n arbenigo mewn cyfarwyddyd gyrfa yn ei ôl troed. Y prif anhawster fu tra bo’r gwasanaethau gyrfa pob oed yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon a’r gwasanaethau i oedolion yn Lloegr, yn amlwg yn disgyn i ôl troed Dysgu Gydol Oes y DU, ystyrir bod gwasanaethau ieuenctid yn Lloegr (sy’n ffurfio rhan fwyaf y system) yn disgyn i ôl troed Cyngor Datblygu’r Gweithlu Plant. Erbyn hyn cytunwyd y caiff y gwaith ei arwain gan Dysgu Gydol Oes y DU er mwyn edrych ar y fframwaith cymwysterau a’r trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cynghorwyr gyrfa, a chaiff ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2009[122].

3.10 Yn y cyfamser, yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn bod hyd yn oed y rhai sy’n meddu ar y QCG yn cyrraedd NVQ Lefel 4 (nid yw hyn yn ofynnol yn rhannau eraill y DU). Felly, mae’n rhaid i gwmnïau Gyrfa Cymru ymroi lefel fawr o adnoddau ar gyfer darparu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys llwyth gwaith llai i’r rhai sy’n hyfforddi, yn ogystal â’r amser y mae’n rhaid i uwch staff dreulio ar asesu (sy’n cyfateb i oddeutu diwrnod y mis i bob un sy’n hyfforddi)[123]. Gwnaeth adroddiad Estyn yn 2004 nifer o sylwadau beirniadol ynghylch swm ac ansawdd y cymorth hwn, gan gynnwys peidio â threulio digon o amser yn ‘datblygu cynghorwyr dan hyfforddiant’ gan danategu gwybodaeth am yr egwyddorion allweddol a chysyniadau cyfarwyddyd

---

[120] Clark, M. & Talbot, J. (2006). Career guidance in Wales: retrospect and prospect. *British Journal of Guidance and Counselling, 34(1),* 55-71 (gweler t.69).

[121] Roedd cwmnïau Gyrfa Cymru, gyda with Careers Scotland, yn rhan o’r prosiect gwreiddiol i ddatblygi’r rhaglenni newydd hyn. Tynnodd y cwmnïau yn ôl pan drodd cymwysterau’n ddyfarniadau gan ddarparwyr addysg uwch heb ymrwymiad uniongyrchol â chyflogwyr, hefyd barnwyd bod costau’r rhaglenni’n eithafol.

[122] Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (2008). *Shaping the Future - a New Adult Advancement and Careers Service for England,* t.12. Llundain: Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau. Mae’r adroddiad yn nodi y bydd yr adolygiad ‘yn gwneud argymhellion sy’n amlygu’r gwahaniaethu rhwng anghenion y sector ieuenctid yn Lloegr a’r cynnig gyrfa cyfunol a gynigir yn rhannau eraill y DU’ (ibid., t.14).

[123] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,*t.41. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

pwysig'[124]. Yn sgil hynny mae datblygu Safonau Cyfarwyddyd Gyrfa Cymru (gweler para.2.5-2.6) wedi cynhyrchu rhai gwelliannau yn hynny o beth.

3.11 Mae'r mater o hyfforddiant rheoli ac arwain hefyd yn bwysig. Yn 2004 sylwodd Estyn ar ansawdd anghyson arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cwmnïau gyrfa ledled Cymru[125], a hefyd ar rywfaint o annigonolrwydd yn y cymorth datblygiad staff yn y meysydd hyn[126]. Dyma faes sy'n galw am sylw pellach, yn enwedig yng ngoleuni rhai o'r argymhellion a wneir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn. Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod rôl gyfunol uwch dîm rheoli Gwasanaethau Gyrfa Seland Newydd wedi cael ei ail-gyfeiriadu er mwyn canolbwyntio'n fwy ar arweinyddiaeth strategol drefniadaethol[127], gan roi sylw llawer yn fwy i wella eu cymwysterau rheoli ac arwain.

**Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad**

3.12 Mae'r Cyfarwyddyd Cynllunio ar gyfer 2008/09 yn nodi bod yn rhaid i Gyrfa Cymru nodi ei ddull o sicrhau bod 'y gwasanaethau a ddarperir i grwpiau cleientiaid yn y cynllun busnes yn cyrraedd y safonau ansawdd a gytunwyd ac yn destun y prosesau gwelliant parhaus'. Dylai hyn gynnwys ennill y statws Buddsoddwyr mewn Pobl (mae pob cwmni wedi gwneud hyn); mae CharterMark yn ddewisol ond caiff ei argymell. Dylai hefyd gynnwys rhagor o ddatblygu, mireinio a sicrhau cysondeb ymhlith y gwasanaethau yn unol ag argymhellion a wnaethpwyd gan Estyn drwy'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a thrwy arolygon thematig, a gyda'r canfyddiadau o'r gwaith ar feincnodi ansawdd, dangosyddion perfformiad, ac asesu effaith[128].

3.13 Caiff ansawdd perfformiad, ac effaith ar gyflawniad dysgwyr eu barnu drwy **arolygiaeth** annibynnol (Estyn). Mae ei ganllawiau ar arolygu cwmniau gyrfa[129] wedi'u seilio ar ei Fframwaith Arolygu Cyffredin[130]. Cynhelir ei arolygiadau gan dîm o arolygwyr, ac mae pob arolygiad yn cynnwys arsylwi tua chan cyfweliad un-i-un a 20-25 sesiwn grŵp.

3.14 Mae adroddiadau Estyn ar gwmnïau Gyrfa Cymru wedi bod yn gadarnhaol iawn gan fwyaf. Mae rhai wedi bod yn wych; mae'r gweddill wedi bod yn foddhaol, nid oes unrhyw rai wedi bod yn anfoddhaol. Mae'r adroddiadau'n cynnwys sgôr mewn saith maen prawf ar raddfa o 1 i 5; 1 yw 'da gyda nodweddion eithriadol'; 2 yw 'nodweddion da heb unrhyw feiau pwysig'; 3 yw 'nodweddion da sy'n gorbwyso'r beiau'; 4 yw 'rhai nodweddion da ond beiau mewn meysydd pwysig'' 5 'nifer o feiau pwysig'. Rhoes adroddiad yn 2007 6 gradd 1 ac un gradd 2 i Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin[131]. Ar y

[124] Estyn (2004). *Arolwg o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn Gyrfa Cymru,* t.2. Caerdydd: Estyn.
[125] Estyn (2004). *Mesur Cynnydd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru,* t.3. Caerdydd: Estyn.
[126] Estyn (2004). *Arolwg o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn Gyrfa Cymru,* t.10-11. Caerdydd: Estyn.
[127] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,* t.32. Wellington, Seland Newydd: Gwasanaethau Gyrfa.
[128] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Gyrfa Cymru: Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-2009,* t.6. Caerdydd: LlCC.
[129] Estyn (2007). *Canllawiau ar Arolygiad o Gwmnïau Gyrfa.* Caerdydd: Estyn.
[130] Estyn (n.d.). *Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn.
[131] Estyn (2007). *Adroddiad ar Ansawdd Gwasanaethau Gyrfa yn Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin.* Caerdydd: Estyn.

llaw arall, rhoes adroddiad ar Gyrfa Cymru Gwent yn 2006 iddo un gradd 2, pum gradd 3, ac un gradd 4[132], tra rhoes adroddiad yn 2005 ar Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain, saith gradd 3 iddo[133]. Ond ychydig iawn o 4 sydd wedi'u cofnodi, a dim un gradd 5.

3.15 Mae Estyn hefyd wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau thematig. Roedd enghraifft gynnar (2001) yn ymwneud â gwaith Blynyddoedd 8-10[134]; roedd rhai eraill yn ymwneud â chefnogi trawsnewid i gyflogaeth (2003)[135], cysylltiadau addysg-busnes (2003)[136], a systemau rheoli ansawdd (2005)[137]. Roedd adroddiad mwy diweddar ar stereoteipio ar sail rhyw (2007) yn nodi enghreifftiau o arfer da, ond yn nodi nad oedd y cwmnïau gyrfa yn gweithio gyda'i gilydd digon er mwyn rhannu'r arfer da hwn ac adeiladu arno nac er mwyn datblygu dull strategol Cymru gyfan o herio'r stereoteipio ar sail rhyw[138]. Roedd adroddiad arall diweddar, ar Gyrfa Cymru Ar-Lein (2006), yn gadarnhaol ar y cyfan[139].

3.16 Yn nhermau **allbynnau**, adroddodd cwmnïau Gyrfa Cymru 314,651 o ryngweithiadau wyneb yn wyneb yn 2004/05 a 327,535, yn 2007/08, cynnydd o 4.1%. Os caiff yr oriau y defnyddiwyd Gyrfa Cymru Ar-Lein eu cynnwys, mae'r ffigyrau'n newid o 316,101 awr uned gyfarwyddyd yn 2004/05, i 356,556 yn 2007/08, cynnydd o 12.8%[140]. Mae'r ddwy set yn fwy na tharged *Creu'r Cysylltiadau* o gynnydd o 1% blwyddyn ar flwyddyn (gweler para.1.12).

3.17 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau[141] wedi pwysleisio bod angen i gwmnïau Gyrfa Cymru roi mwy o sylw i fesur **canlyniadau**. O ganlyniad cafwyd cyfres o astudiaethau dilynol.

3.18 Cynhaliwyd yr astudiaeth gwerthuso effaith fawr gyntaf ar Gyrfa Cymru ar y cyd â'r Canolfan ar gyfer Astudiaethau Cyfarwyddyd ym Mhrifysgol Derby yn 2005, gan ddilyn 1,000 o gleientiaid sy'n oedolion dri a chwe mis ar ôl eu cyfweliadau cyfarwyddyd. Roedd y mwyafrif yn nodi, yn dilyn eu cyfweliad cyfarwyddyd, eu bod yn teimlo'n fwy clir am eu cynlluniau gyrfa, wedi cymryd camau i gyflawni eu cynlluniau, ac wedi profi newid i'w bywyd o ran eu gyrfa lle bu'r cyfarwyddyd yn brif ffactor neu'n

---

[132] Estyn (2006). *Adroddiad ar y Gwasanaethau Gyrfa yng Nghymru yn Gyrfa Cymru Gwent.* Caerdydd: Estyn.

[133] Estyn (2005). *Adroddiad ar y Gwasnaethau Gyrfa yng Ngymru yn Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain.* Caerdydd: Estyn.

[134] Estyn (2001). *Arolwg o Waith y Cwmnïau Gyrfa ym Mlynyddoedd 8, 9 a 10 yng Ngymru* Caerdydd: Estyn.

[135] Estyn (2003). *Effeithiolrwydd Cwmnïau Gyrfa Cymru wrth Gefnogi Pobl Ifanc i Wneud Trawsnewid Llwyddiannus o Addysg i Gyflogaeth.* Caerdydd: Estyn.

[136] Estyn (2003). *Adroddiad Arolygu: Effaith Gyrfa Cymru ar Hyrwyddo Cysylltiadau Addysg Busnes.* Caerdydd: Estyn.

[137] Estyn (2005). *Systemau Rheoli Ansawdd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru.* Caerdydd: Estyn.

[138] Estyn (2007). *Arfer dda mewn Sut y Mae Cwmnïau Gyrfa Cymru'n Herio Stereoteipio.* Caerdydd: Estyn.

[139] Estyn (2006). *Adroddiad ar Gynnydd ac Effeithiolrwydd Gyrfa Cymru Ar-lein.* Caerdydd: Estyn.

[140] Darparwyd y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.

[141] Gan gynnwys: Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru - Adroddiad Terfynol,* t.33-34, 40, 57-58. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Estyn (2005). *Systemau Rheoli Ansawdd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru,* t.3. Caerdydd. York Consulting (2007). *An Initial Study to Redefine the Careers Wales Contribution to 'Learning Pathways 14-19' and 'Extending Entitlement',* t.40. Leeds: York Consulting. Webb, A., Drury, S. & Griffiths, G. (2007). *Addewid a Pherfformia: yr Adroddiad ar Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng Nghyd-destun y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,*t.90. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

ffactor a gyfrannodd at y newid. Roeddent hefyd yn adrodd canlyniadau 'mwy meddal' i'r cyfweliad, yn nhermau rhoi hyder, anogaeth, ymdeimlad o bwrpas, a mwy o ffocws[142].

3.19 Yn fwy diweddar, comisiynwyd Beaufort Research i gynnal Arolwg Dangosyddion Perfformiad ar gleientiaid sy'n oedolion yn 2007, ac eto yn 2008. Roedd y cyntaf o'r rhain, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2007, yn dilyn 600 o gleientiaid sy'n oedolion (100 o bob un o'r chwe chwmni) a oedd wedi derbyn cyfweliad cyfarwyddyd rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2006. Y canran a oedd yn teimlo bod eu cyfweliad cyfarwyddyd wedi helpu goleuo eu penderfyniadau ynghylch opsiynau gyrfa a dysgu oedd 88%, gan gynnwys 36% a oedd wedi dweud ei fod wedi'u helpu'n 'fawr', 36% 'rhywfaint' a 16% 'ychydig'. Roedd canran y rhai a oedd yn ddi-waith bron wedi haneru (o 47% i 27%), ac roedd y rhan fwyaf wedi cymryd camau cadarnhaol ers y cyfweliad - gan gynnwys 36% a oedd wedi cychwyn ar swydd newydd, 34% a oedd wedi gwneud cais am swydd, a 26% a oedd wedi cael cyfweliad am swydd (dim ond 9% oedd heb wneud dim)[143]. Canlyniadau gweddol debyg, gyda rhai gwelliannau, a gafwyd yn arolwg 2008: roedd y ganran a ddywedodd fod y cyfweliad wedi'u helpu'n 'fawr', er enghraifft, wedi codi o 36% i 44%; ac roedd y ffigyrau ar y mesur hwn yn gyson ar draws y cwmnïau[144].

3.20 Defnyddiwyd dull eithaf tebyg gan Beaufort Research wrth ymwneud â phobl ifanc. Yn Ionawr-Chwefror 2007 cynhaliasant gyflweliad dros y ffôn â 3,000 o bobl ifanc a oedd wedi derbyn cyfweliad cyfarwyddyd rhwng mis Medi 2006 a mis Mai 2007 - 500 ymhob ardal cwmni Gyrfa Cymru. Roedd 87% wedi cael canlyniad cadarnhaol, a 95% wedi sôn bod eu cyfweliad wedi helpu llywio eu penderfyniadau ynghylch dewisiadau am yrfa a dysgu: 35% 'yn fawr', 43% 'rhywfaint', ac 16% 'ychydig'[145].

3.21 Lleisiodd Moulson & Prail yr angen am **ddangosyddion perfformiad,** yn gysylltiedig â galw am **feincnodi traws-gwmni**[146]**.** Ar ôl astudiaeth gan York Consulting yn 2005[147], mabwysiadwyd chwe dangosydd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf:

- Canran y cleientiaid blwyddyn 11 sy'n trawsnewid yn gadarnhaol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Canran y cleientiaid blwyddyn 11 sy'n dweud bod eu cyfweliad(au) cyfarwyddyd Cyfnod Allweddol 4 gyda chynghorwyr gyrfa Cymru wedi helpu llywio eu trawsnewid i addysg ôl-16, cyflogaeth neu hyfforddiant.

---

[142] Reed, K., Mahony, K. & Gration, G. (2005). *Career Guidance for Adults in Wales – Making a Difference*. Derby: Centre for Guidance Studies, University of Derby.
[143] Beaufort Research (2007). *Careers Wales: Performance Indicator Survey Adult Clients Report March 2007.* Caerdydd: Beaufort Research.
[144] Beaufort Research (2008). *Careers Wales: Performance Indicator Survey Adult Clients Report March 2008.* Caerdydd: Beaufort Research.
[145] Beaufort Research (2008). *Careers Wales: Performance Indicator Survey Young People Report March 2008.* Caerdydd: Beaufort Research.
[146] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru - Adroddiad Terfynol* t.18, 28-30. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gweler hefyd Estyn (2004). *Mesur Cynnydd yng Nghwmnïau Gyrfa Cymru,* t.33, 37-38. Caerdydd: Estyn.
[147] York Consulting (2005). *Careers Wales: Performance Indictors – Final Report*. Leeds: York Consulting.

- Canran y bobl ifanc ym mlynyddoedd 11/12/13/14 sydd â Datganiad AAA (neu '3 seren' lle mae hyn yn bodoli, neu 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy'), ac sy'n ymwneud â rhaglen gynllunio drawsnewidiol addysgol ac adolygiadau blynyddol, sy'n cyrraedd cyrchfan cadarnhaol.
- Canran y cleientiaid Porth Ieuenctid ô-16 sy'n cael canlyniad cadarnhaol cychwynnol ymhen pedwar mis o ddechrau'r rhaglen.
- Canran y defnyddwyr cofrestredig Gyrfa Cymru Ar-lein sy'n nodi ei fod wedi'u helpu i wneud penderfyniadau yn ymwneud â gyrfa a dysgu.
- Canran yr oedolion sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch gyrfa a dysgu o ganlyniad i gyfarwyddyd a gafwyd gan Gyrfa Cymru.

Dangosodd adolygiad o'r canlyniadau ar gyfer 2007 a 2008 lefel uchel o berfformiad ar yr holl ddangosyddion hyn[148]. Hefyd, dangosodd lefel gymharol gyson o berfformiad ar draws y cwmnïau.

3.22 Mae'r astudiaethau hyn yn cynrychioli lefel nodedig o fuddsoddiad mewn mesur canlyniadau – sy'n gymharol â'r arfer gorau'n rhyngwladol – a lefelau nodedig o berfformiad. Gellir dadlau y gallai mesurau perfformio mwy ymdrechgar fod yn gysylltiedig â dilyn cleientiaid am gyfnodau hirach. Byddai hyn yn arddangos effeithiau a chynaliadwyedd eu penderfyniadau – fel y'u mesurir, er enghraifft, gan y lefelau'n sy'n rhoi'r gorau i gyrsiau addysg bellach ac uwch. Byddai, wrth gwrs, yn golygu costau ychwanegol, ond efallai y byddai'r rhain yn cael eu gostwng wrth gynnal cyswllt dilynol bob tair blynedd yn hytrach na phob blwyddyn.

3.23 Cafodd galw gan Moulson & Prail am ragor o feincnodi traws-gwmni ei estyn i ymwneud â 'gwerth y staff am arian': ar hyn, ymddengys fod cynnydd wedi bod yn fwy cyfyngedig. Dangosodd dadansoddiad o gwmnïau yn ôl eu dyraniad cyllideb a'u dyraniad darpariaeth fod y cwmni mwyaf (Gyrfa Cymru Gorllewin) ynghyd â Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol (cyn iddo uno â Phowys) wedi darparu cyfran lawer yn uwch o weithgarwch Cymru gyfan yn 2004/05 na'u cyfran o'r cyllid Cymru gyfan, tra bo'r pedwar cwmni wedi tanberfformio yn hyn o beth. Erbyn 2007/08, roedd y gwahaniaethau wedi culhau, a thra bod Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys (wedi'u huno erbyn hyn) wedi gor-berfformio o ran y maen prawf hwn o hyd, nid felly yr oedd i Gyrfa Cymru Gorllewin[149].

3.24 Rhan o'r rhesymeg dros ddatblygu **sylfaen dystiolaeth** gryfach, a fynegwyd yn benodol yn y Cyfarwyddyd Cynllunio ar gyfer 2006/07, yw er mwyn 'gosod y sylfaen ar gyfer creu'r achos dros lefelau buddsoddiad yn y dyfodol.' Ychwanegodd y ddogfen: 'Datblygu casgliadau cadarn o'r mentrau meincnodi a gwerthuso, ynghyd â chreu cysylltiadau adeiladol gyda sefydliadau a chyrff yn ymwneud ag ymchwilio canlyniadau

[148] Cymdeithas Gyrfa Cymru (2008). Ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio dros Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.15-16. Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.
[149] Darperir y data gan Gangen Polisi Gyrfa APADGOS.

ac effaith gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa, yn ganolog i sylfaen dystiolaeth gredadwy'[150].

3.25 Mynegwyd yr angen am sylfaen dystiolaeth gryfach yn nhermau ehangach gan Moulson & Prail, a nododd 'absenoldeb y gallu i lywio'r Cynulliad wrth greu polisi ym maes gyrfa'. Ychwanegasant fod 'yr union ffaith fod Cymru ar flaen y gad, neu'n agos at y blaen, yn rhyngwladol yn nhermau datblygu gwasanaethau pob oed a gwerth ychwanegol, yn rhoi pwysau i greu safle cryf o ran polisi er mwyn cefnogi'r hyn sy'n digwydd'. Felly, ei argymhelliad oedd y dylai Gyrfa Cymru 'gael ei annog i wneud cynigion ar gyfer y modd y gallai ddarparu gallu ymchwil i'r Cynulliad...o safbwynt annibynnol, gan ddefnyddio sylfaen wybodaeth o ymarferion gyrfa ledled y byd ac mewn ffordd a fyddai'n defnyddio sylfaen gwybodaeth Gyrfa Cymru mewn modd effeithiol'[151]. Awgrymodd York Consulting y dylid dod â gweithgareddau ymchwil 'Gyrfa Cymru' at ei gilydd, ac adeiladu arnynt, er mwyn ei alluogi i ddangos tystiolaeth lawnach o effaith ei waith', a byddai hyn yn cael ei 'hwyluso drwy greu rôl ymchwil ganolog yn Gyrfa Cymru lle gallai ei waith fwydo polisi, cynllunio a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth'[152].

3.26 Mae gan ddau o'r cwmnïau gyrfa swyddogion ymchwil, ond ni fuddsoddwyd o gwbl mewn cymhwysedd ymchwil cyfunol. Ymddengys fod hwn yn gyfle a gollwyd; mae Gyrfa Cymru'n sefydliad â chyfoeth o wybodaeth, ond nid yw'r wybodaeth yn cael ei harneisio. Mae rhywfaint o bryder y gall datblygu rôl o'r fath newid natur y berthynas â'r Cynulliad (a fydd o bosibl am dawelu lleisiau beirniadol), yn enwedig os byddai'n gysylltiedig â rolau eirioli/adborth (gweler para.1.18 uchod). Ond os caiff ei reoli'n broffesiynol, byddai'n debygol o wella awdurdod Gyrfa Cymru'n sylweddol ym maes polisi a'r gymuned ehangach.

3.27 Agwedd olaf o ansawdd yw **cynnwys cwsmeriaid mewn cynllunio'r gwasanaeth.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad i gynnwys plant a phobl ifanc 0-25 oed ym mhob agwedd o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Felly, nodwyd y byddai'n 'disgwyl i blant a phobl ifanc i gymryd rhan weithredol mewn gosod y rhannau hynny o unrhyw gontract darparu gwasanaeth yn y dyfodol sy'n ymwneud â darpariaeth cyngor i bobl 0-25 oed, ac iddo fod yn amod yn y contract fod plant a phobl ifanc yn chwarae rhan weithgar mewn cynllunio, gwerthuso ac adolygu darpariaeth y gwasanaeth drwy gydol hyd y contract yn unol â'r safonau cenedlaethol fel rhan brif ffrwd gweithgarwch y dyfodol'[153].

3.28 Nododd arolwg y Ddraig Ffynci, a symbylwyd gan yr ymrwymiad hwn, y dywedodd 48% o sampl o bobl ifanc eu bod wedi derbyn 'eitha lot' neu 'lwyth' o gyngor a gwybodaeth am eu hopsiynau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol, tra dywedodd 34% eu bod

---

[150] Gyrfa Cymru a Llywodraeth y Cynulliad (2006). *Cyfarwyddyd Cynllunio 2006-2007,* p.9. Caerdydd: LlCC.
[151] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.5, 59. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
[152] York Consulting (2007). *An Initial Study to Redefine the Careers Wales Contribution to 'Learning Pathways 14-19' and 'Extending Entitlement'*, t.43. Leeds: York Consulting.
[153] Papur a baratowyd gan APDAGOS ar gyfer yr adolygiad presennol o wasanaethau gyrfa yng Nghymru, ar 'Materion yn Ymwneud ag Agenda Hawliau a Hawliau Plant a Phobl Ifanc LlCC'

wedi derbyn ‘ddim lot’ neu ‘ddim’. Tra nad yw’r data’n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau a ddarperir gan Gyrfa Cymru neu gan yr ysgol neu goleg, mae’r ffigwr olaf yn syndod wrth ystyried y graddau y darperir cyfweliad gyrfa Gyrfa Cymru mewn ysgolion neu golegau (gweler para.2.37). Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai pobl ifanc mewn ysgolion gael cynnig ‘gwell ansawdd a lefelau uwch o gyngor gyrfa, a hefyd ‘lleoliadau profiad gwaith mwy perthnasol a defnyddiol’, gan gynnwys ‘bod yn rhan o gynllunio a chanfod lleoliadau profiad gwaith’[154].

3.29 Enghraifft o gynnwys pobl ifanc yn gadarn wrth gynllunio gwasanaethau bu Gyrfa Cymru Ar-Lein (gweler para.2.21). Bu hefyd enghreifftiau yn ymwneud â Phorth Ieuenctid. Yn gyffredinol, ymddengys fod cwmnïau Gyrfa Cymru wedi gwneud cynnydd yn hyn o beth, ond yn llai na sefydliadau sector gwirfoddol er enghraifft[155].

**Casgliad**

3.30 Mae’r sylw i faterion yn ymwneud ag ansawdd yn Gyrfa Cymru yn hynod, ac yn gymharol â’r arfer rhyngwladol gorau. Mae sylw agos wedi’i roi i sicrhau bod ei wasanaethau’n cyrraedd safonau proffesiynol uchel. Mae’r gwaith ar fesur effaith yn arbennig o gryf, a dylid ei gyhoeddi a’i ledaenu’n fwy eang. Gallai hyn gael ei ymochri â datblygu gallu ymchwil cryfach yn Gyrfa Cymru ei hun.

[154] Y Ddraig Ffynci (2007). *Ein Hawliau Ein Stori,* t.35. Caerdydd: Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru
[155] Am ddadansoddiad defnyddiol o rai o’r posibiliadau, gweler Plant, H. (2006). *Involving the Users of Guidance Services in Policy Development.* Caerlŷr: The Guidance Council.

# 4. Gweithio gyda Darparwyr Cyfarwyddyd Gyrfa Eraill

## Egwyddorion

4.1 Yn Adrannau 1-3, mae'r meincnodau sy'n deillio o adolygiad OECD wedi'u cymhwyso i Gyrfa Cymru yn unig. Fodd bynnag, ar y meincnodau sy'n weddill, mae Gyrfa Cymru yn dibynnu'n sylweddol ar ddarparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill ar gyfer eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys tri o nodweddion 'systemau cyfarwyddyd gydol oes' a nodwyd gan OECD[156]:

- Rhaglenni i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa.
- Cyfleoedd i archwilio a chael profiad o ddewisiadau dysgu a gwaith cyn eu dewis.
- Ymgysylltiad rhanddeiliaid perthnasol.

Gellir ond cyflawni'r rhain trwy bartneriaethau effeithiol gyda darpariaeth cyfarwyddyd gyrfa mewn sefydliadau addysg a hyfforddiant ac mewn gweithleoedd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i un o'r heriau i lunwyr polisïau a nodwyd gan OECD[157]:

- Datblygu strwythurau cryfach ar gyfer arweinyddiaeth strategol.

4.2 Yn yr adolygiad cynharach o Careers Scotland, nodwyd ei fod wedi rhoi blaenoriaeth sylweddol i sefydlu cytundebau partneriaeth gyda'r prif ddarparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill yn Yr Alban[158]. Roedd pob un ohonynt yn cymryd un neu fwy o bedair ffurf:

- *Tynnu ffiniau:* dangos i ba ddarparwr y dylai cleientiaid penodol ag anghenion penodol gael eu cyfeirio.
- *Cydweithio:* cydweithio ar dasgau.
- *Gwasanaethu:* darparu gwasanaethau er mwyn gwella'r ddarpariaeth.
- *Meithrin gallu:* gwella gallu'r darparwr i ddarparu gwasanaethau.

Yn achos Seland Newydd, nid oedd gan y gwasanaethau gyrfa bolisi systematig ar gyfer pennu cytundebau partneriaeth tebyg adeg yr adolygiad. Roedd ei berthynas â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill yn gryf ac yn glir mewn rhai sectorau, ond yn wan ac/neu'n aneglur mewn sectorau eraill[159].

---

[156] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap*, t.138. Paris: OECD.
[157] Ibid., t.148.
[158] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential*, Adran 4. Glasgow: Careers Scotland.
[159] Watts, A.G. (2007). *Careers Services: a Review in an International Perspective,* t.39. Wellington, Seland Newydd: Career Services.

4.3 Fel y dangosodd adolygiad OECD, mae sawl mantais i gael strwythur cyfundrefnol ar wahân i ddarparu cyfarwyddyd gyrfa ar sail gydol oes. Fodd bynnag, ei brif anfantais bosibl yw na all ddarparu'r holl gyfarwyddyd gyrfa sydd ei angen, ac y gall ei oruchafiaeth wanhau'r ddarpariaeth mewn man arall[160]. Yr her i Gyrfa Cymru yw sicrhau, yn hytrach na gwanhau unrhyw ddarpariaeth debyg, bod ei fodolaeth yn ei hatgyfnerthu. Gallai pennu cytundebau partneriaeth â'r prif ddarparwyr eraill, lle bo hynny'n bosibl, trwy strwythurau cynrychiadol priodol, fod yn ymagwedd strategol tuag at fynd i'r afael â'r mater hwn.

4.4 Fel sail ar gyfer datblygu strategaeth debyg, caiff y ddarpariaeth bresennol mewn sectorau eraill ei hadolygu'n gryno, ochr yn ochr â darpariaeth Gyrfa Cymru yn y sectorau hyn, a'r berthynas rhwng y ddau fath o ddarpariaeth. Yn eu tro, rhoddir sylw i ysgolion a cholegau, addysg uwch, y Ganolfan Byd Gwaith, y sector gwirfoddol a chymunedol, ac i gyflogwyr ac undebau llafur (gan gynnwys cyfeiriad byr at wasanaethau datblygu gyrfa yn y sector preifat). Mae gan rai o'r sectorau hyn wasanaethau cyfarwyddyd gyrfa a ddarperir gan weithwyr gyrfa proffesiynol; mewn eraill, ceir rhaglenni gyrfa sy'n cael eu rhedeg gan athrawon, rheolwyr, gweithwyr cymunedol a gweithwyr tebyg yn bennaf neu'n gyfan gwbl. Caiff hyn ei ddilyn gan drafodaeth am ymgysylltiad ehangach cwmnïau Gyrfa Cymru â gwaith partneriaeth yn lleol. I gloi, archwilir materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth strategaeth ar draws y maes cyfarwyddyd gyrfa yn ei gyfanrwydd, yng Nghymru a ledled y DU, fel ei gilydd.

## Ysgolion a cholegau

4.5 Fel y nodwyd ym mhara.2.8, mae gan lawer o gynghorwyr gyrfa ganolfannau mewn ysgolion a cholegau: maent hefyd yn cael lle swyddfa yn swyddfeydd cwmnïau Gyrfa Cymru ar sail system o weithio wrth sawl gweithfan. Galluogodd hyn i'r cwmnïau reoli eu twf yn ystod rhan gyntaf y degawd heb gynnydd cyfatebol i'w sail eiddo[161]. Mae ysgolion a cholegau hefyd yn croesawu hyn, gan ystyried eu cynghorydd gyrfa yn aelod mygedol o'r staff fel arfer. Nid ymddengys fod unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi cyfaddawdu amhleidioldeb cynghorwyr gyrfa mewn unrhyw ffordd.

4.6 Yn ogystal â'r gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfa sylweddol a ddarperir gan y cynghorwyr gyrfa hyn (ochr yn ochr â'u cydweithwyr porth ieuenctid, anghenion arbennig a chyswllt â chyflogwyr), maent hefyd yn darparu **cymorth hyfforddiant ac ymgynghoriaeth** i ysgolion a cholegau wrth iddynt ddarparu eu rhaglenni gyrfa. Mae'r rhaglenni hyn yn destun gofynion statudol a amlinellir yn fframwaith 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith' y Cynulliad, sydd wedi dod â fframweithiau ar wahân ar gyfer addysg a chyfarwyddyd gyrfa ac addysg yn gysylltiedig â gwaith at ei gilydd[162]. Mae'r fframwaith

[160] Roedd hwn, er enghraifft, yn feirniadaeth o'r hen system cyfarwyddyd galwedigaethol yn Yr Almaen, lle'r oedd gan y Gwasanaeth Cyflogaeth Ffederal fonopoli ffurfiol am flynyddoedd lawer. Gweler Organisation for Economic Co-operation and Development (2002). *OECD Review of Career Guidance Policies: Germany Country Note.* Paris: OECD.

[161] Moulson, R. a Prail, S. (2004). *Adolygu Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.28. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[162] Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

yn cwmpasu pobl ifanc rhwng 11 a 19 oed: mae'n rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed, a hefyd yn rhan o ofynion 'craidd dysgu' Llwybrau Dysgu 14-19. Cynulliad Cymru oedd y corff cyntaf yn y DU sy'n gwneud rheoliadau i gyflwyno gofyniad y dylai ysgolion a cholegau ddarparu rhaglenni addysg gyrfa i bob myfyriwr rhwng 16 a 19 oed – dan Reoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001; erbyn hyn, mae estyniad tebyg yn cael ei ystyried yn Lloegr gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

4.7 Mae cymorth Gyrfa Cymru ar gyfer y rhaglenni hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi a chefnogi. Caiff y rhain eu cydlynu ym mhob un o gwmnïau Gyrfa Cymru gan dîm cymorth cwricwlwm arbenigol. Maent yn cynnwys cyrsiau byr ffurfiol a hyfforddiant a chefnogaeth anffurfiol.

4.8 Nid yw'r gweithgareddau hyn wedi'u cyfyngu i addysg gyrfa yn unig, ond maent hefyd yn cynnwys y maes llawer ehangach o **addysg yn gysylltiedig â gwaith**. Mae hyn yn cynnwys pum prif elfen: rhaglenni profiad gwaith; ymwybyddiaeth o fenter/busnes; mentora wedi'i gefnogi gan gyflogwyr; datblygu a darparu cwricwlwm wedi'i gefnogi gan gyflogwyr; a lleoliadau athrawon. Yn ystod 2007/08:

- cymerodd dros 177,500 o fyfyrwyr ran mewn gweithgaredd cysylltiadau addysg-busnes a hwyluswyd gan Gyrfa Cymru;
- treuliodd bron i 41,500 o fyfyrwyr o leiaf wythnos ar leoliad profiad gwaith;
- cynhaliodd Gyrfa Cymru asesiadau iechyd a diogelwch mewn dros 10,800 o leoliadau profiad gwaith;
- cymerodd dros 94,500 o fyfyrwyr ran mewn gweithgaredd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm a gefnogwyd gan gyflogwyr;
- gweithiodd bron i 12,000 o fyfyrwyr â mentor cyflogwr a'u helpodd i osod targedau unigol[163].

4.9 Mae swyddogaeth cwmnïau Gyrfa Cymru mewn perthynas ag addysg yn gysylltiedig â gwaith yn strategol ac yn weithredol fel ei gilydd, a bu rhywfaint o dyndra rhwng y ddwy swyddogaeth, yn gysylltiedig â'r modd y cafodd llawer o'r gwaith hwn ei drosglwyddo iddynt o'r Cynghorau Hyfforddiant a Menter (gweler para.1.5)[164]. Gwnaeth adroddiad gan CRG Research Ltd yn 2005 sylw o'r ffaith bod Gyrfa Cymru yn gweithredu fel contractwr a rheolwr contractau, ac 'y gellir ystyried hyn yn annheg a heb dryloywder'. Nododd 'ar y cyfan, roedd barnau ymgyngoreion o blaid rôl Gyrfa Cymru fel hwylusydd - rôl y gallai ei chwarae'n dda i ddatblygu mwy o synergedd trwy arolygiaeth fwy strategol' - ond mae hyn 'yn groes i ethos Gyrfa Cymru, sy'n sefydliad darparu yn bennaf mewn perthynas â'i brif weithgareddau eraill, sef addysg a chyfarwyddyd gyrfa'. Daeth i'r casgliad y byddai angen i Gyrfa Cymru fod ag elfen o'r ddwy rôl bob amser, yn

[163] Gyrfa Cymru (2008). *Papur 2 Gyrfa Cymru: Crynodeb o Wasanaethau a Ddarperir gan Gyrfa Cymru,* tt.8-9. Paratowyd y papur gan yr Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru.

[164] Cymhlethwyd hyn gan y ffaith bod gwahanol TECs yn strwythuro eu cysylltiadau addysg-busnes mewn ffyrdd gwahanol iawn. Nid yw'r gwahaniaethau hyn wedi'u lliniaru'n gyfan gwbl hyd yma. Ym Morgannwg Ganol, er enghraifft, mae gan y Bartneriaeth Addysg-Busnes statws lled-annibynnol o hyd.

ymarferol. Felly, roedd yn bwysig gweithredu ymagwedd gyson a thryloyw tuag at sicrhau darpariaeth addysg yn gysylltiedig â gwaith berthnasol, gan gydnabod cwmnïau Gyrfa Cymru fel darparwyr arweiniol, ond nid yr unig ddarparwyr[165]. Yn sgil hyn, mae elfen ddynodedig ar gyfer contractau â darparwyr eraill bellach wedi'i chynnwys yng nghontract craidd Gyrfa Cymru. Hefyd, sefydlwyd Fforwm Strategol yn ddiweddar i weithredu fel bwrdd afael, sy'n gwahodd tendrau ac yn gosod contractau ar gyfer darpariaethau addysg yn gysylltiedig â gwaith gan ddefnyddio cronfa flynyddol o £350,000+ a weinyddir gan Gyrfa Cymru.

4.10 Mae pwysigrwydd y maes cysylltiadau addysg-busnes o waith cwmnïau Gyrfa Cymru yn tyfu mewn perthynas â Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r rhain yn cynnwys lleiafswm o dair wythnos o brofiad gwaith 14-19, y dylai o leiaf un wythnos fod yn ystod Cyfnod Allweddol 4[166]. Mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn chwarae rhan bwysig mewn broceriaeth wrth ddatblygu'r lleoliadau hyn, wrth eu monitro o ran iechyd a diogelwch a gofynion dysgu, a chefnogi'r myfyrwyr sy'n dysgu oddi wrth y profiad (trwy ddyddiaduron profiad gwaith a phethau tebyg). Maent hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu a gweithredu llwybrau galwedigaethol, gan gynnwys rhoi cyngor ar eu hymarferoldeb yn y farchnad lafur, a brocera'r cymorth sydd ei angen gan gyflogwyr i ddarparu'r llwybrau hyn[167]. Wrth i lwybrau galwedigaethol gael eu datblygu, mae mwy o ofyn am gynnwys profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn y cyrsiau hyn, er mwyn helpu myfyrwyr i gysylltu theori ag arfer. Gan fod pwysau cynyddol ar leoliadau gwaith, yn enwedig yn ystod cyfnod o ddirwasgiad economaidd, bydd angen bod yn ofalus i sicrhau nad yw profiad gwaith yn gysylltiedig â'r cwricwlwm i rai myfyrwyr yn cymryd lle profiad gwaith archwiliadol i bawb[168].

4.11 Mae diffyg eglurder o hyd ynghylch p'un a oes gan gwmnïau Gyrfa Cymru rôl gydlynu gyffredinol mewn perthynas â chysylltiadau addysg-busnes mewn ysgolion/colegau ai peidio: er enghraifft, mae rhai ysgolion, colegau a chonsortia 14-19 yn mynd yn uniongyrchol at gyflogwyr, a allai fod â'r broblem o gysoni'r galw gan wahanol ffynonellau o ganlyniad. Yn 2007, argymhellodd Tasglu Ymgysylltu â Chyflogwyr 14-19, a sefydlwyd gan y Cynulliad 'fel arwydd clir o ymagwedd newydd, dylid brandio gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr ar wahân fel Partneriaethau Busnes Addysg Cymru (teitl ffurfiol i'w gytuno), wedi'u rheoli o fewn ymagwedd genedlaethol strategol wrth barhau'n llinyn o Gyrfa Cymru'. Sylfaen ei waith fyddai'r Porth Cyflogwyr a oedd yn cael ei ddatblygu fel rhan o Gyrfa Cymru Ar-lein[169]. Derbyniodd y Cynulliad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond nododd y byddai newid brand yn arwain at gostau, ac y dylid edrych ar yr argymhelliad fel rhan o'r adolygiad presennol o Gyrfa Cymru. Byddai'n gynorthwyol pe gellid egluro natur cylch gwaith Gyrfa Cymru yn y maes hwn fel rhan o'r broses hon.

---

[165] CRG Research Ltd (2005). *Developing a New Education Business Strategy.* Caerdydd: CRG Research Ltd.

[166] Adran Addysg a Sgiliau (2004). *Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau,* adran 1.4. Cylchlythyr 37/2004. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Erbyn hyn, mae'r gofyniad tair wythnos yn cael ei lacio rhywfaint ar ôl 16 oed.

[167] Dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 arfaethedig, bydd yn ofynnol i gonsortia sefydliadau gynnig o leiaf 30 o ddewisiadau ar gyfer cyrsiau, y mae'n rhaid i o leiaf 5 ohonynt fod o natur alwedigaethol.

[168] Fel y gwnaeth yn Awstralia, er enghraifft. Gweler Organisation for Economic Co-operation and Development (2002). *OECD Review of Career Guidance Policies: Australia Country Note,* t.7. Paris: OECD.

[169] Tasglu Ymgysylltu â Chyflogwyr 14-19 (2007). *Adroddiad,* tt.3-4. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.12 Mae graddau presennol gwaith cysylltiadau addysg-busnes cwmnïau Gyrfa Cymru yn bendant yn creu 'talpiogrwydd' ym mhroffil ei weithgareddau. Yn hyn o beth, mae'n werth nodi, pan ffurfiwyd Careers Scotland, lleihawyd natur heterogenaidd y cysylltiadau addysg-busnes a etifeddwyd gan y partneriaethau a'i rhagflaenodd trwy fynnu bod rhaid i'r cysylltiadau a gefnogir gan Careers Scotland fod â rhyw fath o berthynas â chynllunio gyrfa[170]. Gellid ystyried hyn yn llwyddiannus yng Nghymru hefyd.

4.13 Nid yn unig yw gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru mewn perthynas â dysgu yn gysylltiedig â gwaith yn cwmpasu ysgolion uwchradd, ond **ysgolion cynradd** hefyd. Er bod y fframwaith 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith' yn cwmpasu pobl ifanc 11 i 19 oed, mae'n nodi 'y gall dealltwriaeth o'r byd gwaith ddechrau yn unrhyw oedran' a bod canlyniadau dysgu CA2 ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cynnwys gofyniad i fyfyrwyr 'ystyried ystod o swyddi a wneir gan bobl yn eu cymuned'[171]. Hefyd, mae dadl gref bod angen i ymdrechion i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw ddechrau mewn ysgolion cynradd. Hefyd, mae'n aml yn haws cael mynediad at amser athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd, a gall gwaith tebyg fod yn hynod foddhaus. Ond, er bod y contract presennol yn caniatáu gwaith mewn ysgolion cynradd, nid yw'n ei annog o reidrwydd. Byddai angen cynnydd sylweddol yn y gyllideb ar gyfer cysylltiadau addysg-busnes er mwyn mynd i'r afael ag ysgolion cynradd mewn modd strategol, oherwydd y nifer fawr o ysgolion hyn uwchlaw popeth. Mae cydbwysedd targedau lleoliadau gwaith ar gyfer athrawon ysgol gynradd ac athrawon ysgol uwchradd wedi'i newid yn ddiweddar, i roi llai o sylw i ysgolion cynradd. Mewn egwyddor, gellid ail-fframio llawer o'r gwaith mewn ysgolion cynradd fel dysgu yn gysylltiedig â gyrfa.

4.14 Mae gwaith cwmnïau Gyrfa Cymru gyda **cholegau addysg bellach** yn dueddol o adlewyrchu eu gwaith ag ysgolion uwchradd i raddau helaeth. Mae'r holl fyfyrwyr amser llawn yn debygol o gael o leiaf un cyfweliad gyda chynghorydd gyrfa; yn achos myfyrwyr rhan-amser, mae'r mynediad yn fwy tebygol o fod yn wirfoddol. Mae un neu ddau o golegau wedi penodi eu cynghorwyr gyrfa eu hunain, nad ydynt yn destun safonau Gyrfa Cymru.

4.15 Mae natur a chwmpas cefnogaeth Gyrfa Cymru ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 wedi'i heffeithio'n sylweddol gan hyrwyddo cysyniad yr **Anogwr Dysgu**. Diffiniwyd y rôl hon fel 'gweithio gyda dysgwyr yn unigol neu mewn grwpiau bach, i bennu targedau ac i ddatblygu Llwybr Dysgu ar gyfer pob dysgwr a fydd yn cynnwys cyfleoedd ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol a gyflwynir dros gyfnod. Nodwyd y bydd angen i gefnogaeth anogwyr dysgu 'roi cyngor a chyfarwyddyd diduedd ac ymarferol ar y llwybrau gorau i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol gan ystyried yr arddulliau dysgu mwyaf addas ar eu cyfer'. Tynnwyd sylw at y ffaith 'nid un person fydd yn gweithredu fel anogwr dysgu o anghenraid - gellir gweithredu fel tîm i gyflwyno'r cymorth fel y gall dysgwyr gael cymorth ar wahanol amserau , mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol lefydd'. Diffiniwyd ystod y gweithwyr proffesiynol a all fod â'r 'sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn anogwyr dysgu' fel 'athrawon, staff gwasanaethau gyrfa,

---

[170] Watts, A.G. (2005). *Progress and Potential*, t.7. Glasgow: Careers Scotland.

[171] Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i Bobl Ifanc 11 i 19 Oed yng Nghymru,* t.10. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

gweithwyr ieuenctid, pobl â hyfforddiant gwaith cymdeithasol, cwnselwyr, cynorthwywyr dysgu, cymorthyddion dosbarth a hyfforddwyr yn y gweithle'[172].

4.16 Bu rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg eglurder mewn perthynas â rôl yr anogwr dysgu. Mae papur diweddar gan y Cynulliad wedi awgrymu y gallai fod yn unigolyn, neu'n swyddogaeth a gyflawnir gan dîm; ac y bydd 'anogwr dysgu yn gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr fel arfer, yn hytrach nag unigolion'[173]. Ymddengys bod y cysyniad yn cael ei ddehongli'n wahanol mewn gwahanol sefydliadau. Codwyd y mater o amhleidioldeb, gan Syr Adrian Webb ymhlith eraill, sef cadeirydd y grŵp adolygu addysg bellach (gweler para.1.11), a adroddodd fod y grŵp 'yn poeni am rai o'r storïau y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt am y pwysau sy'n cael ei roi [ar fyfyrwyr] i ddilyn mathau penodol o gyrsiau neu i aros mewn mathau arbennig o sefydliadau'[174]. Awgrymodd adolygiad diweddar wedi'i seilio ar ymchwil y gallai un dull o fynd i'r afael â hyn gynnwys anogwyr dysgu yn cael eu rheoli gan Gyrfa Cymru, fel sefydliad sy'n ymroddedig i amhleidioldeb fel un o'r nodweddion sy'n ei ddiffinio[175].

4.17 Bu pryder hefyd ynghylch perthynas anogwyr dysgu â rôl y cynghorydd gyrfa[176] Diffiniodd papur a luniwyd yn ddiweddar gan Gyrfa Cymru y gwahaniaeth rhwng y ddwy rôl fel bod anogwr dysgu yn 'helpu i fanteisio i'r eithaf ar ddysgu presennol yr unigolyn ifanc a phenderfyniadau ynghylch ei lwybr dysgu yn y dyfodol' tra bod cynghorydd gyrfa 'yn trafod dysgu mewn perthynas â'i oblygiadau ar gynllunio/dilyniant gyrfa'. Nododd hefyd fod cynghorwyr gyrfa anghenion arbennig a chynghorwyr porth ieuenctid yn cyflawni nifer o swyddogaethau anogwyr dysgu, er bod angen mwy o anodau i wneud hynny'n llawn; a bod Gyrfa Cymru mewn sefyllfa dda i gyfrannu at rôl yr anogwr dysgu, neu ei chyflawni, ar gyfer pobl ifanc mewn dysgu yn gysylltiedig gwaith[177]. Mae perygl o fewn ysgolion a cholegau y bydd y gwahaniaeth rhwng rolau anogwyr dysgu a chynghorwyr gyrfa yn ymwahanu'r berthynas rhwng dewisiadau dysgu a dewisiadau gyrfa (fel sydd eisoes yn digwydd mewn unedau chweched dosbarth o bryd i'w gilydd – gweler para.2.37). Gan fod dewisiadau dysgu hefyd yn ddewisiadau gyrfa mewn gwirionedd, bydd angen bod yn ofalus nad yw hyn yn digwydd. Argymhellodd adroddiad diweddar gan Estyn y dylai cwmnïau Gyrfa Cymru wella dealltwriaeth partneriaid o'r ffiniau rhwng y ddwy rôl, ac y dylai Llywodraeth y Cynulliad 'bennu canllawiau clir i esbonio rôl anogwyr dysgu'[178].

4.18 Ffurfiolir y trefniadau gydag ysgolion a cholegau trwy **gytundeb partneriaeth**, sy'n cael ei drafod rhwng y sefydliad a'r cwmni Gyrfa Cymru perthnasol. Mae hwn yn

---

172 Adran Hyfforddiant ac Addysg (2004). *Llwybrau Dysgu 14-19: Canllawiau,* adrannau 1.2, 2.1. Cylchlythyr 37/2004. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
173 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Llwybrau Dysgu 14-19: Cymorth Anogwyr Dysgu,* t.5. Caerdydd: LlCC.
174 Roedd hyn yn cynnwys un adroddiad arbennig o fyw am 'ddyn ifanc a oedd am fynd i goleg AB, a gafodd ei gloi mewn ystafell am dros awr ac y dywedwyd wrtho na fyddai'n cael dod allan nes iddo newid ei feddwl ac aros yn y chweched dosbarth'. Tystiolaeth i Bwyllgor Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, 4 Tachwedd 2008.
175 Saunders, D. (2008). *Anogwyr Dysgu Cymru: Crynodeb,* t.39. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
176 Gweler e.e. Estyn (2008). *Cefnogi Llwybrau Dysgu.* Caerdydd: Estyn.
177 Gyrfa Cymru (2008). *Cyfraniad Gyrfa Cymru at Annog Dysgu.* Caerffili: Cymdeithas Gyrfa Cymru.
178 Estyn (2008). *Cefnogi Llwybrau Dysgu,* t.5. Caerdydd: Estyn.

pennu lefel y gwasanaethau a ddarperir, yr amseroedd y cânt eu darparu, a'r mewnbwn sydd ei angen gan yr ysgol/coleg a chan gwmni Gyrfa Cymru er mwyn cyflawni'r cytundeb. Nid ydynt yn manylu ar y rhaglen gyrfa lawn a ddarperir gan yr ysgol neu'r coleg. Yn hyn o beth, maent yn gytundeb lefel gwasanaeth yn hytrach na chytundeb partneriaeth llawn.

4.19 Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth ehangach a ddarperir gan Gyrfa Cymru i raglen yr ysgol neu'r coleg yn cael ei hadlewyrchu'n gryf yng **Ngwobr Ansawdd Gyrfa Cymru** (GAGC) ar gyfer Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfa ac Addysg yn Gysylltiedig â Gwaith. Argymhellwyd hyn yn adroddiad 1999 ETAG (gweler para.1.2), trwy ddod â phedwar marc ansawdd blaenorol ynghyd. Mae ei ddatganiad o genhadaeth yn canolbwyntio ar 'ddarpariaeth o ansawdd o fewn y cwricwlwm sy'n cefnogi datblygiad personol, dealltwriaeth effeithiol o'r byd gwaith a chynllun gyrfa gydol oes'. Mae pum prif egwyddor ar gyfer pob gwobr: cyflawniad myfyrwyr o amcanion dysgu; rheolaeth gyffredinol; rheoli pobl; partneriaethau, prosesau ac adnoddau; ac arfarnu ac adolygu'n barhaus. Mae Gyrfa Cymru yn darparu ymgynghoriaeth i gynorthwyo ysgolion trwy'r broses, y mae'n rhaid ei hadnewyddu bob dwy neu dair blynedd.

4.20 Canfu adolygiad annibynnol o GAGC gan ASW Consulting mai'r prif reswm dros ddiffyg cyfranogiad oedd pryder ynghylch faint o amser staff y mae ei angen i weithio tuag at y wobr. Roedd y gefnogaeth gan Gyrfa Cymru yn cael ei hystyried yn broffesiynol ac roedd yn cael ei gwerthfawrogi, ond ystyriwyd bod y broses yn gofyn llawer o amser a'i bod yn rhy gymhleth. Canfuwyd bod y wobr o safon aur - yn anodd ei hennill ond yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y rheiny sy'n ei hennill[179]. Gellir ei ystyried yn achos o'r gorau yn elyn i'r da.

4.21 Mae'r ffigurau diweddaraf (Tachwedd 2008) yn dangos bod 77 o ysgolion a 15 o golegau wedi ennill GAGC erbyn hyn[180], gan gynrychioli cyfradd treiddio o oddeutu un o bob tri. Mae'r wobr yn cael ei haddasu i fodloni fframwaith newydd 'Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith' (gweler para.4.6), ond mae hefyd yn cael ei hailfframio i'w gwneud yn fwy hygyrch. Mae'n cael ei disodli gan Farc Gwelliant Parhaus Gyrfa Cymru, a fydd yn cael ei lansio ym mis Medi 2009. Yn hytrach na chydnabod darpariaeth ragorol, bydd hwn yn canolbwyntio ar roi cynlluniau a phrosesau ar waith i wella'r ddarpariaeth, gan feithrin newid cynyddol.

4.22 Er bod cefnogaeth cwmnïau Gyrfa Cymru i GAGC yn cynrychioli rôl meithrin gallu amlwg, a bod agweddau eraill ar eu gwaith mewn ysgolion a cholegau yn disgyn i'r categori hwn hefyd, mae cwmpas eu gwaith o ran darparu gwasanaethau yn golygu bod y diwethaf yn dueddol o ddominyddu'r modd y caiff eu rôl yn y sefydliadau hyn ei llunio a'i chanfod. Mae'r strwythur cryf sydd wedi'i seilio ar dargedau, y maent yn destun iddo, hefyd yn dueddol o yrru i'r cyfeiriad hwn, ynghyd â'r ffaith y cynhelir arolygiadau Estyn o gwmnïau gyrfa ar wahân i arolygiadau o ysgolion a cholegau, lle'r ymddengys y

179 ASW Consulting (2006). *Evaluation of the Content, Process and Management of the Careers Wales Quality Award.* Matlock: ASW Consulting.

180 Gyrfa Cymru (2008). *Papur 2 Gyrfa Cymru: Crynodeb o'r Gwasanaethau a Ddarperir gan Gyrfa Cymru,* t.11. Papur a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru.

rhoddir sylw cyfyng yn unig i addysg a chyfarwyddyd gyrfa. Mae tystiolaeth anecdotaidd bod nifer yr ysgolion sydd â chydlynwyr gyrfa yn lleihau; yn lle hynny, mae'n dod yn fwy cyffredin i addysg a chyfarwyddyd gyrfa mewn ysgolion gael eu cydlynu gan uwch reolwr sydd â chyfres ehangach o gyfrifoldebau, a/neu i ddefnyddio unigolyn nad yw'n athro i gwblhau amrywiaeth o dasgau gweinyddol. Er y gall hyn fod yn effeithiol, gall hefyd ei gwneud yn anoddach i ddatblygu sail glir ar gyfer model partneriaeth sy'n rhoi mwy o bwyslais ar rôl meithrin gallu staff Gyrfa Cymru mewn perthynas â darpariaeth y sefydliad ei hun.

**Addysg uwch**

4.23 Mewn addysg uwch, ar y llaw arall, bu'r berthynas yn un o dynnu ffiniau yn bennaf. Mae gan bob sefydliad addysg uwch ei wasanaeth gyrfa ei hun, ac er bod y rhain yn amrywio'n fawr o ran eu maint a'u swyddogaeth, maent fel arfer yn darparu cyfarwyddyd gyrfa yn ogystal â gwasanaethau eraill (er bod mynediad at gyfweliadau gyrfa yn gyfyng iawn mewn rhai sefydliadau)[181].

4.24 Argymhellodd adroddiad ETAG a arweiniodd at sefydlu Gyrfa Cymru (gweler para.1.2) y dylai'r Cynulliad wahodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) 'i ddatblygu safonau meincnod ar gyfer darpariaeth gwasanaethau gyrfa sefydliadau AU ac ar gyfer integreiddio addysg gyrfa yn y ddarpariaeth cyrsiau, a chymryd camau i sicrhau bod gan bob myfyriwr AU fynediad at lefel gwasanaethau cyson, wedi'i ddiffinio'n glir ledled Cymru'. Argymhellodd hefyd y dylai'r Cynulliad 'gomisiynu Gyrfa Cymru i gytuno ar drefniadau â Chymdeithas Gwasanaeth Gyrfa Addysg Uwch Cymru ar gyfer cydgynllunio lleol a'r defnydd gorau o adnoddau wrth ddarparu gwasanaethau gyrfa i raddedigion a diplomedigion'[182]. Mae sylw mor gryf i wasanaethau mewn addysg uwch yn anarferol mewn polisïau cyfarwyddyd cenedlaethol.

4.25 Yn dilyn adroddiad ETAG, sefydlodd CCAUC Weithgor Adolygu, gan gynnwys staff Gyrfa Cymru. Gwnaeth y gweithgor hwn argymhellion gan ganolbwyntio ar ymagwedd gydweithredol, Cymru gyfan tuag at ddarparu gwasanaethau cyfarwyddyd sy'n cyrraedd safonau penodedig ar gyfer yr holl fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru ac sy'n dychwelyd i Gymru, er mwyn darparu ymgeiswyr llawn cymhelliant i gyflogwyr yng Nghymru i fodloni anghenion sgiliau uwch, ac i gynnal ymagwedd strategol tuag at agenda gyflogadwyedd graddedigion. Awgrymwyd bod angen esbonio cydgyfrifoldebau'r ddwy gyfres o wasanaethau. Felly, argymhellwyd y dylent gytuno ar gyfres fwy eglur o gyfrifoldebau priodol, ac y dylid asesu goblygiadau arferion gweithio yn y dyfodol o ran adnoddau. Fodd bynnag, roedd y brifysgol am gadw rheolaeth o'u gwasanaethau gyrfa eu hunain, ac ni chymerwyd unrhyw gamau i symud yr argymhellion hyn ymlaen[183]. Enwir Gyrfa Cymru fel partner allweddol yng Nghynllun

[181] Dadansoddiad natur y gwasanaethau hyn yn fanwl yn *A Survey of Careers Service Provision in Welsh Institutions in Higher Education,* a baratowyd gan ASW Consulting a Minds at Work ar ran Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac ELWa yn 2002. Fodd bynnag, ni ryddhawyd yr adroddiad i'r cyhoedd.

[182] Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Cymru (1999). *An Education and Training Action Plan for Wales*, t.44. Caerdydd: Swyddfa Gymreig.

[183] Clark, M a Talbot, J (2006). Career guidance in Wales: retrospect and prospect. *British Journal of Guidance and Counselling, 34(1)*, 55-71 (gweler tt.64-65).

Corfforaethol CCAUC, ond er y bu sawl ymgais i lunio concordat rhwng CCAUC a Chymdeithas Gyrfa Cymru, ni chyflawnwyd hyn hyd yma.

4.26 Roedd astudiaeth o berthynas waith rhwng Sefydliadau Gwasanaethau Gyrfa a gwasanaethau gyrfa addysg uwch, a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr pan oedd y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn dal i fodoli yn Lloegr, yn gwahaniaethu rhwng:

- *Cyflenwoldeb ymddangosiadol* – lle cydnabyddir manteision posibl meithrin cysylltiadau rhwng gweithgareddau sy'n cydgyffwrdd ond sydd ar wahân i'w gilydd.
- *Maes di-ddadl* – lle cydnabyddir bod un ochr yn gyfrifol am faes gwaith, a chydnabyddir bod ymgysylltiad yr ochr arall yn ategu at y gwaith hwn.
- *Cyrch ymddangosiadol* – lle mae un ochr o'r farn bod y llall yn ymwthio i'w maes gwaith arbenigol.
- *Maes sy'n cael ei ddadlau* – lle cydnabyddir bod gan y ddwy ochr hawliadau posibl ar faes gwaith penodol.
- *Maes agored* – lle cydnabyddir bod angen gwasanaethau na all y naill och neu'r llall eu darparu ar hyn o bryd.

Defnyddiwyd y gwahaniaethau hyn i archwilio'r berthynas waith mewn perthynas â myfyrwyr addysg uwch cyn iddynt ddechrau, yn ystod y cwrs ac ar ôl iddynt ymadael, a hefyd mewn perthynas â maes ehangach cyfarwyddyd i oedolion[184]. Yn gyffredinol, cydnabyddir mai'r cwmni gyrfa sy'n gyfrifol am fyfyrwyr yng Nghymru cyn iddynt ddechrau ar gyrsiau, a'r gwasanaeth gyrfa addysg uwch sy'n gyfrifol am fyfyrwyr yn ystod cyrsiau ac ar ôl iddynt ymadael, ond mae gwaith tymor hwy ar ôl ymadael a gwaith ym maes cyffredinol cyfarwyddyd i oedolion yn dueddol o fod yn faes agored neu ddi-ddadl. Mae gwasanaethau addysgu uwch eu hunain yn amrywio'n sylweddol o ran y graddau y maent yn darparu gwasanaethau i'w myfyrwyr eu hunain ar ôl iddynt raddio ac i fyfyrwyr o brifysgolion eraill yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl iddynt raddio[185].

4.27 Roedd un o'r astudiaethau achos yn yr astudiaeth hon yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru Bangor a'r cwmni gyrfa lleol mewn perthynas â chael mynediad at ddarpariaeth. Mae'r cydweithio hwn wedi parhau, a chynhaliwyd cysylltiadau agos â Phrifysgol Bangor: mae ei chofrestrydd presennol ar Fwrdd Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin, ac mae ei chyn gofrestrydd yn cadeirio'r bwrdd hwn.

[184] Watts, A.G., Hughes, D. a Haslam, D. (1999). *Closer Working?* Derby: Centre for Guidance Studies, University of Derby. Hefyd Watts, A.G., Hughes, D. a Haslam, D. (2001). Working relationships between careers services within and outside higher education. *Journal of Education and Work*, *14(1),* 51-70.

[185] Canfu arolwg ledled y DU rhai blynyddoedd yn ôl fod gan 90% o'r prifysgolion a ymatebodd ddarpariaeth ar gyfer eu graddedigion eu hunain am o leiaf dwy flynedd wedi iddynt raddio, tra bod 78% yn dweud eu bod hefyd yn trefnu bod darpariaeth ar gael gan gynllun 'cydgymorth' i raddedigion o sefydliadau eraill – er i rai ddisgrifio'r diwethaf yn wasanaeth cyfyng (gan eithrio cyfweliadau cyfarwyddyd fel arfer). Maguire, M. (2005). *Delivering Quality,* t.38. Llundain: Adran Addysg a Sgiliau.

4.28 Enghraifft arall debyg oedd Prifysgol Morgannwg a Gyrfa Cymru yn cyd-ddatblygu cwricwlwm gyrfa ar gyfer myfyrwyr 16 i 19 oed a myfyrwyr prifysgol yn y flwyddyn sylfaen, wedi'i seilio ar roi sgiliau cynllunio gyrfa cadarn i fyfyrwyr. Mae hyn wedi'i achredu gan y Brifysgol, ac wedi'i ddarparu ym mhob un o ardaloedd Gyrfa Cymru ond un[186].

4.29 Mae enghraifft arall o gydweithio yn ymwneud â myfyrwyr ag anawsterau dysgu wedi iddynt ddechrau mewn addysg uwch. Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2001 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru asesu unrhyw unigolyn ifanc dan 25 oed ag anawsterau dysgu sy'n ymgymryd ag addysg ôl-16. Mae'n arfer y ddyletswydd hon trwy ei chontract â chwmnïau Gyrfa Cymru, heblaw yn achos myfyrwyr sydd eisoes yn dilyn cyrsiau addysg uwch, pan ofynnir i'r sefydliad AU perthnasol gwblhau'r asesiad - naill ai trwy ei wasanaeth gyrfa ei hun neu drwy Gyrfa Cymru[187].

4.30 Mewn perthynas â chyfarwyddyd oedolion i raddedigion, mae gwahanol gwmnïau Gyrfa Cymru yn dilyn gwahanol bolisïau. Mae prifysgolion Aberystwyth ac Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, yn cael ei his-gontractio gan gwmnïau Gyrfa Cymru i ddarparu gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfa i raddedigion sy'n byw yng Nghymru, ar y sail eu bod yn gwybod y farchnad lafur i raddedigion yn well na Gyrfa Cymru, yn ôl pob tebyg. Yn achos Abertawe, mae'r gwaith hwn yn cefnogi swydd cynghorydd gyrfa 0.6. Yng Nghaerdydd, ar y llaw arall, nid yw Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro wedi gwneud hyn, gan ei fod o'r farn bod ganddo'r arbenigedd perthnasol yn fewnol. Etifeddwyd yr ymagweddau gwahanol hyn gan arferion blaenorol Cynghorau Hyfforddiant a Menter cyn i wasanaethau cyfarwyddyd i oedolion gael eu cyfuno â chwmnïau Gyrfa Cymru. Er eu bod yn fach o ran eu nifer ar hyn o bryd, maent yn adlewyrchu mater ehangach o arwyddocâd strategol sylweddol i gwmnïau Gyrfa Cymru: p'un a ydynt yn honni ac yn ceisio darparu gwasanaeth ar gyfer pobl o bob gallu yn ogystal â phobl o bob oedran, neu fod eu gwasanaethau ôl-19 - ac ôl-16 hefyd o bosibl (cf. para.2.37) - wedi'u llunio ar gyfer i rheiny sydd â lefelau sgiliau is yn bennaf. Edrychwn ar hwn eto yn Adran 5 (para.5.13).

4.31 Mae meysydd arall lle mae angen eglurhad yn cynnwys darparu gwasanaethau i fyfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i astudio, ac i fyfyrwyr mewn addysg bellach ar gyrsiau addysg uwch â rhyddfraint. Mewn egwyddor, disgwylir i'r grŵp diwethaf ddefnyddio gwasanaeth gyrfa'r brifysgol berthnasol sy'n rhoi'r rhyddfraint, ond efallai y bydd yn anodd iddynt wneud hynny yn ymarferol. Mewn un coleg yng Ngogledd Orllewin Cymru, mae'r cwmni Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfa i fyfyrwyr addysg uwch yn y coleg dan drefniant is-gontractio.

4.32 Erbyn hyn, mae'r ffin rhwng addysg bellach ac addysg uwch yn dod yn fwyfwy aneglur: ym Merthyr Tudful, er enghraifft, cyfunwyd y coleg addysg bellach â Phrifysgol Morgannwg, ac mae cyfuniadau eraill tebyg yn cael eu trafod. Hefyd, mae rhai

[186] Clark, M. & Talbot, J. (2006). Career guidance in Wales: retrospect and prospect. *British Journal of Guidance and Counselling, 34(1),* 55-71 (see p.59).
[187] Hutt, J. (2007). *Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Wasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl,* t.8. Datganiad a Ysgrifennwyd gan y Cabinet. Caerdydd: LlCC.

trafodaethau rhwng sefydliadau addysg uwch ynghylch sefydlu gwasanaethau gyrfa rhanedig: mae hyn yn wir yn Abertawe (lle mae Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin wedi cael cyllid cydweithio gan CCAUC am dair blynedd i ddatblygu Gwasanaeth Gyrfa 'rhithwir' ar gyfer De Orllewin Cymru) ac yn Ne Ddwyrain Cymru. Gallai'r datblygiadau hyn agor posibiliadau newydd ar gyfer ail-fframio gwasanaethau.

4.33 Os yw Gyrfa Cymru am gynnal cysylltiadau ag ymadawyr ysgol i'w cefnogi i ddatblygu eu gyrfa, trwy Gyrfa Cymru Ar-lein a'i ystod ehangach o wasanaethau, yna mae cynnal rhywfaint o fynediad at fyfyrwyr addysg uwch yn strategol bwysig (gweler para.2.26). Trafodwyd y posibilrwydd ohono'n cymryd drosodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau gyrfa mewn addysg uwch, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn dderbyniol i brifysgolion a'u staff. Byddai hefyd yn debygol o atal twf rhaglenni cwricwlaidd sy'n ymwneud â dysgu am ddatblygu gyrfa a chyflogadwyedd, sydd wedi bod yn faes twf pwysig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf[188]. Fodd bynnag, gan fod Gyrfa Cymru yn frand yn hytrach nag yn sefydliad ar hyn o bryd, gallai fod teilyngdod mewn archwilio p'un a gellid ymestyn y brand i gynnwys gwasanaethau gyrfa mewn addysg uwch, heb effeithio ar strwythur y gwasanaethau hyn. Byddai hyn yn gofyn ailystyried yr hyn y mae'r brand yn ei olygu, a'r safonau a gynrychiolir ganddo.

**Canolfan Byd Gwaith**

4.34 Bu gan holl gwmnïau Gyrfa Cymru berthynas agos â'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP). Yn y gorffennol, fe'i contractiwyd gan JCP – neu gan sefydliadau yn y sectorau gwirfoddol a phreifat a gontractiwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – i ddarparu cyfweliadau cyfarwyddyd gyrfa i rai unigolion a atgyfeiriwyd trwy'r Fargen Newydd. Fodd bynnag, bu rhywfaint o dyndra rhwng tueddiad cynghorwyr Gyrfa Cymru i annog cynllunio gyrfa tymor hwy, a allai gynnwys addysg a hyfforddiant, ac i gontractwyr y Ganolfan Byd Gwaith a DWP ganolbwyntio mwy ar hyfforddiant byrdymor yn benodol i'r swydd gan arwain at ddechrau gweithio'n ddiymdroi.

4.35 Cytunwyd ar Femorandwm o Ddealltwriaeth rhwng cwmnïau Gyrfa Cymru a JCP, sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth a chydweithio ar farchnata a chyfathrebu. Mae hefyd yn nodi y dylid cynnal trafodaethau lleol rhwng y cwmni gyrfa a Rheolwr Rhanbarthol JCP, gyda rhestr o egwyddorion i danategu'r trafodaethau hyn. Mae'r trefniadau lleol hyn yn gweithio'n well mewn rhai ardaloedd nag mewn eraill.

4.36 Rhoddwyd llawer mwy o arwyddocâd i'r cysylltiadau â JCP yn ddiweddar gan bolisïau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru a luniwyd i ddod â pholisïau yn ymwneud â sgiliau, cyflogaeth a lles at ei gilydd. Dywed Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth y Cynulliad: 'Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau sgiliau a chyflogaeth yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd. Rydym eisiau mynd gam ymhellach a sicrhau eu bod wedi eu

---

188 Watts, A.G (2006). *Career Development Learning and Employability*. Efrog: Higher Education Academy. Hefyd Watts, A.G. a Butcher, V. (2008). *Break-Out or Break-Up?: Implications of Institutional Employability Strategies for the Role and Structure of University Careers Services*. Manceinion: Higher Education Careers Services Unit.

hintegreiddio'n ddi-dor[189].' Mae'n cynnig cysyniad 'Grisiau Gyrfa Cymru' gyda phum cam gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth:

- *Cysylltu:* estyn allan at y rhai 'anoddaf eu cyrraedd' i symbylu eu huchelgais i weithio.
- *Camu ymlaen:* Gwasanaeth Annog Cyflogaeth.
- *Camu i fyny:* ystod o raglenni sgiliau a chyflogaeth.
- *Camu allan:* mynediad at swyddi gwag.
- *Symud ymlaen:* cefnogaeth yn y gwaith.

Gallai Gyrfa Cymru gyfrannu'n sylweddol at sawl un o'r camau hyn. Yn benodol, lluniwyd y Gwasanaeth Annog Cyflogaeth i gynnig 'cyngor ac arweiniad proffesiynol i'r rheiny sy'n hawlio budd-daliadau, gan adeiladu ar y gwasanaethau a ddarperir eisoes gan Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith'. Bydd 'yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfleoedd dysgu a swyddi gwag yn eu hardal leol, gyda chymorth ymarferol mewn chwilio am swyddi, paratoi CV, sgiliau cyfweld a materion ymarferol fel gofal plant'. Bydd pob cleient yn datblygu 'cynllun dysgu a gyrfa unigol sy'n disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael gan asiantaethau allweddol ac unrhyw hawliau a allai fod ganddynt i gymorth ariannol gyda ffioedd dysgu neu fynediad at ddysgu'[190]

4.37 Dywedodd Cyfarwyddyd Cynllun Gyrfa Cymru ar gyfer 2008/09 'wrth ddisgwyl am y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth, dylai cwmnïau adolygu eu perthynas â'r Ganolfan Byd Gwaith yn lleol, a chydweithio trwy Weithgor Cymru-gyfan i wella cysondeb y ddarpariaeth ymhellach gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith a darparwyr sgiliau sylfaenol'. Ychwanegodd 'Bydd cyfarwyddyd pellach yn dilyn pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth yn hysbys'[191].

4.38 Mae'n amlwg bod hyn oll yn debygol o gael ei ddylanwadu'n sylweddol gan bolisi DWP ar gyfer y DU i gyd ar atgyfeirio nifer sylweddol o bobl sy'n derbyn budd-daliadau am Archwiliadau Iechyd Sgiliau. Mae'r polisi sgiliau wedi'i ddatganoli, ond nid yw'r polisi cyflogaeth, ac mae diwygio budd-daliadau yn debygol o arwain at ryw fath o gysondeb ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys y pwysau cynyddol a roddir ar grwpiau fel rhieni sengl a'r rheiny a oedd yn arfer cael budd-dal analluogrwydd i ddychwelyd i'r farchnad lafur. Mae nifer sylweddol o'r rhain, a hefyd (dan y Fargen Newydd Hyblyg) y rheiny a fu'n cael Lwfans Ceisio Gwaith am chwe mis, yn debygol o gael eu hatgyfeirio am Archwiliadau Iechyd Sgiliau. Yn Lloegr, cynhelir yr archwiliadau hyn gan y gwasanaeth datblygu a gyrfa newydd i oedolion; yng Nghymru, ymddengys mai Gyrfa Cymru yw'r sefydliad mwyaf cymwys i'w darparu. Gallai hyn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw

[189] Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth,* t.27. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[190] Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau a Chyflogaeth,* tt.43, 45. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

[191] Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Gyrfa Cymru: Cyfarwyddyd Cynllunio 2008-2009,* t.16. Caerdydd: LlCC.

am wasanaethau Gyrfa Cymru, sy'n debygol o gael ei fwyhau'n sylweddol gan effaith y dirwasgiad economaidd presennol ar lefel diweithdra.

4.39 Gallai hyn fod â goblygiadau mawr o ran adnoddau (nid yw'n sicr hyd yma i ba raddau y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn dod o'r Trysorlys neu o gyllidebau'r Cynulliad). Hefyd, ymddengys yn debygol y bydd llawer o'r atgyfeiriadau hyn yn orfodol ar gyfer parhau i dderbyn budd-dal. Gallai hyn beryglu manteision y rôl ddatgysylltiedig, ddiduedd sydd gan Gyrfa Cymru ar hyn o bryd, gyda'r risg o lefelau is o foddhad â'r gwasanaeth a ddarperir. Hefyd, gallai fod â goblygiadau sylweddol o ran rheoli risg, er enghraifft, mynnu newidiadau i'r modd y mae swyddfeydd wedi'u cynllunio. Hefyd, bydd â goblygiadau sylweddol o ran hyfforddi staff, yn ymwneud â'r Archwiliadau Iechyd Sgiliau eu hunain a'r cyfarwyddyd gyrfa a fydd yn dilyn, yn ôl pob tebyg. Nid yw'n sicr hyd yma pa lefel o ddoethineb fydd ar gael i ddatblygu ymateb Cymreig nodedig i'r amrywiol faterion hyn.

**Sector gwirfoddol a chymunedol**

4.40 Yn Lloegr[192] a'r Alban[193], mabwysiadwyd ymagweddau systematig tuag at feithrin gallu o fewn asiantaethau gwirfoddol a chymunedol, wedi'u seilio'n rhannol ar hyfforddi staff y rheng flaen ac yn rhannol ar ganolfannau adnoddau wedi'u brandio. Yng Ngogledd Iwerddon, datblygiad y prif wasanaethau i oedolion yn y sector gwirfoddol, sef *Educational Guidance Service for Adults*.

4.41 Nododd Adolygiad Polisi Cyfarwyddyd Gyrfa OECD bod 'teilyngdodau strategaethau polisi sy'n gweithio trwy sefydliadau cymunedol yn cynnwys, nid yn unig eu gwybodaeth fwy am grwpiau penodol o gleientiaid, a'u derbynioldeb iddynt, ond hefyd y cyfraniad y gall y gymuned ei wneud tuag at feithrin gallu'. Ychwanegodd: 'O ganlyniad, mae rhai o'r farn y dylid eu defnyddio fel cwndid ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rheiny yn y maes cyfarwyddyd. Ar y llaw arall, mae eraill o'r farn bod y sector hwn yn dameidiog, yn fympwyol ac ambell waith yn wrthlywodraethol ac yn wrthfiwrocratig, a'i fod yn defnyddio arian cyhoeddus yn rhy aml heb ganlyniadau canfyddadwy. Ymddengys yn debygol bod gan y sector gyfraniad i'w wneud i strategaethau cyfarwyddyd gyrfa ar gyfer oedolion, ond ochr yn ochr â gwasanaethau mwy ffurfiol, yn hytrach nag yn eu lle'[194].

4.42 Yng Nghymru, mae rhai ond nid pob un o gwmnïau Gyrfa Cymru wedi cynnal y Rhwydweithiau Cyfarwyddyd i Oedolion a etifeddwyd gan y Cynghorau Hyfforddiant a Menter. Dan y trefniadau hyn, mae sefydliadau gwirfoddol yn atgyfeirio cleientiaid y mae angen cyfarwyddyd arnynt (yn NVQ Lefel 4) i Gyrfa Cymru, y gallai ei staff ymweld â nhw i ddarparu'r cyfweliadau hyn. Hefyd, gallan nhw eu hunain roi gwybodaeth a

[192] Barker, V., Watts, A.G., Sharpe, T. & Edwards, A. (2005). Building career guidance capacity in the voluntary and community sector. *British Journal of Guidance and Counselling, 33(4),* 457-473.
[193] Careers Scotland (2004). *Community Guidance: a Partnership Approach – Linking Lifelong Learning and Lifelong Guidance.* Glasgow: Careers Scotland.
[194] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap,* t.65. Paris: OECD.

chyngor (yn NVQ Lefel 3) dan is-gontract, gyda Gyrfa Cymru yn darparu hyfforddiant i staff ac yn sicrhau ansawdd. Mewn rhai sefydliadau mwy, gallai staff gael eu hyfforddiant hyd at NVQ Lefel 4 er mwyn darparu cyfarwyddyd eu hunain. Yn yr achosion hyn, byddant yn destun arolygiadau Estyn. Mae mynnu ar y safonau hyn wedi arwain at rai sefydliadau'n ymadael â'r rhwydweithiau, ond maent yn atal safonau rhag dirywio.

**Cyflogwyr ac undebau llafur**

4.43 Os yw Gyrfa Cymru am ddarparu cymorth datblygu gyrfa ar sail gydol oes, yna mae'r cymorth y mae'n ei gynnig yn y gweithle, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyflogwyr a/neu undebau llafur, yn dyngedfennol. Pan ofynnwyd i sampl genedlaethol o oedolion yn y DU rhai blynyddoedd yn ôl pa ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar ddysgu neu gyfleoedd gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn flaenorol, y ffynhonnell fwyaf cyffredin (a grybwyllwyd gan bron i ddau draean o'r ymatebwyr) oedd eu cyflogwyr[195].

4.44 Yn ogystal â'u gwaith helaeth gyda chyflogwyr mewn agweddau eraill ar eu gwaith - yn arbennig ennyn ymgysylltiad cyflogwr â dysgu yn gysylltiedig â gwaith, casglu gwybodaeth am y farchnad lafur i lywio ei waith cyfarwyddyd gyrfa, a darparu gwasanaethau lleoli ar gyfer y rheiny sy'n ymadael â'r ysgol yn gynnar - mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn datblygu'r gweithlu ac yn darparu gwasanaeth cwnsela yn sgil dileu swyddi mewn adeiladau cyflogwyr.

4.45 Yn wreiddiol, datblygwyd y gwaith datblygu'r gweithle i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â sgiliau a chyflogau isel. Mae gan bob cwmni Gyrfa Cymru dîm datblygu'r gweithlu bach sy'n cydweithio â chyflogwyr i wella eu rhaglenni datblygu gyrfa ar gyfer eu gweithwyr ac i adnabod anghenion hyfforddiant eu gweithlu. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, nodi anghenion sgiliau gweithwyr, mesur barn staff a datblygu rhaglen gyrfa - a allai gynnwys cymysgedd o weithdai a chyfweliadau unigol - er mwyn helpu gweithwyr i gyflawni eu nodau ar gyfer eu gyrfa. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i gyflogwyr: mae mwyafrif y rheiny sy'n ei ddefnyddio yn y sector cyhoeddus, ac mae cwmpas y gwaith yn weddol gyfyng ar hyn o bryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe'i cyfyngir i weithwyr â sgiliau isel yn bennaf, ond mewn rhai fe'i lledaenir ar draws yr holl lefelau sgiliau. Gellid ei gysylltu'n fwy strategol â pholisïau ehangach y Cynulliad ar gefnogi datblygu sgiliau yn y gweithle, gan gynnwys y rôl broceriaeth dysgu yr ymgymerir â hi gan gynghorwyr datblygu adnoddau dynol a'i gefnogaeth i'r safon Buddsoddi mewn Pobl (IiP)[196].

4.46 Mae gwaith cwnsela cwmnïau Gyrfa Cymru yn sgil dileu swyddi eisoes wedi'i drafod ym mhara.2-52-2.53. Mewn gweithleoedd undebol, gwneir hyn trwy gydweithio'n agos ag undebau llafur fel arfer. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae perygl y

---

[195] Market and Opinion Research International (2002). *Demand for Information, Advice and Guidance*. Winchester: The Guidance Council.

[196] Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008). *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau a Chyflogaeth,* tt.53-56. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

bydd maint rhaglenni dileu swyddi yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith datblygu'r gweithlu.

4.47 Mae'r cysylltiadau mwy cyffredinol â chynrychiolwyr dysgu undebau (ULR) wedi bod yn cynyddu, er bod hynny ar sail braidd yn neilltuol. Mae twf y cynrychiolwyr hyn wedi bod yn ddatblygiad hynod sylweddol mewn perthynas â datblygu gyrfa yn y gweithle. Fe'i cefnogwyd yn gryf gan Adroddiad Leitch, a nododd fod 15,000 ULR ledled y DU, gyda tharged o 22,000 erbyn 2010[197]. Yn gyffredinol, mae dwysedd y pen ULR yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr. Gallai fod cyfle i Gyrfa Cymru Chwarae rhan fwy systematig o ran meithrin gallu yn y maes hwn.

4.48 Ystyriwyd y posibilrwydd o ddatblygu gwasanaethau â thâl i gyflogwyr gan rai cwmnïau Gyrfa Cymru, gan gydnabod bod marchnad yn bodoli eisoes lle mae cynghorwyr yn codi taliadau mawr, y gallai'r cwmnïau geisio dod yn rhan ohoni. Hyd yma, fodd bynnag, nid ydynt wedi gwneud mwy na rhoi blaenau eu traed yn y dŵr, yn rhannol oherwydd y diffyg arian i'w fuddsoddi, ac yn rhannol oherwydd y diwylliant yng Nghymru, lle disgwylir i'r gwasanaethau fel y rheiny a gynigir gan Gyrfa Cymru fod yn rhad ac am ddim.

4.49 Mater ehangach sy'n codi yma yw perthynas Gyrfa Cymru â darpariaeth y sector preifat. Yn gyffredinol, mae'r sector preifat mewn darparu cyfarwyddyd gyrfa yn llai o lawer nag yn Lloegr, lle nodwyd talu ffioedd a rôl marchnadoedd preifat fel mater polisi arwyddocaol gan OECD[198] – nid yw hyn yn wir yng Nghymru yn hyn o bryd. Fodd bynnag, mewn perthynas â gwasanaethau i gyflogwyr, mae marchnad yn weithredol, ac mae sawl cwmni ymgynghoriaeth sy'n cynnig gwasanaethau sy'n ymwneud â dileu swyddi (gan ddefnyddio cwmnïau Gyrfa Cymru o bryd i'w gilydd i ddarparu 'gwasanaeth am ddim' fel rhan o'r pecyn) ac sy'n ymwneud â datblygu adnoddau dynol[199]. Fel cwmnïau preifat, gall cwmnïau Gyrfa Cymru weithredu yn y farchnad hon os ydynt yn dymuno, ond pe byddant yn dod yn CCNC neu'n cyfuno â'r Cynulliad (gweler para.1.33), gallai fod yn anoddach iddynt wneud hynny. Y naill ffordd neu'r llall, gyda'u cylch gwaith cyhoedd ehangach, gallai fod yn fwy cyson iddynt ganolbwyntio mwy ar rôl sicrhau ansawdd yma na chanolbwyntio ar rôl darparu gwasanaeth helaeth. Gallai fod o werth archwilio'r modd y defnyddir safon y Matrics mewn perthynas â chyflogwyr a'r sector preifat (yn ogystal â'r sector cyhoeddus) yn Lloegr yn hyn o beth[200].

## Gweithio mewn partneriaeth

4.50 Ochr yn ochr â'u perthynas â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill, mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn gysylltiedig â nifer fawr o rwydweithiau lleol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt

[197] Adolygiad Leitch o Sgiliau (2006). *Prosperity for All in the Global Economy – World Class Skills,* t.92. Llundain: The Stationery Office.

[198] Organisation for Economic Co-operation and Development (2002). *OECD Review of Career Guidance Policies:United Kingdom Country Note*, tt.18-21. Paris: OECD.

[199] Hefyd, mae rhai darparwyr hyfforddiant yn y sector preifat sydd â chontractau â chyrff cyhoeddus – e.e. dan y Fargen Newydd – yn cynnwys elfennau o gyfarwyddyd yn eu darpariaeth (ar NVQ Lefel 4 fel arfer).

[200] Organisation for Economic Co-operation and Delelopent (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap,* t.133. Paris: OECD.

yn ymwneud â phobl ifanc yn hytrach nag o natur pob oedran. Maent yn disgyn i ddau brif gategori.

4.51 Un ohonynt yw'r Partneriaethau Pobl Ifanc (PPIau) a sefydlwyd yn 2002 o ganlyniad i Ddeddf Addysg a Sgiliau 2000, i ddarparu deg hawl Ymestyn Hawliau (y mae Addysg a Chyflogaeth yn un ohonynt, a Mynediad at Wybodaeth a Chyfarwyddyd yn un arall). Mae'r PPIau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, sectorau statudol eraill a'r sector gwirfoddol. Maent yn gosod yr agenda eang ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid i bobl ifanc 11 i 25 oed yn eu hardaloedd.

4.52 Y llall yw'r Rhwydweithiau 14-19, a sefydlwyd yn 2004 er mwyn sicrhau bod chwe elfen Llwybrau Dysgu 14-19 ar gyfer yr holl ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed yn cael eu rhoi ar waith yn eu hardal. Mae'r Rhwydweithiau hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, y sector AB, rhai darparwyr hyfforddiant a'r sector gwirfoddol (ac, mewn rhai ardaloedd, y Ganolfan Byd Gwaith). Maent yn gyfrifol yn benodol am sicrhau bod ystod o leiaf 30 o ddewisiadau dysgu ar gael i bob dysgwyr rhwng 14 a 19 oed (gweler para.4.10).

4.53 Cynrychiolir cwmnïau Gyrfa Cymru ar bob un o'r 22 Rhwydwaith 14-19 a'r 22 PPI – ym mhob achos, mae un ym mhob Awdurdod Lleol. Adroddodd arolygiad Estyn o gymorth Gyrfa Cymru i Lwybrau Dysgu fod cwmnïau Gyrfa Cymru yn cyfrannu'n dda at y partneriaethau, sy'n gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael eu cynrychioli gan uwch reolwyr sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau strategol[201]. Un o gryfderau cwmnïau Gyrfa Cymru yn y cyd-destunau hyn yw y gallant gyfrannu o safbwynt datblygiad pobl ifanc, gan ystyried safbwynt darparwyr dysgu a chyflogwr, fel ei ilydd. Mae hyn yn eu galluogi i chwarae rhan gatalytig werthfawr.

4.54 Yn gysylltiedig â hyn, mae'n werth nodi i ba raddau y gwahoddir cwmnïau Gyrfa Cymru yn fwyfwy aml i rolau cydlynu. Mae hyn yn wir, er enghraifft, mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn addysgu, cyflogaeth na hyfforddiant (para.2.46), pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (para.2.50), addysg yn gysylltiedig â gwaith (para.4.9) ac mewn perthynas ag anogwyr dysgu o bosibl (para.4.16).

4.55 Fodd bynnag, mae'r holl waith hwn yn gofyn llawer o adnoddau, yn enwedig i uwch reolwyr. Adroddodd Moulson a Prail fod aelodau timau rheoli yn treulio oddeutu 20-40% o'u hamser ar weithgareddau partneru[202]. Mae hyn yn codi materion yn ymwneud â'r cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau partneriaeth/cydlynu a darparu gwasanaethau, yn enwedig gan nad yw'r cyntaf yn arwain yn uniongyrchol ar allbynnau neu ganlyniadau mesuradwy. Gallai fod tyndra rhwng y ddwy rôl hefyd (para.4.9). Hefyd, gall gweithio mewn partneriaeth fod yn rhwystredig. Serch hynny, mae'n rhan bwysig o ymgorffori gwaith Gyrfa Cymru mewn cymunedau lleol, ac o ymgysylltu ar lefel strategol i ddod o hyd i atebion lleol i'r materion y maent yn eu hwynebu.

---

[201] Estyn (2008). *Cefnogi Llwybrau Dysgu,* t.4. Caerdydd: Estyn.
[202] Moulson, R. & Prail, S. (2004). *Adolygiad o Gyrfa Cymru – Adroddiad Terfynol,* t.24. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Arweinyddiaeth strategol**

4.56 Mae arweinyddiaeth strategol yn fater y rhoddodd adolygiad OECD lawer o sylw iddo. Nododd, ar draws maes mor wasgaredig, fod angen i'r llywodraeth ymgymryd ag arweinyddiaeth strategol a chydlyniad ar y cyd â rhanddeiliaid eraill - gan gynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant, cyflogwyr, undebau llafur, asiantaethau cymunedol, myfyrwyr, rhieni, defnyddwyr ac ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfa. Awgrymodd y gallai dulliau o gynnwys rhanddeiliaid gynnwys cyrff parhaol ar gyfer ymgynghori a chyngor y cynrychiolir rhanddeiliaid arnynt. Yn ogystal â thasgau eang fel gosod cyfeiriad strategol, nodi bylchau mewn gwasanaethau a chydlynu'r hyn y mae gwahanol randdeiliaid yn ei wneud, gellid rhoi'r cyfrifoldeb gweithredol i'r cyrff hyn dros dasgau y mae angen lefelau uchel o gydlyniad a chydberchnogaeth ar eu cyfer. Roedd enghreifftiau'n cynnwys: datblygu safonau ansawdd; a datblygu fframweithiau newydd ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau mewn cyfarwyddyd gyrfa[203].

4.57 Mae'n bosibl y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn yn llwyddiannus mewn persbectif DU gyfan ehangach. Rydym eisoes wedi nodi pwysigrwydd cyd-destun y DU mewn perthynas â brandio a marchnata (para.2.62-2.64), safonau proffesiynol (para.3.9) a'r polisi sgiliau a lles (para.4.38-4.39). Awgryma hyn fod angen dull mwy ffurfiol o arweinyddiaeth strategol i ddod â'r gwneuthurwyr polisïau a rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd yn barhaus, er mwyn rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael â materion sydd o bryder i'r naill barti a'r llall, lle gallai cydlynu polisïau fod yn gydfanteisiol. Ar hyn o bryd, mae cyswllt wedi'i seilio'n bennaf ar gysylltiadau anffurfiol rhwng y gweision sifil perthnasol yn y llywodraeth ganolog ac yn y gweinyddiaethau datganoledig; mae diflaniad y Cyngor Cyfarwyddyd wedi gadael bwlch o ran corff ymgynghori â rhanddeiliaid ehangach ar gyfer y DU[204]. Helpodd y Symposiwm Rhyngwladol ar Ddatblygu Gyrfa a Pholisi Cyhoeddus, a gynhaliwyd yn Aviemore, Yr Alban ym mis Hydref 2007, i feithrin cysylltiadau agosach: cynhaliwyd y symposiwm ar y cyd rhwng y pedair gwlad gartref, ac fe'i cynlluniwyd gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un ohonynt; mae hyn wedi darparu sail ar gyfer rhai o'r trafodaethau parhaus a fu'n digwydd ers y digwyddiad. Ond, mae anffurfioldeb y cysylltiadau hyn wedi caniatáu i rai materion pwysig lithro heibio (yn arbennig y mater marchnata a godwyd ym mharagraffau 2.62-2.64, nad yw'n ymddangos eu bod wedi'u trafod ledled y DU).

4.58 Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn yng nghyd-destun Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop (ELGPN) hefyd, a sefydlwyd yn ddiweddar gan aelod-wladwriaethau'r UE, gyda chyllid gan y Comisiwn Ewropeaidd. Tynnodd y papur a oedd yn amlinellu'r broses o sefydlu'r Rhwydwaith hwn sylw at y ffaith: "Sefydlwyd Fforymau Cyfarwyddyd Cenedlaethol neu grwpiau llywio cydlynu cenedlaethol, mewn sawl Aelod-wladwriaeth. Mae'r strwythurau hyn yn galluogi ystod eang o randdeiliaid i

[203] Organisation for Economic Co-operation and Developent (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap,* tt.124-125. Paris: OECD.

[204] Er mai un o wendidau cydnabyddedig y Cyngor oedd diffyg eglurder ynghylch p'un a oess yn gorff Seisnig neu'n gorff ar gyfer y DU i gyd. Gweler Alloway, J. (gol.) (2008). *The Story of the Guidance Council.* Caerlŷr: National Institute of Adult and Continuing Education.

ddatblygu cydsyniad ar amcanion strategol, cydweithio ar dasgau strategol a monitro a chefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau.' Ychwanegodd: "Lle bo cyrff cydlynu cenedlaethol neu fforymau yn bodoli, mae'r rhain yn darparu sail addas ar gyfer cyfansoddi dirprwyaethau cenedlaethol[205].' Cyhoeddwyd llawlyfr gan Cedefop i helpu gwledydd i ddatblygu fforymau neu ddulliau cydlynu eraill sy'n berthnasol i'w hanghenion, gan dynnu at brofiadau gwledydd eraill sydd wedi gwneud hynny hyd yma[206]. Yn ddiweddar, cefnogwyd rôl ELGPN yn gryf mewn Penderfyniad gan Weinidogion Cyngor yr UE[207].

4.59 Yn achos y DU, mae ei gynrychiolaeth yn ELGPN wedi bod ar sail braidd yn neilltuol hyd yma, gan gynnwys cynrychiolwyr o Loegr (DIUS), Yr Alban (Careers Scotland) a Gogledd Iwerddon (DELNI), ond nid o Gymru; bu cyfathrebiadau ag adrannau perthnasol eraill y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn anffurfiol ac yn gyfyng. Pe byddai'r ddirprwyaeth genedlaethol yn adrodd yn ôl i Fforwm/Rhwydwaith yn y DU, a fyddai yn ei dro yn cysylltu â fforymau ehangach ym mhob un o'r gwledydd cartref, byddai hon yn sail gadarn ar gyfer ymgysylltiad ehangach â'r Rhwydwaith Ewropeaidd, yn ogystal ag ar gyfer myned i'r afael â materion DU gyfan.

4.60 Cymerwyd rhai camau i ddechrau datblygu strwythur tebyg. Mae'r Alban wedi sefydlu Rhwydwaith Cyfarwyddyd yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, argymhellodd dogfen ymgynghori ddiweddar ar ddatblygu strategaeth addysg, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfa y dylid sefydlu Bwrdd Prosiect, wedi'i gadeirio ar y cyd gan DELNI a DENI, i arwain y gwaith o weithredu'r strategaeth; argymhellodd hefyd y dylid ffurfio fforwm o bartneriaid cyflenwi[208]. Yn Lloegr, un posibilrwydd fyddai ymestyn cylch gwaith y grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol sy'n cael ei sefydlu gan DIUS i gefnogi'r gwasanaeth gyrfa a datblygu oedolion newydd[209]. Er mwyn sicrhau ymgysylltiad llawn Cymru â'r datblygiadau hyn, a darparu arweinyddiaeth strategol yng Nghymru ei hun hefyd, byddai'n gynorthwyol pe gellid sefydlu fforwm Cymreig priodol, yn gysylltiedig â chefnogaeth Gymreig i fforwm y DU. Un cynullydd posibl ar gyfer corff tebyg fyddai Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, a allai arwain at berthynas ehangach â Chomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU. Gallai hyn roi isadeiledd ar waith a fyddai'n gydfanteisiol i wledydd cartref cyfansoddol y DU, a hefyd yn ei galluogi i chwarae rhan gref yn ELPGN ac mewn Symposia Rhyngwladol ar Ddatblygu Gyrfa a Pholisi cyhoeddus yn y dyfodol[210].

---

205 Comisiwn Ewropeaidd (2007). Sefydlu Rhwydwaith Polisi Cyfarwyddyd Gydol Oes Ewrop: Casgliadau a datganiad o egwyddorion y cyfarfod yn Helsinki, 7-8 Mai 2007.

206 Cedefop (2008). *Establishing and Developing Lifelong Guidance Policy Forums.* Thessaloniki: Cedefop.

207 Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2008). *Council Resolution on Better Integrating Lifelong Guidance into Lifelong Learning Strategies.* Brwsel: CEC.

208 Adran Addysg ac Adran Cyflogaeth a Dysgu (2007). *A Careers Education, Information, Advice and Guidance Strategy for Northern Ireland,* para.8.8, 7.8.5. Belffast: DENI/DELNI.

209 Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (2008). *Shaping the Future – a New Adult Advancement and Careers Service for England,* t.16. Llundain: DIUS.

210 Symposiwm Aviemore (para.4.57) oedd y pedwerydd mewn cyfres o ddigwyddiadau a gynhelir bob yn ail flwyddyn erbyn hyn. Cynhelir yr un nesaf yn Seland Newydd ym mis Tachwedd 2009. Y polisi arfer yw cael un tîm o bob gwlad, felly mae'n debyg y bydd angen i'r tîm yn Seland Newydd fod o'r DU i gyd.

4.61 Uwchlaw popeth, un o fanteision y datblygiadau hyn yw y byddai'n ei gwneud yn bosibl i Gymru ddangos ei chyflawniadau sylweddol yn fwy effeithiol nag y mae wedi gwneud hyd yma[211], ac i gael budd o rannu profiadau gyda gwledydd eraill. Yn y blynyddoedd diwethaf, fu'n llai amlwg o lawer yn rhyngwladol na'r gwledydd cartref eraill: er iddi gyd-gynnal y Symposiwm Rhyngwladol yn Aviemore (gweler para.4.57 uchod), cynrychiolwyr y tair gwlad gartref arall gan dimau o 3-5 o bobl, tra na chynrychiolwyd Cymru o gwbl; ac, fel y nodwyd ym mhara.4.59, Cymru yw'n unig wlad gartref na chynrychiolwyd yn uniongyrchol yng nghyfarfodydd ELGPN. Mae hwn wedi bod yn gyfle a wastraffwyd, ac mae angen unioni hyn.

**Casgliad**

4.62 Mae'r rhan fwyaf o waith presennol cwmnïau Gyrfa Cymru yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Maent yn cynnwys rhai elfennau meithrin gallu yn eu gwaith gydag ysgolion a cholegau, gyda chyflogwyr, ac yn y sector gwirfoddol a chymunedol, ond i raddau eithaf cyfyng. Os yw'r cwmnïau am ymateb yn ddigonol i ystod yr anghenion posibl o fewn adnodd cyfyng, mae achos cryf iddynt roi mwy sylw o strategaethau meithrin gallu yn y dyfodol. Gallai fod teilyngdod hefyd mewn archwilio'r cwmpas, mewn addysg uwch ond mewn mannau eraill hefyd o bosibl, ar gyfer ymestyn brand Gyrfa Cymru i ystod ehangach o ddarpariaethau, gan gynnal mynediad cyson.

4.63 Fel estyniad i'w waith cyfarwyddyd gyrfa, mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan bwysig o rôl cwmnïau Gyrfa Cymru: mae angen cydnabod goblygiadau hyn o ran adnoddau. Mae achos cryf hefyd dros gael fforwm cyfarwyddyd gyrfa ar gyfer Cymru, wedi'i gysylltu â Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru o bosibl, er mwyn darparu arweinyddiaeth strategol yn y maes cyfarwyddyd gyrfa ehangach. Dylai hwn fod yn gysylltiedig â fforwm y DU, er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio'r DU i gyd, ac i ddarparu sail i'r DU chwarae rhan gryfach mewn rhwydweithiau Ewropeaidd a byd-eang.

[211] Er ei bod wedi cael rhywfaint o amlygrwydd yn Ewrop trwy Gymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol dros Ddysgu Gydol Oes Ewrop.

# 5. Crynhoi ac Edrych i'r Dyfodol

## Meincnodau OECD

5.1 Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio archwilio gwaith Gyrfa Cymru mewn perthynas â'r meincnodau a ddarparwyd yn Adolygiad Polisi Cyfarwyddyd Gyrfa OECD. Yn benodol, mae wedi adolygu ei waith mewn perthynas â'r deg nodwedd o 'systemau cyfarwyddyd gydol oes' a nodwyd yn adolygiad OECD[212].

a. Tryloywder a mynediad rhwydd yn ystod yr einioes, gan gynnwys y gallu i fodloni anghenion ystod amrywiol o gleientiaid.
b. Sylw penodol i bwyntiau trosglwyddo allweddol yn ystod yr einioes.
c. Hyblygrwydd ac arloesed wrth ddarparu gwasanaethau i adlewyrchu gwahanol anghenion ac amgylchiadau grwpiau amrywiol o gleientiaid.
ch. Prosesau i symbylu adolygu a chynllunio rheolaidd.
d. Mynediad at gyfarwyddyd unigol gan ymarferwyr â chymwysterau priodol ar gyfer y rheiny sydd angen cymorth, pan fo'i angen arnynt.
dd. Rhaglenni i ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa.
e. Cyfleoedd i archwilio a chael profiad o ddewisiadau dysgu a gwaith cyn eu dewis.
f. Mynediad sicr ar wasanaeth sy'n annibynnol ar fuddiannau sefydliadau neu fentrau penodol.
ff. Mynediad at wybodaeth addysgol, alwedigaethol gynhwysfawr ac integredig a gwybodaeth am y farchnad lafur.
a. Ymgysylltiad â rhanddeiliaid perthnasol.

O'r rhain, aethpwyd i'r afael ag (a)-(d) yn Adran 2, a'r lleill yn Adran 4.

5.2 Mae'r adroddiad hefyd wedi ceisio adolygu gwaith Gyrfa Cymru mewn perthynas â'r chwe her i lunwyr polisïau y nododd adolygiad OECD eu bod wedi cael sylw minimol yn y rhan fwyaf o wledydd OECD[213]:

a. Sicrhau bod penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau yn rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i systemau sy'n datblygu sgiliau hunanreoli gyrfa a gwybodaeth am yrfa, a bod systemau darparu yn cydweddu lefelau o gymorth personol, o gymorth byr i gymorth helaeth, ag anghenion ac amgylchiadau personol, yn hytrach na chymryd yn ganiataol bod angen cyfarwyddyd gyrfa personol dwys ar bawb.

---

[212] Organisation for Economic Co-operation and Development (2004). *Career Guidance and Public Policy: Bridging the Gap*, tt.26, 138. Paris: OECD.
[213] *Ibid.,* t.148.

b. Sicrhau mwy o amrywiaeth yn y mathau o wasanaethau sydd ar gael ac yn y modd y'i darperir, gan gynnwys mwy o amrywiaeth o ran strwythurau staffio, defnydd ehangach o dechnegau hunangymorth, ac ymagwedd fwy integredig tuag at ddefnyddio TGCh.

c. Cydweithio'n agosach ag ymarferwyr cyfarwyddyd gyrfa er mwyn ffurfio natur addysg gychwynnol a phellach a chymwysterau hyfforddi er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau hunanreoli gyrfa, gwybodaeth well am yrfaoedd a darparu gwasanaethau mwy amrywiol.

ch. Gwella'r sail wybodaeth ar gyfer llunio polisïau cyhoeddus, gan gynnwys casglu data gwell ar yr adnoddau ariannol a dynol a ymroddir ar gyfer cyfarwyddyd gyrfa, ar anghenion a galw cleientiaid, ar briodweddau cleientiaid, ar foddhad cleientiaid ac ar ganlyniadau a chost effeithiolrwydd cyfarwyddyd gyrfa.

d. Datblygu dulliau gwell o sicrhau ansawdd a chysylltu'r rhain ag ariannu gwasanaethau.

dd. Datblygu strwythurau cryfach ar gyfer arweinyddiaeth strategol.

O'r rhain, eir i'r afael ag (a) a rhan o (b) yn Adran 2, (dd) yn Adran 4 a'r gweddill yn Adran 3.

5.3 Mae Gyrfa Cymru yn ymddangos yn gryf yn erbyn y rhan fwyaf o'r meini prawf hyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith yn erbyn sawl un ohonynt o hyd. Cynhwysir y rhain yn y rhestrau o heriau ac awgrymiadau eraill yn ddiweddarach yn yr adran hon.

**Cryfderau**

5.4 Ar sail yr adolygiad hwn, mae'n amlwg bod gan Gyrfa Cymru lawer o gryfderau dan ei strwythur presennol. Mae pump ohonynt yn benodol yn amlwg.

5.5 Y cyntaf yw ei **natur ffiniedig**. Awgrymodd adolygiad OECD y 'dylai blaenoriaeth y rheiny sy'n llunio polisïau yn y rhan fwyaf o wledydd OECD bod i greu strwythurau galwedigaethol a chyfundrefnol ar wahân a phriodol er mwyn darparu cyfarwyddyd gyrfa'[214]. Mae Gyrfa Cymru yn dangos enghraifft gref o'r ymagwedd hon. Mae ganddo genhadaeth glir a chydlynol, sef: 'datblygu pobl Cymru trwy gynllunio gyrfa gydol oes' (para.1.7). Gwrthwynebwyd unrhyw bwysau i niwlo'r genhadaeth hon trwy ymestyn ei gylch gwaith, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr (para.1.48), i raddau helaeth. Mae'r cysylltiadau addysg-busnes yn darparu rhywfaint o lacrwydd yn hyn o beth (para.4.12). Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae ystod gwasanaethau Gyrfa Cymru yn gydlynol ac yn synergaidd, gyda phob un yn ychwanegu gwerth at y lleill.

5.6 Yr ail yw **natur bob oed** ei wasanaethau. Tynnodd adolygiad OECD sylw at y ffaith bod sawl mantais i wasanaethau tebyg o ran trefniadaeth a defnyddio adnoddau,

[214] Ibid, t.102.

gan gynnwys eu bod yn fwy cost effeithiol gan eu bod yn osgoi dyblygu unrhyw adnoddau'n ddiangen (gweler para.1.42). Maent hefyd yn galluogi pobl ifanc i ymgyfarwyddo â gwasanaethau yn yr ysgol y byddant yn ei defnyddio'n hwyrach, yn osgoi torbwyntiau anhyblyg wrth symud o ieuenctid i oedolaeth, ac yn cynnig synergeddau a gwerth ychwanegol trwy ddarparu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion o fewn yr un fframwaith gwasanaeth[215].

5.7 Y trydydd yw ei **broffesiynoliaeth**. Yn gyffredinol, perchir ei wasanaethau'n fawr. Mae nifer y gwasanaethau a ddarperir ganddo yn nodedig. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â phobl ifanc, sy'n cael cyfarwyddyd gyrfa proffesiynol mwy di-dor nag yn y mwyafrif o wledydd eraill. Rhoddwyd sylw agos i sicrhau ansawdd, gan gynnwys safonau proffesiynol, systemau arolygu a mesur effaith. Yn erbyn pob un o'r meini prawf hyn, gall honni'n gyfiawn ei fod ymhlith y gorau yn y byd.

5.8 Y pedwerydd yw'r graddau y mae wedi'i **ymgorffori ym mholisïau'r Cynulliad**. O safbwynt y Cynulliad, mae'n darparu isadeiledd cryf sy'n gweithio wyneb yn wyneb â dinasyddion ac yn canolbwyntio arnynt, y gellir ei ddefnyddio i symud polisïau'r Cynulliad ymlaen. Cydnabuwyd hyn gan y Cynulliad wrth iddo ei ddyfynnu fel enghraifft o 'roi dinasyddion yn gyntaf' (para.1.12). Mae hefyd yn amlwg yn y modd y mabwysiadwyd Gyrfa Cymru Ar-lein fel teclyn cyfarwyddyd allweddol ac fel y prif declyn gweinyddol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19 (para.2.25). Hefyd, mae Gyrfa Cymru yn cyflawni rolau porthgadw pwysig ar gyfer nifer o raglenni'r Cynulliad, gan gynnwys Cyfrifon Dysgu Unigol (para.2.15), Adeiladu Sgiliau (para.2.44) a ReACT (para.2.53). Y tu hwnt i hyn, gellid ei ddefnyddio'n fwy helaeth nag ar hyn o bryd i roi adborth i'r rheiny sy'n llunio polisïau ar effaith polisïau unigol sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ynghyd ag eiriolaeth ar anghenion unigolion nas bodlonwyd (para.1.18).

5.9 Y pumed yw'r graddau y mae wedi'i **ymgorffori mewn cymunedau lleol**. Mae hyn yn amlwg yn ei ymgysylltiad agos â phartneriaethau lleol a rolau cydlynu (para.4.50-4.55), ac yn ei ystod o gysylltiadau a rhwydweithiau lleol. Mae'n arbennig o bwysig o ran ei alluogi i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a rhwng ardaloedd dwyieithog ac ardaloedd Saesneg eu hiaith yn bennaf, a hefyd â'r materion penodol sy'n ymwneud â datblygu cymunedol yng Ngogledd Cymru (para.1.22).

5.10 Mae'r cryfderau hyn yn cydberthyn yn agos â'i gilydd. Mewn unrhyw newidiadau a wneir, mae'n bwysig y dylid adeiladu ar eu hanfodion, yn hytrach na'u dirywio.

## Heriau

5.11 Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod Gyrfa Cymru yn wynebu sawl her bwysig.

5.12 Y cyntaf yw'r angen i roi mwy o sylw i anghenion **oedolion**. Er bod Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaethau i bobl o bob oedran, tua 15% yn unig o'i adnoddau a ddyrennir

[215] I ymhelaethu ar y pwyntiau hyn, gweler Careers England (2007). *An All-Age Strategy for Career Guidance in England.* Llundain: Careers England.

i gefnogi oedolion ar hyn o bryd[216]. Erbyn hyn, mae'r dyraniad isel hwn yn cael ei gwestiynu o dri safbwynt: yr agenda sgiliau eang (para.1.11); effaith diwygiadau lles (para.4.38-4.39); a'r cynnydd mawr tebygol yn nifer y swyddi a ddilëir (para.2.52). Gallai pob un o'r rhain fod â goblygiadau enfawr ar y galw ar adnoddau Gyrfa Cymru; gyda'i gilydd, mae eu heffaith yn debygol o fod yn anorchfygol.

5.13 Yr ail yw'r angen i benderfynu a yw Gyrfa Cymru yn wasanaeth **pob gallu** yn ogystal ag yn wasanaeth bob oedran. Mae hyn yn bendant yn wir hyd at 16 oed: mae'n gwasanaethu pob unigolyn ifanc. Fodd bynnag, wedi hynny, mae'n dueddol o gael ei atynnu at lefelau sgiliau is. Mae hyn i'w weld yn yr arfer mewn rhai ysgolion (er dim ond rhai ohonynt) lle y rheolir cyfarwyddyd ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth gan athrawon yn hytrach na chynghorwyr Gyrfa Cymru (para.2.37), yn y ffaith bod y rheiny sy'n symud i addysg uwch yn cael mynediad at ystod o wasanaethau gyrfa addysg uwch ar wahân (para.4.23ff), yn yr arfer mewn rhai cwmnïau Gyrfa Cymru o is-gontractio gwasanaethau ar gyfer graddedigion i'r gwasanaethau gyrfa addysg uwch hyn (para.4.30) ac yn y tueddiad i waith datblygu'r gweithlu Gyrfa Cymru targedu gweithwyr â sgiliau isel (para.4.45). Ar y llaw arall, mewn egwyddor, mae gweledigaeth Gyrfa Cymru, sef 'datblygu pobl yng Nghymru trwy gynllunio gyrfa gydol oes' yn berthnasol i bawb, a nod penodol Gyrfa Cymru Ar-lein yw 'galluogi pawb yng Nghymru i ddatblygu eu gyrfa a'u sgiliau dysgu trwy eu e-bortffolio eu hunain a chynnwys ategol y wefan' (para.2.22). Ar ben hynny, gall unrhyw un ffonio'r llinell gymorth (para.2.10ff), a gellir darparu cyfweliad i unrhyw un sy'n gofyn am un ac sy'n barod i aros (para.2.40): mae gan dros ddau draean o'r oedolion y cynhelir cyfweliadau â nhw gymhwyster Lefel 3 neu'n uwch (para.2.38). Rhesymeg hyn y bod Gyrfa Cymru yn ceisio gwasanaethu pob dinesydd, ond mewn gwahanol ffyrdd.

5.14 Pe byddai Gyrfa Cymru yn ymestyn ei wasanaethau i oedolion yn sylweddol o fewn ei fodel darparu gwasanaethau presennol, byddai angen cynyddu ei adnoddau'n fawr. Mae'r achos dros gynyddu rhywfaint ar y gyllideb yn gryf. Ond, mae pwysau'r gyllideb yn y Cynulliad (para.1.37) yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw gynnydd tebyg yn ddigonol, heb **ailfodelu** gwasanaethau'n sylweddol, gan ei gwneud yn bosibl i symud rhai o'r adnoddau a ddyrennir i bobl ifanc ar hyn o bryd at oedolion[217]. Bydd angen i hyn roi sylw i'r cydbwysedd a'r rhyngweithiad rhwng cyfweliadau unigol, gweithgareddau grŵp a gwasanaethau dros y ffôn ac ar y we (para.2.29)[218].

---

[216] Gyrfa Cymru (2008). *Papur 2 Gyrfa Cymru: Crynodeb o'r Gwasanaethau a Ddarperir gan Gyrfa Cymru,* t.5. Papur a baratowyd ar gyfer yr Adolygiad o Wasanaethau Gyrfa yng Nghymru.

[217] Nododd Adroddiad Webb 'yn raddol, wrth i garfan y bobl ifanc leihau, bydd yn bosibl symud rhywfaint o'r buddsoddiad'. Ond ychwanegol 'ni fydd hyn yn ddigonol i gefnogi dysgwyr ôl-19; bydd angen cyllid newydd neu arbedion mewn agweddau eraill ar waith yr Adran er mwyn datblygu'r gwasanaeth hwn'. Webb, A., Drury, S. a Griffiths, G. (2007). *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith,* t.89. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid nodi hefyd, er bod maint y garfan pobl ifanc yn lleihau erbyn hyn, disgwylir iddi gynyddu eto o gwmpas 2015.

[218] Crynodeb byr o'r ymchwil ar effaith gymharol, a dynnwyd o fetaddadansoddiadau yn UDW, yw os mai'r nod yw darparu'r buddion mwyaf i gleientiaid yn y cyfnod byrraf, y cyfweliad unigol yw'r ymyrraedd fwyaf effeithiol o bell ffordd. Ond, os mai'r buddion mwyaf i'r nifer fwyaf o gleientiaid fesul uned o adnoddau cynghorwyr yw'r maen prawf, yna mae ymyriadau eraill yn darparu mwy o gynhyrchedd. Gweler Watts, A.G. a Dent, G. (2006). The 'P'

5.15 Cydnabuwyd yr angen am ailfodelu tebyg gan Gyrfa Cymru eisoes, mewn perthynas â gwasanaethau i bobl ifanc a ystyrir ar eu telerau eu hunain. Ni ellir bodloni galw Llwybrau Dysgu 14-19 am gymorth ar bob un o'r pedwar pwynt penderfynu o fewn y model presennol, ac felly cydnabuwyd y bydd angen symud tuag at ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy gwahaniaethol (para.2.23). Mae achos cryf dros ddefnyddio'r egwyddorion hyn yn ehangach, ac yn fwy radicalaidd, ar draws yr ystod lawn o wasanaethau Gyrfa Cymru ac ar draws yr ystod lawn o'i gleientiaid presennol a'i ddarpar gleientiaid.

5.16 Bydd hon yn her fawr i Gyrfa Cymru. Mewn cyferbyniad â safonau uchel ei waith ar ansawdd ei wasanaethau (para.5.7), hyd yma, mae wedi rhoi llai o sylw o lawer na sefydliadau cyffelyb yn Lloegr, Yr Alban a Seland Newydd i integreiddio sianeli gwasanaeth yn agosach, i ddarparu gwasanaethau gwahaniaethol, i ymagweddau systematig tuag at gylchrannu cwsmeriaid, ac i farchnata ei wasanaethau mewn modd rhagweithiol (Adran 2). Mae'r materion hyn yn cydberthyn yn agos â'i gilydd. Mae angen mynd i'r afael â phob un ohonynt mewn modd mwy systematig a mwy strategol nag y gwnaed hyd yma.

5.17 Hefyd, mae angen i'r ailfodelu hwn fynd i'r afael â'r berthynas â darparwyr cyfarwyddyd gyrfa eraill, ac ag archwilio i ba raddau y gall Gyrfa Cymru ddyrannu mwy o'i adnoddau i **feithrin gallu eraill** i ddarparu gwasanaethau. Bydd hyn yn mynnu adolygiad mawr o'r trefniadau cytundebol â'r Cynulliad, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar feintiau targed yn ymwneud a darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ar hyn o bryd (para.1.39). Hefyd, mae achos dros archwilio'r cyfle, mewn addysg uwch ond mewn mannau eraill hefyd o bosibl, i ymestyn **brand Gyrfa Cymru** i ystod ehangach o ddarpariaethau, gan gynnal mynediad di-dor (para.4.33, 4.49).

5.18 Bydd pryderon y bydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn arwain at y risg o gyfaddawdu ansawdd. Yn fwy adeiladol, bydd angen ail-fframio'r modd y diffinnir ansawdd. Ond, nid yw'r model presennol yn gynaliadwy os yw mynediad am ei ymestyn yn sylweddol.

5.19 Os yw'r newidiadau hyn am gael eu cyflawni, bydd angen **arweinyddiaeth gref**, ynghyd â rhyngwynebu cryf â'r Cynulliad. Yn hyn o beth, mae'r strwythur presennol o chwe chwmni Gyrfa Cymru ar wahân, gyda seithfed cwmni dan gydberchnogaeth sy'n gwasanaethu'r chwech arall, yn achosi problemau. Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, mae'r arweinyddiaeth a'r berthynas â'r Cynulliad yn rhy wasgaredig.

5.20 Yn unol â hynny, mae achos cryf dros ailstrwythuro fframwaith cyfundrefnol Gyrfa Cymru. Mae'r opsiynau'n amrywio o gontract uniongyrchol â Chymdeithas Gyrfa Cymru ochr yn ochr â chontractau'r cwmnïau presennol, penodi CGC fel y prif gontractwr ac is-gontractio i'r cwmnïau gyrfa, i sefydliad unedol (un cwmni, neu CCNC, neu gyfuno â'r Cynulliad) (para.1.30-1.35). Mae canolrwydd y mater o arweinyddiaeth (a atgyfnerthir

---

word: productivity in the delivery of career guidance services. *British Journal of Guidance and Counselling, 34(2),* 177-189.

gan yr enghraifft yn Seland Newydd – gweler para.1.47) yn dueddol o fynd yn erbyn yr opsiwn cyntaf, a ffafrio'r opsiynau cryfach.

5.21 Ynghyd â hyn, mae angen cyfochrog i'r Cynulliad atgyfnerthu neu ail-fframio ei Gangen Polisi Gyrfaoedd a'i ryngwynebiad â Gyrfa Cymru.

5.22 I gloi, mae achos cryf dros gael fforwm cyfarwyddyd gyrfa i Gymru, wedi'i gysylltu â Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru o bosibl, i ddarparu arweinyddiaeth strategol yn y maes cyfarwyddyd gyrfa ehangach. Dylai hwn fod yn gysylltiedig â fforwm y DU, er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio'r DU i gyd, ac i ddarparu sail i'r DU chwarae rhan gryfach mewn rhwydweithiau Ewropeaidd a byd-eang.

**Awgrymiadau eraill**

5.23 Mae awgrymiadau eraill a wnaed yn ystod yr adroddiad wedi cynnwys:

a. Pan ddaw'r cylch presennol o arolygiadau Estyn i ben yn 2009, dylid achub ar y cyfle i adolygu a ellir cyfunioni ei fframwaith arolygu a safonau Cyfarwyddyd Gyrfa Cymru yn agosach i'w gilydd (para.2.6).

b. Wrth ddatblygu Gyrfa Cymru Ar-lein, mae angen datblygu 'bachau' er mwyn annog defnyddwyr i barhau i ddefnyddio'r e-bortffolio ar ôl 10 oed; dylai hyn gynnwys archwilio'r gallu i ryngweithredu ag e-bortffolios addysg uwch (para.2.26).

c. Wrth ddatblygu Gyrfa Cymru Ar-lein, dylid rhoi sylw hefyd i archwilio'r posibilrwydd o fwy o ryngweithio â chynghorwyr a phobl eraill, yn gysylltiedig â'r cyfleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gynigir gan dechnolegau Web 2.0 (para.2.27).

ch. Dylid gwneud gwaith i archwilio'r posibilrwydd o greu system rheoli cwsmeriaid integredig, sy'n cofnodi'r holl ryngweithio â'r un cleient, ni waeth pa ddull a ddefnyddir (para.2.29).

d. Dylid rhoi mwy o sylw i hyfforddiant rheoli ac arweinyddiaeth (para.3.11).

dd. Dylid ystyried comisiynau astudiaethau mesur effaith tymor hwy, bob tair blynedd o bosibl (para.3.22).

**Casgliad**

5.24 Mae Gyrfa Cymru yn sefydliad cryf a hynod broffesiynol, y dylai'r Cynulliad ymfalchïo ynddo. Mae ymhlith y gorau yn y byd o ran ei broffesiynoldeb a'i brosesau sicrhau ansawdd. Ond, ar hyn o bryd, nid yw'r cyflawni ei gylch gwaith pob oedran yn ddigonol. Bellach, mae dan bwysau cynyddol i wneud hynny. Os yw am fodloni'r heriau hyn a heriau eraill, mae angen iddo wneud newidiadau radicalaidd i'r modd y mae'n darparu gwasanaethau, heb erydu eu hansawdd. Bydd hyn yn mynnu arweinyddiaeth gref, a fydd yn ei thro yn mynnu strwythur mwy integredig a rhyngwynebiad cryfach â'r Cynulliad. Os caiff y newidiadau hyn eu gwneud, a'u trin yn dda, mae'r gallu gan Gyrfa Cymru i fod yn wasanaethau o'r radd flaenaf ac i wneud cyfraniad mwy fyth i ddatblygu dinasyddion Cymru, ac felly i ffyniant economaidd a chymdeithasol Cymru.

## Atodiad: Rhaglen Ymweliadau

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad:**<br>**Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br>**Parc Cathays**<br><br>**Amser:**<br>9.00am<br>**Gweithgaredd:**<br>Polisi gyrfaoedd<br>**Cyfarfod â:**<br>Mike Moss<br>(Pennaeth y Tîm Polisi Gyrfaoedd)<br>Mike Barry<br>(Tîm Polisi Gyrfaoedd),<br>Neil Thomas<br>(Adolygiad Gyrfa Cymru)<br><br>**Amser:**<br>10.00am<br>**Gweithgaredd:**<br>Ymestyn<br>**Hawliau:**<br>Cyfarfod â:<br>Suzanne Chisholm<br>(Pennaeth y Gangen Hawliau) | **Lleoliad:**<br>**Swyddfa**<br>**Porth Ieuenctid Caerdydd a'r Fro**<br>**33 Heol Siarl**<br>**Caerdydd**<br><br>**Amser:**<br>8.00-9.30am<br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodaeth strategol am rôlcyfrifoldeb a blaenoriaethau Gyrfa Cymru yn y sector addysg nad yw'n addysg uwch.<br>**Cyfarfod â:**<br>Brian Lightman<br>Pennaeth ac Arlywydd Blaenorol ASCL),<br>Malcolm Charnley<br>(Pennaeth a Chyfarwyddwr Fforwm)<br><br>**Amser:**<br>9.40-10.45am<br>**Gweithgaredd:**<br>Llinell gymorth Cymru | **Lleoliad:**<br>**CGC**<br>**Caerffili**<br>**(trwy'r dydd)**<br><br>**Amser:**<br>9.00am-12 canol<br>**Dydd**<br>**Gweithgaredd:**<br>Ystyried rôl a chyfrifoldeb CWA – strategol a gweithredol gan ganolbwyntio'n benodol ar:<br>CWO ESF<br>marchnata a rheoli gwybodaeth.<br><br>**Amser:**<br>9.00am:<br>**CWOL:**<br>trosolwg strategol gan gynnwys datblygu yn y dyfodol<br>Cyfarfod â:<br>Paul Messer a Mark Freeman | **Lleoliad:**<br>**Prif Swyddfa'r Gogledd Orllewin, 5 Llys Castan**<br>**Parc Menai**<br>**Bangor**<br><br>**(trwy'r dydd)**<br><br>**Amser:**<br>9.15- 9.45am<br>**Gweithgaredd:**<br>Cysylltiadau strategol a gweithredol rhwng y sector addysg uwch a Gyrfa Cymru<br>Cyfarfod â:<br>Dr David Roberts<br>(Cofrestrydd - Prifysgol Bangor)<br><br>**Amser:**<br>9.45am-10.30am<br>**Gweithgaredd:**<br>Trosolwg o Safonau Cyfarwyddyd | **Lleoliad:**<br>**Gwesty Parc Plaza, Caerdydd**<br><br>**Amser:**<br>9.30am-12.45pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Prif Weithredwyr<br><br>**Lleoliad:**<br>**Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays**<br>**Caerdydd**<br><br>**Amser:**<br>1.15pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Cyfarfod<br>ag aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Cyflogaeth Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a benodwyd i ddarparu cyfeiriad allanol i'r Adolygiad o Gyrfa Cymru: |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| John Pugsley (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu, 14-19)<br><br>Amser: **11.00am** **Gweithgaredd:** Anghenion dysgu ychwanegol **Cyfarfod â:** Bethan Cowan (Uwch Swyddog Datblygu Polisi ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol).<br><br>**Amser:** 12.00 canol dydd **Gweithgaredd:** Ymgysylltiad . sgiliau a pholisi cyflogaeth cyflogwyr **Cyfarfod â:** Bob Waller (Pennaeth Polisi Sgiliau, Cyflogadwyedd a Throsglwyddo Gwybodaeth) | Gyfan Perthynas â LICC/partneriaid/Lloegr Cyfarfod **â:** Pam Gilson (CWC&V) Sian Powell (APAGOS Pennaeth Cyfathrebu Allanol Marchnata) Mark Freeman (Prif Weithredwr CWC&V<br><br>**Amser:** 10.30am-12.45pm **Gweithgaredd:** **NEET:** Trafodaethau gweithredol ar rôl a chyfrifoldeb CW gan gynnwys Anogwyr Dysgu cymorth personol lleoli ac atgyfeirio enghreifftiau o ddarpariaethau lleol. | **9.30am** Ysgolion Cyfarfod â: Cedric Burden (Dirprwy Bennaeth Ysgol Dyffryn) Glan Rees (Pennaeth Cynorthwyol Glyn Derw) **10.30am:** ESF trosolwg strategol a gweithredol Cyfarfod â Kath Bermingham Andrew Watson, Trina Neilson **11.00am:** Marchnata a gwybodaeth: trosolwg strategol a gweithredol **Cyfarfod ag:** Isobel Brown Andrew Watson **11.45am:** **CWA:** trosolwg strategol a gweithredol Cyfarfod ag: Andrew Watson | Gyrfa Cymru a'u rhoi ar waith. **Cyfarfod â:** Sarah Finnegan-Dehn (CWNW) Joyce M'Caw (CWNE) Delyth Ellis-Jones (CWNW) Norma Jones (CWNE) Suzanne Metcalf (CWNE).<br><br>**Amser:** 10.40-10.50am **Gweithgaredd:** Cydweithio â'r Gwasanaeth Prawf **Ffôn:** Judith Williams, (Uwch Swyddog Prawf Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru). | Marcella Maxwell (Cadeirydd y Grŵp), Danny Saunders (Aelod o'r Grŵp)<br><br>**Lleoliad:** **Swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith, Tŷ'r Cwmnïau, Caerdydd**<br><br>**Amser:** 3.00pm **Gweithgaredd:** Cysylltiadau â'r Ganolfan Byd Gwaith **Cyfarfod â:** BonWestcott (IES â Chysylltiadau a Llywodraeth Cynulliad Cymru) Sam Huckle (Pennaeth y Gangen Cyflogadwyedd (LICC)) |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| **Amser:**<br>1.00pm Cinio<br><br>**Amser:**<br>1.30pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Gwasanae- thau Gyrfa Addysg Uwch<br>**Cyfarfod â:**<br>Ruth Hayton<br>(Uwch Reolwr Polisi AU)<br>Jackie Cresswell-Griffith<br>(Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru)<br>Emma Harrison<br>(Cadeirydd Gwasanaeth Gyrfa Addysg Uwch Cymru).<br><br>**Lleoliad:** Pencadlys EstynTŷ Angor Caerdydd<br>**Amser:**<br>3.00pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Estyn Cyfarfod â:<br>Bernard O'Reilly<br>Alun Connick | **Amser:**<br>11am-12.30pm<br>**Cyfarfod â:**<br>Shirley Rogers<br>(CWC&V)<br>Graham Bowd<br>(CCW),<br>Rhys Cornwall<br>(CWMGP)<br>Simon Morris<br>(PPaPhI Caerdydd)<br>John Fabes<br>(Rhwydwaith 14-19 Caerdydd)<br>a darparwyr hyfforddiant<br>Andrew Cooksley<br>(ACT)<br>Sportrain –<br>Jim Holohan<br>(Sportrain)<br>a'r sector gwirfoddol -<br>Sam Austin<br>(Tai Llamau)<br><br>**Amser:**<br>12.30-1.00pm<br>**Cyfarfod â:**<br>Shirley Rogers<br>(CWC&V) | **Amser:**<br>12.30pm Cinio<br><br>**Amser:**<br>1.00pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Anghenion dysgu ychwanegol: strategol/gweithredol<br><br>**Amser:**<br>1.00-1.45pm<br>**Cyfarfod ag:**<br>Alison Jones<br>(CWW)<br>Anne Woodhouse<br>(GCCaF)<br>Steve Hole<br>(GCMGaPh)<br>JayneTilley<br>(CWMGP)<br><br>**Amser:**<br>1.45-2.30pm<br>Rhanddeiliaid anghenion dysgu ychwanegol<br>**(ffôn)** | **Amser:**<br>10.50-11.00am<br>**Gweithgaredd:**<br>Cysylltiadau â chyflogwyr<br>**Ffôn:**<br>Caroline Langford<br>(Ysbyty Maelor)<br><br>**Amser:**<br>11.00-11.45am<br>**Gweithgaredd:**<br>Cyfarwyddyd gyrfa pob oed<br>(sefydliadau partner)<br>**Cyfarfod ag:**<br>Angharad ap Iorwerth<br>(Rheolwr Genesis Gwynedd)<br>Mike Jackson<br>(Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol Ymddiriedol-aeth GIG Gogledd Orllewin) Cymru<br>Mary Caldwell<br>(Canolfan Merched Gogledd Cymru) | |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| | Graham Bowd<br>(CWW),<br>Rhys Cornwall<br>(CWMGP)<br>a'r sector gwirfoddol -<br>Sam Austin<br>(Tai Llamau)<br><br>**Amser:**<br>12.30-1.00pm<br>**Cyfarfod â:**<br>Shirley Rogers<br>(CWC&V)<br>Graham Bowd<br>(CWW)<br>Rhys Cornwall<br>(CWMGP)<br><br>**Amser:**<br>1.00pm Cinio<br><br>**Amser:**<br>1.30pm-2.15pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Trafodaeth gyffredinol am ymgysylltiad cyflogwyr gan gynnwys:<br>a. cyflogwyr yn cefnogi | **1.45pm**:<br>Andy Henderson,<br>(Pennaeth Ysgol Anghenion Arbennig)<br>**2pm**:<br>Paul Brown<br>Byw'n Annibynnol<br>Coleg Gwent<br>**2.15pm:**<br>Nicola Crews<br>RNIB<br><br>**Amser:**<br>2.40-3.00pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Carchar<br>y Parc a gwaith gyda throseddwyr<br>**Cyfarfod â:**<br>Cathy Murphy<br>(CWMGP)<br>Michael Keoharne<br>(CWMGP)<br>Sacha Davies<br>(CWC&V). | Cadi Evanson<br>(Cymunedau Nesaf)<br><br>**Amser:**<br>**11.45am-12.00 canol dydd**<br>Gweithgaredd: ReACT<br><br>**Ffôn:**<br>Eleri Lewis<br>(ReACT)<br><br>**Amser:**<br>12.00 canol dydd -<br>12.30pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Darparu gwasanaethau cyfarwyddyd ieuenctid mewn cyd-destun dwyieithog a gwledig<br>**Cyfarfod â:**<br>Dr Brian Jones<br>(Pennaeth Ysgol David Hughes)<br>Gwyn Parri<br>(Pennaeth Gwasanaeth Addysg Cyngor Môn) | |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| | gweithgareddau GC e.e.<br>ymwybyddiaeth o<br>add-bus<br>gweithgareddau menter<br>cyfoethogi'r cwricwlwm<br>ac ati<br>b. cymorth GC i<br>gyflogwyr e.e.<br>swyddi gwag<br>2. ymgysylltiad<br>strategol gan gynnwys<br>CSSau<br>FSW EEW adroddiad<br>EE a pholisi LICC<br>**Cyfarfod â:**<br>Trina Neilson<br>(CWG)<br>Jeff Evans<br>(CWC&V)<br>Beth Titley<br>(CWMGP)<br>Andrew Kirby<br>(CWW)<br><br>**Amser:**<br>2.20pm<br>Dave Rosser<br>CBI (galwad ffôn) | **Amser:**<br>3.00-3.30pm<br>**Gweithgaredd:**<br>PI Cymru<br>Gyfan<br>Cyfarfod â:<br>Ray Collier<br><br>**Amser:**<br>3.30pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Diwedd<br>**Cyfarfod ag:**<br>Ann Evans<br>Ray Collier | **Amser:**<br>12.30-1.00pm<br>**Cinio**<br><br>**Amser:**<br>1.00-1.45pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Cyfarwyddyd Gyrfa pob<br>oed – ffocws<br>gweithredol<br>gwasanaethau<br>cyfarwyddyd<br>mewn addysg<br>**Cyfarfod ag:**<br>Alwyn Williams<br>(Dirprwy<br>Bennaeth<br>Ysgol y Bont)<br>Rhian Jones<br>(Cydlynydd Gyrfa<br>Ysgol y Moelwyn)<br>J Phillips<br>(Rheolwr<br>Coleg Glannau<br>Dyfrdwy)<br>Heather Roberts | |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| | **Amser:**<br>2.40pm<br>Menter yr Ifanc -<br>Anne Colwil<br>(galwad ffôn) | | (cyflogwr lleol sy'n cyfrannu at waith mewn addysg)<br>**Galwad ffôn:**<br>Linda Coolidge<br>(Cydlynydd Gyrfa Ysgol Bryn Hyfryd) | |
| | **Amser:**<br>3.00pm<br>WFD a dileu swyddi:<br>Tom Whyatt<br>(Continental Teves Blaenau Gwent)<br>(galwad ffôn) | | **Amser:**<br>1.45-2.30pm<br>**Gweithgaredd:** Gwaith Gyrfa Cymru â'r sector AU<br>**Cyfarfod â:**<br>Dr Haydn Edwards<br>(Pennaeth Coleg Menai)<br>Annie Williams<br>(Pennaeth CAG Coleg Harlech) | |
| | **Amser:**<br>3.30pm<br>Deri Bevan<br>Cronfa Dysgu'r Undeb TUC **(galwad ffôn)** | | | |
| | **Amser:**<br>4.00pm<br>Cyfarfod â:<br>Trina Neilson<br>Beth Titley<br>Andrew Kirby | | **Amser:**<br>2.30-3.15pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Cyfraniad Gyrfa Cymru at<br>Lwybrau Dysgu 14-19 | |

| Dydd llun 17 | Dydd mawrth 18 | Dydd mercher 19 | Dydd iau 20 | Dydd gwener 21 |
|---|---|---|---|---|
| | **Amser:**<br>4.35pm<br>**Amser:**<br>4.35pm<br>**Cyfarfod â:**<br>Trina Neilson,<br>Mark Freeman<br><br>**Gyda'r nos:**<br>(Galwad ffôn i<br>June Jensen<br>Arlywydd y Gymdeithas<br>Addysg a Chyfarwyddyd<br>Gyrfa) | **Gyda'r nos:**<br>(Galwad ffôn i<br>Gwyn Thomas,<br>Cadeirydd y<br>Bwrdd CWNW) | **Cyfarfod ag:**<br>Elfyn Jones<br>(Gwynedd)<br>Janice Wingett<br>(Wrecsam)<br>Ellen<br>Vaughan Williams<br>(Anogwr Dysgu)<br>Kerry Urguart<br>(Anogwr Dysgu)<br>Ffiona Williams<br>(CWNW)<br><br>**Amser:**<br>3.15-4.15pm<br>**Gweithgaredd:**<br>Trosolwg<br>**Cyfarfod â:**<br>Sarah Finnegan-Dehn,<br>Joyce M'Caw | |

Trafodaethau eraill dros y ffôn:

26/11/08 - Mike Hopkins, Pennaeth yr Is-adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr, APADGOS, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
27/11/08 - Iwan Trefor Jones, aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Hefyd, cynhaliwyd tri chyngyfarfod ar 10/11/08 gydag aelodau o APADGOS a Phrif Weithredwyr cwmnïau Gyrfa Cymru.